# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | **GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 4 RHAGFYR 2025 am 2:00 y. p.** | **THURSDAY, 4 DECEMBER, 2025 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |

| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts, *Sedd Wag/Vacant Seat*

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Paul Ellis, Kenneth Hughes

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** Dr Geraint Jones, William Maund, William Parry

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gn unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 30 Medi 2025
- 23 Hydref 2025 (arbennig)

4 **LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 19 - 26)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

5 **CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2024/25 YN YMGORFFORI LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2024/25** (Tudalennau 27 - 66)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

6 **LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO) 2024/25** (Tudalennau 67 - 80)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

7 **DIWYGIO'R CYFANSODDIAD: RHOI CYMERADWYAETH DERFYNOL I GYFRIFON BLYNYDDOL Y CYNGOR** (Tudalennau 81 - 86)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

8 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 87 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

9 **ADOLYGIAD O'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG A DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISG STRATEGOL** (Tudalennau 93 - 136)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**10** **ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2025/26** (Tudalennau 137 - 154)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**11** **ARCHWILIO ALLANOL - ADRODDIAD MONITRO** (Tudalennau 155 - 178)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**12** **ARCHWILIO ALLANOL: MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2024/25 - DIWEDDARIAD AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 179 - 192)

Cyflwyno adroddiad Archwlio Cymru.

**13** **ARCHWILIO ALLANOL: RHEOLAETH STRATEGOL AR FALANSAU A CHRONFEYDD WRTH GEFN - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 193 - 212)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru ynghyd â'r ymateb rheolaethol.

**14** **ARCHWILIO ALLANOL: TREFNIADAU AR GYFER COMISIYNU GWASANAETHAU - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 213 - 232)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru ynghyd â'r ymateb rheolaethol.

**15** **ADOLYGIAD O'R FLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 233 - 242)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 30 Medi, 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod hwn yn unig)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Kenneth Hughes, Keith Roberts, Ieuan Williams.<br><br>Aelodau Lleyg: Dr Geraint Jones, William Maund, William Parry. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS)<br>Rheolwr Tîm Perfformiad a Phrosiectau (GP)<br>Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd (ar gyfer eitem 5)<br>Prif Swyddog Digidol (MH) (ar gyfer eitem 14)<br>Rheolwr Seilwaith TG (MD (ar gyfer eitem 14)<br>Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (ar gyfer eitem 5)<br>Peiriannydd Diogelwch Arweiniol (CTC) (ar gyfer eitem 14)<br>Prif Archwilydd (NW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu) (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai), (Rachel Freitag (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Carwyn Rees (Rheolwr Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (CSYM), Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol (SH)(CSYM), Uwch Archwilydd (AL) (IoACC) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r ddau Aelod Lleyg sydd newydd eu penodi, Dr Geraint Jones a William Maund, i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn absenoldeb y Dirprwy Gadeirydd, y Cynghorydd Euryn Morris, etholwyd y Cynghorydd Margaret M. Roberts i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd yr ymddiheuriad am absenoldeb a'i nodi.

### 2. DATGANIAD O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

## 3. HANES Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4. LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys log gweithredoedd y pwyllgor i'w ystyried. Mae'r adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau gweithredu a'r penderfyniadau y cytunwyd arnynt.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar eitem 19 ar y log gweithredoedd, gan nodi y bydd Llythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/25 yn cael ei ailgyhoeddi oherwydd mater yn ymwneud â data. O ganlyniad, bydd y Llythyr bellach yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025. O ganlyniad, mae adroddiad Pryderon Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol y Swyddog Monitro 2024/25 hefyd wedi'i ohirio tan gyfarfod mis Rhagfyr i gyd-fynd â chyflwyno Llythyr OGCC. O ran eitem 27 ar y log gweithredoedd sy'n ymwneud â dadansoddi cyfraddau ymadael staff, yn benodol symudiadau mewnol yn hytrach na rhai sy'n ymadael i swyddi allanol, mae Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau wedi ymgynghori ag AD ar y mater hwn ac wedi cael gwybod nad yw'r system AD bresennol yn un sy'n olrhain symudiadau staff yn effeithiol rhwng gwasanaethau. Mae swyddogion yn ymchwilio i hyn ymhellach ac yn anelu at ddiweddaru aelodau yn y cyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd aelod o'r pwyllgor at adroddiad Archwilio Cymru a gyflwynwyd yn flaenorol ar y defnydd o wybodaeth am berfformiad - persbectif a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth. Gofynnodd sut mae argymhellion yr adroddiad yn cael eu dilyn i fyny, gan nodi nad ydynt wedi'u rhestru yn y log gweithredoedd. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, tra bod Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau yn monitro gwaith y Cyngor i weithredu argymhellion archwilio allanol, byddai hi'n sicrhau eu bod yn cael eu monitro.

**Penderfynwyd nodi'r camau gweithredu y manylir arnynt yn y tabl log gweithredoedd a chadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod y gweithredoedd wedi'u gweithredu i'w foddhad.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch y Cyngor ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o weithgarwch iechyd a diogelwch yn y Cyngor yn ystod y cyfnod, gan gynnwys dadansoddiad o ddamweiniau a digwyddiadau ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Roedd hefyd yn rhestru'r prif bethau a gyflawnwyd ac yn amlinellu cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd i roi sicrwydd i'r pwyllgor ynghylch perfformiad Iechyd a Diogelwch y Cyngor.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y pwyllgor y materion canlynol –

- Gofynnodd y pwyllgor faint o'r damweiniau a'r digwyddiadau a adroddwyd a oedd i'w priodoli i hyfforddiant annigonol neu fethu â dilyn protocolau iechyd a diogelwch.

  Esboniodd y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, er nad yw'r ystadegyn penodol hwn yn cael ei gofnodi, fod trefn o ymchwilio i bob damwain a digwyddiad i bennu ei achos. Nododd fod mwyafrif y staff wedi derbyn yr hyfforddiant iechyd a diogelwch angenrheidiol, ac nad yw cyfran sylweddol o ddigwyddiadau yn y data yn



DRAFT

gysylltiedig â gweithwyr sy'n ymwneud â disgyblion mewn ysgolion neu gleientiaid mewn cartrefi gofal. Ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud yn benodol â gweithwyr, adolygir pa mor ddigonol yw'r hyfforddiant a ph'un ai a oes asesiadau risg priodol yn bodoli. Er nad yw'r union ffigurau ar gael, yn y rhan fwyaf o achosion mae hyfforddiant wedi bod yn ddigonol ac mae protocolau wedi'u dilyn.

Mewn cwestiwn dilynol, gofynnodd y pwyllgor a ddylid olrhain ac adrodd gwybodaeth o'r fath, gan y gallai trefn o nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio neu hyfforddiant annigonol helpu i atal damweiniau yn y dyfodol. Cydnabu Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd y pwynt a dywedodd y gallai fod yn bosibl dadansoddi a nodi patrymau fel bylchau hyfforddi, yn seiliedig ar y data digwyddiadau a dderbyniwyd gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Cadarnhaodd fod awgrym y pwyllgor wedi'i nodi.

- Cyfeiriodd y pwyllgor at gynllun gweithredu strategol iechyd a diogelwch 2025/26 a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar ffurf tabl. Nododd yr Aelodau fod y camau gweithredu arfaethedig wedi'u diffinio'n eang iawn, gan ei gwneud hi'n anodd monitro cynnydd yn effeithiol. Awgrymwyd y dylai pob gweithred fod yn rhai CAMPUS h.y. Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

  Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd fod y gwasanaeth ar hyn o bryd yn datblygu cynllun strategol tair i bedair blynedd fwy manwl a fydd yn cynnwys targedau penodol a chanlyniadau mesuradwy. Y bwriad yw cyflwyno'r cynllun i'r bwrdd rheoli corfforaethol.

  Croesawodd y pwyllgor y wybodaeth a chynigiodd fod y cynllun strategol tair blynedd gorffenedig sy'n cynnwys camau gweithredu CAMPUS yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn i'w adolygu maes o law.

- Gofynnodd y pwyllgor a oedd y ffaith bod llai o adroddiadau Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn ystod 2024/25 yn ganlyniad i gam bwriadol gan y Cyngor i liniaru'r risg neu a oedd yn fater o lwc.

  Mewn ymateb, dywedodd y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod y gostyngiad yn deillio o gyfuniad o'r ddau ffactor. Eglurodd, ers y pandemig, fod y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi cymryd agwedd ragweithiol wrth rannu gwybodaeth gyda staff a'u helpu i ail-ymgyfarwyddo â systemau iechyd a diogelwch. Mae hyn wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff o'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn, wedi'i gefnogi gan ymgysylltu parhaus gan y tîm Iechyd a Diogelwch. Er y gallai'r cynnydd o ran ymwybyddiaeth fod wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn digwyddiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt, pwysleisiodd y gall damweiniau ddigwydd ar unrhyw adeg. Nododd fod yn rhaid parhau i gadarnhau pwysigrwydd iechyd a diogelwch yn gyson ar draws y sefydliad.

- Gofynnodd y pwyllgor a oes adroddiadau o fewn y flwyddyn ar gael i nodi sut mae'r flwyddyn 2025/26 bresennol yn mynd rhagddi.

  Dywedodd y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod adroddiadau'n cael eu darparu i'r gwasanaethau unigol ac i'r tîm rheoli corfforaethol. O'r hyn y gallai ei gofio, mae ffigyrau digwyddiadau ar hyn o bryd ychydig yn is na rhai'r flwyddyn flaenorol er bod patrymau hanesyddol yn awgrymu bod digwyddiadau yn tueddu i godi yn y trydydd chwarter. Cadarnhaodd y gellid darparu ffigurau os oes angen.

- Mewn perthynas â gallu'r Cyngor o ran rheoli iechyd a diogelwch, gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ynghylch sut mae'r sefydliad yn dynodi ei hun yn hyn o beth. Hefyd holodd y

DRAFT

pwyllgor a yw'r duedd sylfaenol mewn ystadegau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn achos pryder.

Roedd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd yn cydnabod bod agweddau tuag at staff y Cyngor yn bryder a byddant yn cael sylw eleni. Mae prosesau ar gyfer casglu, monitro a rhannu data yn cael eu hadolygu ar y cyd â'r gwasanaethau Trawsnewid a TG i fabwysiadu dull mwy digidol a gwella hygyrchedd.

- Gofynnodd y pwyllgor a yw digwyddiadau lle ceir ymddygiad heriol neu dreisgar lle mae staff yn absennol oherwydd effaith feddyliol yn hytrach na chorfforol, yn cael eu cofnodi.

  Cadarnhaodd y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi. Eglurodd, pan fo anaf yn hysbys a bod yr aelod o staff i ffwrdd o'r gwaith yn dilyn digwyddiad, byddai hynny'n cael ei gofnodi a gallai olygu bod adroddiad RIDDOR yn cael ei baratoi. Er mai anafiadau corfforol yw achos absenoldeb yn gyffredinol, mae absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl sy'n para saith diwrnod neu fwy o bosibl yn rhai y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt mewn adroddiad RIDDOR a byddent hefyd yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

- Nododd y pwyllgor fod angen ymatebion wedi'u teilwra a chynlluniau iechyd a diogelwch unigol ar wahanol leoliadau fel ysgolion. Gofynnwyd a yw gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur yn erbyn y cynlluniau hyn.

  Dywedodd y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, er bod y tîm yn anelu at fabwysiadu dull mwy strategol eleni, mae cynlluniau gweithredu gwasanaeth-benodol wedi'u paratoi yn hanesyddol. Nododd fod ysgolion yn wahanol iawn i wasanaethau fel priffyrdd, gwastraff ac eiddo gyda mesurau rheoli wedi'u teilwra i bob amgylchedd. Disgwylir i wasanaethau gynnal cynlluniau gweithredu iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i wasanaethau i fonitro cynnydd ar hyd y flwyddyn.

  **Penderfynwyd, ar sail yr amod ym mhwynt bwled tri isod, bod y pwyllgor yn**

  - **Derbyn bod gweithgareddau'r Cyngor ynghylch Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn mynd i'r afael â risg a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol.**
  - **Cymryd sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch i lefel dderbyniol.**
  - **Nodi ac yn croesawu bwriad y gwasanaeth i baratoi cynllun strategol tair blynedd sy'n cynnwys camau gweithredu CAMPUS a'u bod yn gofyn i'r cynllun gorffenedig gael ei gyflwyno i gyfarfod y pwyllgor hwn yn y dyfodol.**

### 6. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi diweddariad ar 30 Medi, 2025 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol ar 30 Mehefin 2025 i'w ystyried gan y pwyllgor. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith presennol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig yn y dyfodol. Darparwyd copïau o'r adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod mewn perthynas â Rheoli'r Risg Tlodi (YM11) (Sicrwydd Rhesymol), Monitro Parhaus – y Gyflogres (Sicrwydd Rhesymol), a Monitro Parhaus – Credydwyr (Sicrwydd Rhesymol), a Monitro Parhaus – Credydwyr (Sicrwydd Rhesymol).

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg a ddarparodd drosolwg o'r tri adroddiad sicrwydd a gwblhawyd yn y cyfnod ynghyd â'r materion a nodwyd. O ran yr adolygiad archwilio Monitro Parhaus – Credydwyr, tynnodd sylw at y ffaith y llwyddwyd i adennill oddeutu £60,000 o daliadau dyblyg a nodwyd yn flaenorol ers yr adolygiad diwethaf

ym mis Medi 2024. Mae'r Tîm Taliadau yn parhau i geisio adennill y £65,000 sy'n weddill. Nododd ymhellach fod yr ymarfer blynyddol hwn yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Tîm Taliadau. Mae hyn yn dilyn derbyn pris o £53k gan gyflenwr meddalwedd arweiniol, sy’n gweithio â chynghorau cyfagos, am gontract tair blynedd i gynnal ymarfer tebyg.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ar yr adroddiad diweddaru, cododd y pwyllgor y materion canlynol -

- Cwestiynodd y pwyllgor y rhesymeg y tu ôl i bennu sgôr "Sicrwydd rhesymol" i'r adolygiad Rheoli'r Risg Tlodi. Awgrymodd y pwyllgor fod y materion a nodwyd, sydd wedi'u categoreiddio fel rhai cymedrol, mewn gwirionedd yn rhai mwy sylweddol ac felly dylid diwygio’r sgôr yn unol â hynny.

  Mewn ymateb, esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod matrics asesu risg y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i werthuso risg, gan bwyso a mesur tebygolrwydd yn erbyn effaith a bod yr archwilydd wedi ystyried bod y risg yn gymedrol (Melyn). Er bod prosesau a mecanweithiau priodol ar waith ar gyfer rheoli'r risg o dlodi, mae angen gwelliannau sy'n cynnwys sicrhau bod camau gweithredu yn rhai CAMPUS a chryfhau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o fewn y Strategaeth Trechu Tlodi, yn enwedig trwy roi mwy o sylw i groestoriadedd. Mewn ymateb i ymholiadau pellach ynghylch y cynlluniau gweithredu sydd ar gael, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Cynllun Strategol Trechu Tlodi y Cyngor yn cael ei gefnogi gan gynllun gweithredol sydd ar wahân i'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r chwe mater/risg a nodwyd yn yr adolygiad archwilio. Gofynnodd y pwyllgor am gopïau o'r ddau gynllun.

- Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ynghylch y sylw yn adolygiad archwilio Rheoli'r Risg Tlodi fod ymgysylltu â staff yn parhau i fod yn gyfyngedig. Cwestiynodd yr aelodau a oedd hyn yn arwydd o risg systemig ddyfnach y dylid rhoi sylw ffurfiol iddo.

  Esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y mater yn deillio o gynlluniau darparu gwasanaethau'r Cyngor. Er bod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael ei chydnabod o fewn cynlluniau strategol ehangach, nid yw wedi'i chynnwys yn ddigonol yn y Strategaeth Trechu Tlodi ac mae angen mwy o integreiddio rhwng y ddau gynllun gweithredu. Hefyd nid yw’r strategaeth yn rhoi ystyriaeth ddigonol i groestoriadedd lle gall pobl yr effeithir arnynt gan anfantais economaidd-gymdeithasol hefyd wynebu heriau oherwydd hil, rhyw neu rywioldeb. Nid yw'r dimensiwn hwn wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn y Strategaeth Trechu Tlodi. Hefyd eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er bod y strategaeth dan berchnogaeth ffurfiol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ei bod yn berthnasol ar draws holl wasanaethau'r cyngor ac mae gan bob adran rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â thlodi.

- Cododd y pwyllgor bryderon ynghylch a yw adolygiad Rheoli'r Risg Tlodi yn ystyried ffactorau ehangach, yn benodol canran y plant sy'n dal i fyw mewn tlodi a nifer yr ymosodiadau yn erbyn staff yn y sector ysgolion cynradd, fel y trafodwyd yn flaenorol yn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch. Holodd yr Aelodau a oedd cysylltiad rhwng y materion hyn, gan awgrymu y gallai'r risg o dlodi fod yn amlwg mewn ymddygiadau o'r fath ac y dylai'r adolygiad dynnu'r llinynnau hyn at ei gilydd.

  Cydnabu'r Pennaeth Archwilio a Risg y pwynt, gan nodi ei fod yn atgyfnerthu'r angen am berchnogaeth ar y cyd o'r Strategaeth Trechu Tlodi. Cadarnhaodd y byddai'n cyfleu'r sylw i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y Strategaeth.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y risg o dlodi yn ddeublyg: yn gyntaf, rôl y Cyngor wrth gefnogi dinasyddion Ynys Môn yr effeithir



DRAFT

arnynt gan dlodi; ac yn ail, yr effaith ar wasanaethau'r Cyngor. Wrth i nifer y bobl sy'n profi tlodi gynyddu, pwysleisiodd fod y galw am wasanaethau hefyd yn cynyddu, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol, tai a budd-daliadau i oedolion a phlant, felly mae'r risg yn cael ei chynnwys ar y gofrestr risg strategol, gan y gallai effeithio'n sylweddol ar adnoddau'r Cyngor.

**Penderfynwyd nodi canlyniad gwaith Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'i flaenoriaethau yn y dyfodol.**

**Camau gweithredu ychwanegol: Pennaeth Archwilio a Risg i ddosbarthu Cynllun Gweithredol y Strategaeth Trechu Tlodi a chynllun gweithredu adolygiad archwilio Risg Tlodi i aelodau'r pwyllgor.**

## 7. RISGIAU, MATERION A CHYFLEOEDD ARCHWILIO MEWNOL SY'N WEDDILL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws y materion sy'n weddill, y risg a'r cyfleoedd y mae Archwilio Mewnol wedi'u codi, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'i brif bwyntiau. Ar 31 Awst 2025, roeddem yn olrhain 73 o weithredoedd oedd angen sylw. Roedd 10 ohonynt yn risgiau 'sylweddol' (ambr) a 63 yn 'gymedrol' (melyn). Darparwyd dadansoddiad manwl o statws cyfredol y materion, y risgiau a'r cyfleoedd cysylltiedig sylweddol sy'n weddill yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Codwyd y materion canlynol gan y pwyllgor –

- Gofynnodd y pwyllgor a oedd amserlen ddiwygiedig wedi'i gosod ar gyfer y gweithredoedd cymedrol hwyr a godwyd gan yr archwiliad o Brosesau Debyd Uniongyrchol.

  Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad yw'r rhan fwyaf o unigolion sy'n cael eu bilio am ardrethi busnes gan y Cyngor yn gwneud unrhyw daliadau oherwydd eu bod yn gymwys o dan y Cynllun Gostyngiad Ardrethi Busnesau Bach, gan arwain at nifer gymharol fach o dalwyr. Er bod y Cyngor yn cynnig taliadau debyd uniongyrchol, rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen ar hyn o bryd. Er mwyn cefnogi trosglwyddo i system ddi-bapur, bydd staff yn casglu manylion talu dros y ffôn ac yn anfon y ffurflen ymlaen i'w phrosesu. Fodd bynnag, mae angen datblygu awdurdodiad banc a chynlluniau ar wahân ar gyfer pob ffrwd incwm. Er bod cynllun debyd uniongyrchol y Dreth Gyngor yn ddi-bapur, mae'r cynllun Ardrethi Busnes yn parhau i fod ar bapur oherwydd y nifer isel o drafodion sy'n golygu nad yw'n flaenoriaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r tîm Taliadau hefyd yn gweithio ar brosiectau eraill i sicrhau cydymffurfiaeth â Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS).

  Mewn ymateb i gwestiwn dilynol ynglŷn ag ymestyn yr amserlen ar gyfer gweithredoedd hwyr ac a oes mecanwaith yn bodoli i'w huwchgyfeirio rhag iddynt lithro, hysbyswyd y pwyllgor bod gan bob gweithred berchennog dynodedig a dyddiad cwblhau penodol. Mae dangosfwrdd defnyddiwr o fewn y system 4action yn rhoi ciplun amser real o gynnydd, sy'n golygu bod modd olrhain ac adrodd yn effeithiol. Gellir ymestyn dyddiadau cwblhau gweithredoedd ond dim ond os gall y gwasanaeth ddangos rheswm dilys, gan ystyried lefel y risg sy'n gysylltiedig. Ar gyfer materion / risgiau sylweddol nad ydynt wedi'u datrys deuddeg mis ar ôl y dyddiad cwblhau gwreiddiol, gofynnir i berchnogion y weithred roi diweddariad i'r pwyllgor yn esbonio'r oedi. Mae mwy o hyblygrwydd yn cael ei roi i weithredoedd cymedrol (sgôr Melyn), gyda phob achos yn cael ei asesu ar sail ei

rinweddau a'i risg ei hun. Mae materion / risgiau â sgôr ambr yn destun proses uwchgyfeirio archwilio mewnol.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â statws y ddwy weithred sy'n gysylltiedig â PCIDSS a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad - y ddwy ohonynt â dyddiad targed i'w cwblhau erbyn 30 Medi, eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Cyngor wedi symud yn ddiweddar i system awtomataidd ar gyfer cymryd manylion cardiau talu sy'n cydymffurfio â PCIDSS ac eithrio'r Gwasanaethau Hamdden ac Oriel Ynys Môn. Mae datrysiad ar gyfer taliadau cerdyn ffôn a gymerir gan y gwasanaethau hyn yn cael eu hadolygu.

- Cyfeiriodd aelod o'r pwyllgor at y tair gweithred sy'n gysylltiedig â rheoli asedau a restrir yn Atodiad 1 - pob un ohonynt â dyddiad cwblhau penodol o 1 Hydref, 2025. Gofynnodd i'r pwyllgor gael gwybod trwy e-bost p'un ai a oedd y dyddiad cau hwn wedi'i fodloni.

**Penderfynwyd derbyn cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r materion / risg / cyfleoedd archwilio mewnol sy'n weddill fel boddhaol.**

**Camau ychwanegol: Pennaeth Archwilio a Risg i hysbysu aelodau'r pwyllgor drwy e-bost a yw'r tair gweithred sy'n gysylltiedig â rheoli asedau gyda dyddiad targed o 1 Hydref 2025 wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad cau hwn.**

**8. ADRODDIAD HUNANASESIAD DRAFFT 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys adroddiad hunanasesiad drafft ar gyfer 2024/25, i'w ystyried gan y pwyllgor. Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad hunanasesiad blynyddol i ddangos sut mae wedi perfformio, a yw ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol a sut mae'n rheoli a lliniaru'r risgiau cysylltiedig.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Tîm Perfformiad a Phrosiectau a esboniodd y broses hunanwerthuso lle mae pob gwasanaeth yn asesu ei berfformiad ar draws pedwar maes allweddol gan ddefnyddio meini prawf sgorio wedi'u diweddaru - Angen Gwelliannau, Bodloni Disgwyliadau, Rhagori ar Ddisgwyliadau a Rhagorol. Heriwyd eu hasesiadau mewn cyfarfodydd adolygu gwasanaeth gyda swyddogion ac aelodau etholedig. Yn seiliedig ar y broses hon, mae'r adroddiad yn darparu asesiad cyffredinol o ba mor dda y mae'r Cyngor wedi bodloni ei ofynion o ran perfformiad, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ac mae'n nodi'r camau gweithredu a gymerwyd a'r gwelliannau a gynlluniwyd.

Wrth adolygu'r adroddiad hunanasesiad, codwyd y materion canlynol gan y pwyllgor –

- Nododd y pwyllgor y meysydd gwella a nodwyd ar gyfer 2025/26. Er mwyn hwyluso cynnydd a chwblhau'r gwelliannau, awgrymwyd bod angen rheoli pob mater y mae angen ei wella gyda strwythur clir trwy ddefnyddio dadansoddiad llwybr critigol. Byddai hyn yn helpu i ddiffinio amserlenni a chamau allweddol, yn enwedig ar gyfer prosiectau lefel uchel cymhleth megis datblygu cynllun strategol data i gefnogi nod y Cyngor i ddod yn sefydliad sy'n seiliedig ar ddata. Pwysleisiwyd gwerth dod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata a phwysleisiodd aelodau bwysigrwydd datblygu diwylliant ledled y cyngor o reoli perfformiad sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws pob prosiect.

  Eglurodd y Rheolwr Tîm Perfformiad a Phrosiectau fod rheolwyr prosiect yn y Gwasanaeth Trawsnewid yn gymwys i lefel PRINCE2 ac y defnyddir ei fethodolegau wrth reoli prosiectau corfforaethol strategol bwysig. Defnyddir templedi a phrosesau safonedig ar draws y Cyngor, gan gynnwys cynlluniau gweithredu, cofrestri risg a phroses fanwl i olrhain cynnydd. Er bod yr adroddiad hunanasesiad yn darparu trosolwg lefel uchel o

feysydd gwella a chamau gweithredu a nodwyd, mae'r manylion penodol wedi'u cynnwys mewn cynlluniau datblygu gwasanaethau unigol sy'n cael eu hadolygu a'u monitro bob chwarter.

Yn dilyn o hyn, gofynnodd aelod o'r pwyllgor am gopi o'r ddogfen cychwyn prosiect ar gyfer y fenter Cynllun Strategol Data pan gaiff ei chwblhau.

- Gofynnodd y pwyllgor pam mai mis Mawrth 2026 yw'r dyddiad cwblhau ar gyfer yr holl gamau gwella a nodwyd.

  Esboniodd Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau fod y meysydd gwella yn eang o ran cwmpas a bydd y camau cysylltiedig yn cael eu cyflawni ar hyd y flwyddyn gyda'r bwriad o gwblhau pob un erbyn mis Mawrth 2026. Bydd y pwyllgor yn derbyn diweddariad cynnydd canol blwyddyn. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a yw'r amserlen yn realistig, dywedodd y Swyddog, er bod rhai camau mewn sefyllfa dda o ran eu cwblhau, mae angen trafod a chael mewnbwn pellach gan wasanaethau eraill ar gyfer rhai camau. Fodd bynnag, ystyrir bod y camau gweithredu yn rhai y gellir eu cyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig.

- Gofynnodd y pwyllgor sut mae'r meysydd gwella a nodwyd yn gyson â gwasanaethau sydd, yn ôl eu hunanasesiad, yn rhagori ar y disgwyliadau, ac a fyddai cwblhau'r holl gamau gwella yn arwain at wasanaethau'n cael sgôr rhagorol yn y flwyddyn ganlynol. Holodd y pwyllgor hefyd a allai'r gwaith dan sylw arwain at sefyllfa wahanol.

  Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â sgorio a diffiniadau, yn enwedig ynghylch hunanasesiadau gwasanaeth a allai gael eu hadolygu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r meysydd gwella yn deillio o werthusiadau gwasanaethau eu hunain ac yn cael eu blaenoriaethu wedyn gan y Tîm Arweinyddiaeth yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor. Bydd sgorau'r flwyddyn nesaf yn dibynnu i ba raddau y mae'r meysydd gwella hyn wedi'u cyflawni.

- Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ynghylch y tabl yn yr adroddiad sy'n dangos sut mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac amcanion strategol y Cyngor. Holwyd yn benodol am ystyr y ticiau ar draws y saith colofn ac ystyr y term "mwy cyfartal."

  Esboniodd Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau fod y tabl wedi'i ddatblygu pan gytunwyd ar Gynllun y Cyngor. Mae'r tri amcan llesiant yn adlewyrchu ymrwymiadau llesiant a fabwysiadwyd gan y Cyngor ac mae'r saith colofn yn cynrychioli'r saith nod llesiant y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ticiau yn dangos sut mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant hynny.

- Tynnodd y pwyllgor sylw at y gwahaniaeth rhwng hunanwerthusiad gwasanaethau a pherfformiad gwirioneddol, gan gyfeirio at Wasanaeth Plant a Theuluoedd fel enghraifft. Nododd y pwyllgor fod y gwasanaeth wedi rhoi sgôr rhagorol iddo'i hun o ran cynllunio a pherfformiad gwasanaeth, er gwaethaf adroddiad cynharach yn dangos bod 31% o blant Ynys Môn wedi bod yn byw mewn tlodi ers dros ddeng mlynedd. Dywedodd y pwyllgor ymhellach y byddai wedi disgwyl i'r datganiad o sefyllfa allbwn y gwasanaeth (tabl ar dudalen 18) adlewyrchu patrwm mwy amrywiol, gan gynnwys mwy o feysydd â sgôr coch. Ar ei ffurf bresennol, mae'r tabl yn awgrymu nad oes angen unrhyw welliannau.

  Cydnabu'r Rheolwr Tîm Perfformiad a Phrosiectau y gallai fod angen adolygu'r sgorau a'r diffiniadau presennol ar gyfer y cylch hunanasesiad nesaf. Eglurodd fod yr hunanasesiad

DRAFT

yn adlewyrchu p’un ai a yw'r Cyngor yn credu ei fod wedi cyflawni ei ymrwymiadau a'i dargedau ar gyfer 2024/25 tra bod yr effeithiau ehangach ar bobl a chymunedau yn cael eu trafod yn yr adroddiad blynyddol Perfformiad a Llesiant.

- Gofynnodd y pwyllgor a yw'r broses hunanasesiad yn ystyried ffactorau ehangach fel iechyd a diogelwch, agweddau masnachol ac effeithiau cymunedol wrth bennu sgorau perfformiad.

  Gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd fel enghraifft, dywedodd Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau fod yr asesiad yn ystyried cynllunio gwasanaethau, yr heriau a wynebwyd yn ystod y flwyddyn a sut rhoddwyd sylw i’r rhain, yn ogystal â dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau, sy'n cael eu monitro bob chwarter. Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, daeth y panel hunanasesu i'r casgliad bod perfformiad y gwasanaeth yn rhagorol.

- Cododd y pwyllgor bryderon ynglŷn â'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer hunanwerthuso gwasanaeth, gan gwestiynu'n benodol werth ac eglurder cynnwys categori "rhagori ar ddisgwyliadau" a chategori "rhagorol". Nododd yr aelodau, os yw'r fframwaith sgorio a'r diffiniadau yn cael eu diwygio y flwyddyn nesaf i’w gwneud yn fwy trylwyr, efallai y bydd rhai gwasanaethau yn derbyn sgorau is a allai fod yn heriol i'r timau hynny. Awgrymwyd y dylid annog gwasanaethau i gydnabod bod "bodloni disgwyliadau" yn ganlyniad cadarnhaol a chanmoladwy, yn enwedig yng ngoleuni cyfrifoldebau'r Cyngor a'r pwysau y mae'n eu hwynebu.

  Cydnabu'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y gallai sefyllfa allbwn bresennol y gwasanaeth, fel y dangosir yn y tabl, fod yn gamarweiniol. Er ei fod yn ymddangos yr awgrymir bod gwasanaethau yn gyffredinol yn perfformio uwchlaw'r disgwyliadau, mewn gwirionedd mae'n adlewyrchu perfformiad yn erbyn targedau'r Cyngor ar gyfer 2024/25, nad yw efallai yn glir ar unwaith i gynulleidfa ehangach.

**Ar ôl adolygu'r adroddiad hunanasesiad, penderfynwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn**

- **Nodi ac yn derbyn yr adroddiad hunanasesiad drafft ar gyfer 2024/25 ac yn gofyn i Reolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth yn ymwneud ag eglurder diffiniadau, methodoleg sgorio a meini prawf gwerthuso.**
- **Nodi bod y broses hunanasesiad i'w hadolygu ac argymell bod y broses ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 yn fwy gwrthrychol ac wedi'i gyrru gan ddata, a bod y categori "Rhagori ar y Disgwyliadau" yn cael ei ddileu er mwyn gwella eglurder.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2024/25, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod 2024/25 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor gan ddarparu enghreifftiau o ymgais i dwyllo yn erbyn y Cyngor yn y cyfnod.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad blynyddol yn amlinellu gweithgareddau atal twyll y Cyngor yn 2024/25. Mae dull y Cyngor wedi'i lywio gan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Risg o Dwyll sy'n nodi'r arfer gorau ar gyfer gwaith atal twyll mewn llywodraeth leol, yn seiliedig ar bum piler a chan y Fight Fraud and Corruption Locally: A Strategy for the 2020s sydd hefyd yn canolbwyntio ar bum maes gweithgaredd/amcanion



DRAFT

strategol. Manylir ar y rhain yn Atodiad 2 yr adroddiad ac maent wedi llywio gwaith atal twyll y Cyngor a'r broses o ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer gweithgarwch atal twyll. Darparwyd diweddariad cynnydd ar y cynllun cyflawni yn Atodiad 3. Manylir ar ganlyniadau Adnodd Adrodd Twyll y Cyngor a aeth yn fyw ym mis Tachwedd, 2024 yn Atodiad 4.

**Penderfynwyd nodi'r gwaith a wnaed yn ystod 2024/25 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor a'r sicrwydd a ddarparwyd ar effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyll**.

## 10. ADRODDIAD CANLYNIADAU'R FENTER TWYLL GENEDLAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn nodi cynnydd a chanlyniadau diweddar y Cyngor mewn perthynas â'i gyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad a oedd yn manylu ar adroddiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a dderbyniwyd gan y Cyngor rhwng Ionawr a Mawrth 2025 (61 adroddiad ar wahân), y pariadau data ynddynt (3,034 o bariadau unigol) a'r meysydd gwasanaeth yr oeddent yn ymwneud â nhw (fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad – Crynodeb o Ganlyniadau NF1 2024/15). Manylir ar ganlyniadau ariannol yr adroddiadau hyn, a ddadansoddwyd gan Archwilio Mewnol ar y cyd â'r gwasanaethau, yn y tabl yn Atodiad 2.

Cododd aelod o'r pwyllgor bryderon am osgoi premiwm y Dreth Gyngor. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y broses ymchwilio ar gyfer achosion o'r fath.  Cadarnhaodd hefyd fod y Cyngor yn blaenoriaethu pariadau NFI gyda dibynadwyedd uwch fel y rhai sy'n cynnwys rhifau yswiriant gwladol.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y pwyllgor yn cymryd sicrwydd o'r adroddiad bod y Cyngor, gan ystyried yr angen i flaenoriaethu ei adnoddau, yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan y Fenter Twyll Genedlaethol i ddefnyddio dadansoddeg data i gryfhau'r broses o atal a chanfod twyll.**

## 11. ARCHWILIO ALLANOL: DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru, a oedd yn diweddaru'r pwyllgor ar gynnydd ei raglen waith yn lleol ac yn genedlaethol ar 30 Mehefin 2025, er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r gwaith rheoleiddio parhaus gan Estyn ac AGC.

Adroddodd Mr Carwyn Rees, Rheolwr Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru fod cyfyngiadau'n gysylltiedig â'r pandemig wedi achosi i waith gronni. Fodd bynnag, mae cynnydd da wedi'i wneud ers hynny ar raglenni archwilio perfformiad 2023/24 a 2024/5, gyda'r gyntaf bellach wedi'i chwblhau a gwaith ar y gweill ar raglen 2025/26. O ganlyniad, mae'r rhaglen archwilio perfformiad mewn sefyllfa dda i ddychwelyd i'r amserlen.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â chynnydd y gwaith o archwilio cyfrifon 2024/25, cadarnhaodd Rachel Freitag, Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru fod yr archwiliad ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn diwedd mis Hydref. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 nad yw'r dyddiad i'r pwyllgor gyfarfod ym mis Hydref i ystyried y cyfrifon archwiliedig wedi'i gadarnhau eto.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r sicrwydd a ddarparwyd.**



DRAFT

## 12. ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y pwyllgor ar gyfer 2025/26, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg at ddau newid i'r Blaen Raglen Waith, sef gohirio'r adolygiad blynyddol o'r fframwaith rheoli risg a diweddaru’r gofrestr risg strategol i gyfarfod fis Rhagfyr 2025 ynghyd â Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/25 ac Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2024/25.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Blaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26 yn bodloni cyfrifoldebau'r pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**

## 13. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd

" O dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei fod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd."

## 14. ADRODDIAD SEIBERDDIOGELWCH TGCH BLYNYDDOL 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys Adroddiad Seiberddiogelwch TGCh Blynyddol ar gyfer 2024/25, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Peiriannydd Diogelwch Arweiniol yr adroddiad yn amlinellu'r bygythiadau seiberddiogelwch a wynebwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn manylu ar sut y cafodd y bygythiadau hyn eu datrys a'u rheoli trwy fesurau lliniaru a chamau rheoli presennol sydd wedi'u cynllunio i ganfod ac atal gweithgarwch maleisus. Crynhodd y Peiriannydd Arweiniol brif bwyntiau'r adroddiad gan dynnu sylw at yr heriau seiberddiogelwch mwyaf arwyddocaol a brofodd y Cyngor yn 2024/25.

Roedd y drafodaeth ddilynol yn cynnwys y pwyntiau canlynol –

- Statws prosiectau seiberddiogelwch presennol gyda'r pwyllgor yn nodi y byddai diweddariad o ran cynnydd yn ddefnyddiol.
- Digonolrwydd mesurau seiberddiogelwch presennol
- Gofynion o ran adnoddau ac unrhyw gyfyngiadau arnynt
- Y potensial ar gyfer allanoli fel modd o leihau'r pwysau hirdymor ar y Cyngor
- P'un a yw'r ystadegau a adroddwyd yn datgelu unrhyw dueddiadau misol neu chwarterol o ran bygythiadau seiber
- Y graddau y mae buddsoddi mewn mesurau seiberddiogelwch wedi arwain at lai o effaith
- Amlder yr hyfforddiant ymwybyddiaeth seiberddiogelwch a ddarperir i staff

Ymatebodd swyddogion i'r materion penodol a godwyd a rhoddwyd sicrwydd cyffredinol, gan nodi bod prosiectau a gweithgareddau yn cael eu blaenoriaethu mewn meysydd lle gellir lleihau risg yn fwyaf effeithiol, yn dilyn asesiad risg. Cydnabuwyd a nodwyd y cais am ddiweddariad ynghylch prosiectau. Cadarnhawyd bod buddsoddiad mewn gwasanaethau TG wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o £1.6m yn 2017/18 i £5.1m yn 2024/25 sy'n fuddsoddiad sylweddol i'r sector cyhoeddus. Nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y cyfnod hwn, a bod achos busnes wedi'i ddatblygu i sicrhau adnoddau ychwanegol. Pwysleisiwyd nad prosiect untro yw seiberddiogelwch ond yn ymdrech barhaus sy'n gofyn am sylw a buddsoddiad parhaus.



DRAFT

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n**

- **Nodi'r heriau a danlinellwyd yn yr adroddiad.**
- **Derbyn bod y gweithgareddau sy'n ymwneud â seiberddiogelwch yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.**
- **Cymryd sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli bygythiad seiber i lefel dderbyniol.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**

DRAFFT

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd 23 Hydref 2025 yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Kenneth Hughes, Margaret M. Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg: Dr Geraint Jones, William Maund, William Parry |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO)<br>Rheolwr Tîm Perfformiad a Phrosiectau (GP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Keith Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid), Rachel Freitag (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), David Tomalin (Arweinydd Archwilio Ariannol - Archwilio Cymru), Pennaeth Archwilio a Risg (CSYM (AS), Prif Archwilydd (CSYM) (NW). |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriad am absenoldeb. Rhoddodd wybod i'r pwyllgor am newid yn yr aelodaeth yn dilyn penodiad y Cynghorydd Ieuan Williams i'r Pwyllgor Gwaith a diolchodd i'r Cynghorydd Williams am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Keith Roberts.

### 2. DATGANIAD O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

### 3. DATGANIAD O GYFRIFON 2024/25, DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2024/25 AC ADRODDIAD ISA 260

- Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad Terfynol o'r Cyfrifon ar gyfer 2024/25 yn dilyn archwiliad i'w ystyried gan y pwyllgor.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaethau (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Datganiad o Gyfrifon drafft Cyngor Sir Ynys Môn 2024/25 wedi'i gyflwyno i archwilwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, i'w archwilio ar 30 Mehefin 2025. Mae'r gwaith

archwilio manwl bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ar gyfer pob cyngor yng Nghymru yw 31 Hydref 2025. Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 28 Hydref 2025 a'i lofnodi yn fuan wedyn. Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad trylwyr o'r cyfrifon a'r trafodion ariannol sy'n ymwneud â 2024/25. Nododd eu profion archwilio rai newidiadau oedd angen eu gwneud ac mae'r holl wallau perthnasol a argymhellwyd i'w cywiro gan y tîm archwilio wedi'u diwygio i sicrhau bod y cyfrifon yn gywir i raddau helaeth. Mae crynodeb o'r newidiadau hyn wedi'i gynnwys yn adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru.

Arweiniodd y Swyddog Adran 151 aelodau drwy'r diwygiadau, fel yr amlinellir yn adran 3 o'r adroddiad ac y manylir arnynt yn adroddiad ISA 26O a gyflwynwyd ar wahân isod Mae’r pwyntiau allweddol yn cynnwys –

- Gostyngiad o £500k yng ngwarged diwedd blwyddyn y Cyngor, yn bennaf oherwydd addasiadau cyfrifyddu technegol.
- Gostyngiad o £5k yn y Gronfa Gyffredinol.
- Cynnydd o £2.46m mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn dilyn ailddosbarthu costau sy'n gysylltiedig â gwaith adfer posibl ar hen safle tirlenwi Penhesgyn sy'n ymwneud yn benodol â chwlfert ar y safle. Mae'r risg hon wedi'i chydnabod ers amser maith, a gwnaed darpariaeth yn flaenorol yn y cyfrifon. Yn unol â chyngor yr archwilwyr, mae'r £2m gwreiddiol bellach wedi'i drosglwyddo o'r ddarpariaeth i gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi.
- Mae newidiadau technegol wedi'u gwneud i'r cyfrif addasu cyfalaf a'r gronfa wrth gefn ailbrisio (dwy gronfa wrth gefn na ellir eu defnyddio) i adlewyrchu addasiadau prisio asedau. Nid yw'r rhain yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol na chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- Mae'r gostyngiad yn y gwarged diwedd blwyddyn wedi arwain at ostyngiad cyfatebol yn y gwerth asedau net a ddangosir ar y fantolen.
- Diweddariad i Nodyn 41 – Rhwymedigaethau Wrth Gefn. - Tystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiad Trydanol (EICR). O dan Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i landlordiaid sicrhau bod eu heiddo mewn cyflwr da ac yn addas i bobl fyw ynddynt. Er bod y Cyngor a chynghorau eraill yng Nghymru wedi sicrhau bod yr holl wiriadau trydanol wedi'u cynnal, bu oedi cyn cyflwyno rhai tystysgrifau i denantiaid. Cadarnhaodd dyfarniad diweddar yr Uchel Lys nad oes angen ad-dalu rhent ar gyfer y cyfnod pan nad oedd tystysgrif ar gael. Mae'r rhwymedigaeth wrth gefn yn parhau i fod yn ei le hyd nes y bydd unrhyw apêl, ond mae'r geiriad wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Croesawodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fwriad yr archwilwyr i gyhoeddi barn ddiamod ar y cyfrifon a diolchodd iddynt am eu proffesiynoldeb a'u gwaith trylwyr wrth gynnal yr archwiliad. Diolchodd hefyd i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith i sicrhau bod y cyfrifon wedi'u cwblhau mewn pryd. Mae'r broses archwilio wedi'i hadolygu gyda'r archwilwyr, ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 bwriedir diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i ganiatáu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r cyfrifon terfynol yn lle'r Cyngor Llawn. Bydd y newid yn helpu i fodloni'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer 2025/26 sy'n dod â dyddiad cau cwblhau’r cyfrifon ymlaen i 30 Medi.

- Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'w adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Cyflwynwyd drafft cyntaf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Pwyllgor roi sylwadau arno yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf, 2025 a bydd y fersiwn terfynol yn rhan o Ddatganiad terfynol 2024/25 o'r Cyfrifon ar ôl ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Adroddodd Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau, yn dilyn mewnbwn y pwyllgor yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2025, fod Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2024/25 bellach yn cynnwys dangosydd statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) ar gyfer pob mater llywodraethu a nodwyd yn 2023/24 i helpu i olrhain a dadansoddi cynnydd yn fwy effeithiol. O ran materion llywodraethu a nodwyd fel rhan o broses 2024/25, o dan yr amcan i foderneiddio seilwaith digidol a data y Cyngor, mae'r amserlen ar gyfer datblygu Cynllun Strategol Data a chamau gweithredu cysylltiedig wedi'i hymestyn tan fis Mawrth 2027. Mae hyn yn adlewyrchu newid mewn blaenoriaethau, gan fod angen diweddaru ac addasu seilwaith TG y cyngor er mwyn gallu gwneud defnydd mwy cadarn o ddata ac i helpu i lunio cynllun strategol. Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau fod sylwadau'r pwyllgor o'i gyfarfod ym mis Gorffennaf wedi'u cynnwys yn y datganiad llywodraethu a ddiweddarwyd.

Codwyd y materion canlynol gan y pwyllgor –

- Nododd y pwyllgor fod un o'r materion llywodraethu a nodwyd yn 2023/24 - mapio pob ffynhonnell sicrwydd ar hyn o bryd yn hwyr. Cwestiynodd y pwyllgor yr amserlen a'r risgiau cysylltiedig.

  Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau fod y mater wedi'i gynnwys fel rhan o'r amserlen ar gyfer materion llywodraethu a nodwyd yn 2024/25 oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn gwasanaeth Busnes y Cyngor. Mae trafodaethau yn parhau i sicrhau'r adnoddau angenrheidiol, ond ni ellir cynnig amserlen benodol nes bod y rhain yn cael eu datrys. Mae'r mater yn cael ei ystyried yn risg isel.

- Cwestiynodd y pwyllgor hefyd a yw targed cwblhau Mawrth 2026 ar gyfer y materion llywodraethu a nodwyd yn 2024/25 yn realistig.

  Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Tîm Perfformiad a Phrosiectau fod yr amserlen yn cael ei hystyried yn bosibl, gan fod llawer o'r camau gwella cysylltiedig eisoes yn cael eu gweithredu trwy gynlluniau darparu gwasanaethau presennol ac yn cael eu monitro. Bydd y pwyllgor yn cael ei ddiweddaru ym mis Chwefror 2026 i gadarnhau cynnydd a rhoi sicrwydd. Eglurodd y Swyddog ymhellach nad yw'r gwaith i foderneiddio seilwaith digidol a data y Cyngor yn gysylltiedig â seiberddiogelwch. Yn hytrach, mae'n rhan o'r nod ehangach i ddod yn sefydliad sy'n seiliedig ar ddata.

**Penderfynwyd argymell Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25 i'r Cyngor Llawn fel gwerthusiad teg o drefniadau llywodraethu'r Cyngor .**

- Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2024/25 (adroddiad ISA 260) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Adroddodd Rachel Freitag, Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru ar brif ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon 2024/25 y Cyngor a diolchodd i dîm cyfrifyddu'r Cyngor a'r Gwasanaeth Cyllid ehangach am eu cefnogaeth drwy gydol y broses. Cadarnhaodd fod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon 2024/25 gydag ardystiad ffurfiol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 30 Hydref, 2025 ar ôl cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn ar 28 Hydref, 2025.

Cyfeiriodd at ddwy dasg yn weddill ar yr archwiliad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chadarnhau bod datgeliadau llai yn amherthnasol. Er nad yw disgwyl i hyn fod o bwys, mae angen tystiolaeth ategol o hyd a bydd hyn yn cael ei gwblhau cyn cyfarfod y Cyngor Llawn. Mae'r ail dasg yn ymwneud â chadarnhau bod yr holl ddiwygiadau archwilio wedi'u gwneud yn briodol. Derbyniwyd y cyfrifon diwygiedig bore ddoe a chwblhawyd y gwiriadau yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Mae rhai gwelliannau yn



DRAFT

dal i gael eu prosesu a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y Cyngor Llawn.

Nododd nad yw un gwall gwerth £1.561m wedi'i gywiro. Mae hwn islaw trothwy materoldeb £3m yr archwilwyr, gan ganiatáu i'r datganiadau ariannol gael eu hystyried yn gywir ac yn deg ac yn rhydd o gamddatganiad o bwys. Mae'r gwall yn gamddosbarthiad cyfrifyddu technegol rhwng dwy gronfa wrth gefn na ellir eu defnyddio heb unrhyw effaith ar arian parod, y Gronfa Gyffredinol neu’r trethdalwr. Er mwyn cywiro'r gwall byddai angen adolygu cofnodion asedau sefydlog hanesyddol a byddai hynny'n cymryd amser. Mae'r tîm Cyllid wedi penderfynu gwneud yr addasiad hwn o fewn cyfrifon 2025/26 sy'n dderbyniol o ystyried ei natur amherthnasol.

Yr uchelgais ar gyfer cyfrifon 2025/26 yw dod â'r dyddiad cau ar gyfer ardystio ymlaen i 30 Medi. Fodd bynnag, derbyniwyd rhai papurau gwaith allweddol, yn benodol adroddiad y Prisiwr a dogfennau IFRS 16, yn hwyr yn y broses archwilio. Mae IFRS 16 yn safon gyfrifyddu newydd eleni felly disgwylir mai unwaith yn unig y bydd oedi a bod materion capasiti o fewn y tîm Cyllid yn ffactor. Mae'n hanfodol bod set lawn o bapurau gwaith yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r cyfrifon drafft os yw'r dyddiad cau diwygiedig i gael ei fodloni. Mae'r targed yn uchelgeisiol ac mae pryderon wedi'u codi ar draws y sector llywodraeth leol ynglŷn â'i gyrraedd. Bydd Archwilio Cymru yn gweithio gyda chyrff a archwiliwyd i edrych ar ffyrdd o wneud yr amserlen yn haws ei chyflawni gan gynnwys trafodaeth gyda'r tîm Cyllid am yr hyn y gellir ei wneud yn lleol, ac ymgysylltu ehangach drwy gymdeithas Trysoryddion Cymru, grŵp Prif Gyfrifyddwyr, a digwyddiadau arfer da. Y nod yn y pen draw yw dychwelyd i'r amserlen archwilio cyn y pandemig, gan sicrhau bod cyfrifon yn cael eu harchwilio mewn modd amserol fel bod y wybodaeth yn berthnasol ac i osgoi gorgyffwrdd â chyfnod cyllidebu yr hydref.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr oedi o ran cael adroddiad y Prisiwr yn deillio o broblemau capasiti o fewn y Gwasanaeth Eiddo. Mae trafodaethau gyda'r gwasanaeth wedi dechrau i sicrhau bod prisiadau eiddo’n cael eu cwblhau’n amserol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cododd y pwyllgor y materion canlynol –

- Awgrymodd y pwyllgor fod angen dileu'r cromfachau ar y ffigurau cronfeydd wrth gefn y gellir ei defnyddio a chronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio yn y fantolen.
- Gofynnodd y pwyllgor a oedd y camddatganiad heb ei gywiro wedi bodoli ond heb ei ganfod ers peth amser neu ai rheoliad newydd a fu’n gyfrifol am ei ganfod.

  Cadarnhaodd Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru ei fod yn fater sy’n bod ers tro sydd wedi bod yn bresennol yn y cyfrifon ers sawl blwyddyn ond dim ond eleni y cafodd ei ganfod drwy ddull profi sampl yr archwilwyr. Bu i sampl eleni ddigwydd canfod y broblem. Esboniodd y byddai'r mater wedi’i ddatrys yn naturiol dros amser trwy ailbrisio asedau. O ystyried y gwerthoedd dan sylw, mae'r archwilwyr yn fodlon bod y cyfrifon wedi aros yn sylweddol gywir dros y blynyddoedd, fel arall byddai angen eu haddasu mewn cyfnod blaenorol, ac nid felly oedd yr achos.

  Mewn ymateb i gwestiwn dilynol, cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Ariannol nad oedd y camddatganiad yn oedi’r broses o ddosbarthu’r cyfrifon terfynol. Gwnaed y penderfyniad i beidio â'i gywiro sawl wythnos yn ôl oherwydd cydnabuwyd y byddai hynny’n cymryd llawer o amser.

- Gofynnodd y pwyllgor a yw'r Cyngor wedi rhoi sylw digonol i ofynion IFRS 16 – Prydlesi yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

DRAFT

Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod costau prydles ac incwm o asedau ar brydles wedi'u cofnodi yn y cyfrif incwm a gwariant. Fodd bynnag, mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gyfrifo cyfanswm gwerth asedau a rhwymedigaethau ar brydles gyda'r nod o'u hadlewyrchu ar y fantolen. Yn hanesyddol, nid yw'r cyngor wedi cadw cofnod cynhwysfawr o asedau ar brydles gan fod trafodion yn cael eu prosesu'n flynyddol trwy'r system gyfrifyddu. O ganlyniad, mae llawer o'r gwaith eleni wedi canolbwyntio ar nodi'r holl asedau ar brydles a phenderfynu a ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer eu cynnwys. Mae'r broses hon, a ddechreuodd ym mis Mawrth, yn golygu bod y cyngor mewn sefyllfa dda ar gyfer bodloni'r gofynion y flwyddyn nesaf. Wrth fynd ymlaen, bydd angen i'r cyngor ddiweddaru'r gofrestr trwy ychwanegu prydlesi newydd a dileu'r rhai sydd wedi dod i ben.

- Gofynnodd y pwyllgor a oedd darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaeth wrth gefn mewn perthynas â Thystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiad Trydanol (EICR) yn y cyfrifon.

  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad oedd darpariaeth, gan ei bod yn rhwymedigaeth bosibl yn y dyfodol na wyddys ei gwerth. Fel y cyfryw caiff ei gynnwys fel nodyn yn hytrach na darpariaeth.

- Codwyd cwestiynau pellach gan y pwyllgor ynghylch a ddylai rhai o'r camddatganiadau a gywirwyd fod wedi cael eu nodi'n gynharach trwy hunanasesiad y gwasanaeth ac a oedd pwysau amser wedi cyfrannu at eu hanwybyddu.

  Cydnabu'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, yn ddelfrydol, y byddai rhai o'r camddatganiadau wedi cael sylw yn y cyfrifon drafft. Fodd bynnag, roedd yr angen i fodloni dyddiad cau 30 Mehefin ynghyd â derbyn gwybodaeth gan briswyr yn hwyr yn golygu bod amser wedi'i gyfyngu i wneud gwaith cysoni ac i wirio a oedd y ffigurau'n gyson ar ôl prosesu'r holl drafodion cyfrifyddu sy'n ymwneud ag ailbrisio.

- Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ynghylch Nodyn 14 – Ymrwymiadau Cyfalaf Sylweddol. Nododd y pwyllgor er bod y geiriad yn cyfeirio at 2025/26 a blynyddoedd i ddod, mae'n ymddangos bod yr ymrwymiad cyfalaf o £20m yn ymwneud yn benodol â 2025/26. Gofynnodd y pwyllgor a yw rhagolygon prosiectau cyfalaf hirdymor yn cael eu cofnodi mewn mannau eraill.

  Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y ffigurau yn Nodyn 14 yn adlewyrchu ymrwymiadau cytundebol, ond bod prosiectau cyfalaf yn aml yn cynnwys mwy nag un flwyddyn ariannol. Felly, gall rhai o'r prosiectau a restrir ymestyn y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26.

Wrth gloi'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, i bawb a fu'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon a'r broses archwilio. Cytunwyd y byddai unrhyw wallau teipio neu ramadegol a nodwyd gan aelodau yn cael eu trosglwyddo i dîm y gwasanaeth cyfrifyddu i'w cywiro cyn cyfarfod y Cyngor Llawn.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn Datganiad Cyfrifon 2024/25 ac argymell i'r Cyngor Llawn fod Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn cael eu hawdurdodi i lofnodi'r cyfrifon archwiliedig terfynol ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru mewn perthynas â'r archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2024/25.**

**Mr Dilwyn Evans**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 4 Rhagfyr 2025 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | 27/06/24 | 9 | Dylid cynnwys monitro nifer y bobl mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Mae'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad sosio-economaidd o boblogaeth yr ynys, mae hyn yn cynnwys anweithgarwch economaidd, cyflwynwyd adroddiad ar gyfer rhanbarth gogledd Môn i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2024.<br><br>Mae adroddiad ar gyfer yr ynys gyfan hefyd ar y gweill a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. | Ar y gweill. |
| | 05/12/24 | 3 | | | DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024 (Eitem 3), cytunodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen i roi dolen i'r pwyllgor i gael mynediad at adroddiad dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac effaith Quod Môn pan gaiff ei gyhoeddi. | |
| | 08/05/25 | 3 | | | DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025, rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad gan y Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Gorfforaethol bod dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac adroddiad effaith Quod Ynys Môn wedi'i gwblhau ond nad yw wedi'i gyhoeddi eto. | |
| | 26/06/25 | 4 | | | DIWEDDARIAD: Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried sut i gyfathrebu a rhannu'r adroddiad. | |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | 19/09/24 | 5 | Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor i gynnwys gwybodaeth amlwg am bryderon a chwynion defnyddwyr gwasanaethau Gwasanaethau Cymdeithasol. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | Mae'r adroddiad blynyddol wedi'i ohirio tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Medi i gyd-fynd â llythyr blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>DIWEDDARIAD: Mae cyhoeddi Llythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/25 yn cael ei ohirio oherwydd mater data. O ganlyniad, bydd y Llythyr nawr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Rhagfyr 2025. Yn unol â hynny, bydd yr Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol yn cael ei ohirio i gyd-fynd â Llythyr yr Ombwdsmon.<br><br>DIWEDDARIAD: Roedd yr Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd i'r pwyllgor ar 04/12/25 yn cynnwys gwybodaeth amlwg am bryderon a chwynion defnyddwyr gwasanaethau Gwasanaethau Cymdeithasol. | Wedi cwblhau. |
| 19 | 05/12/24 | 5 | Darperir diweddariad ar gynnydd y mesurau a nodwyd i ddarparu penderfyniadau i'r Pwyllgor maes o law. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | Bydd pryderon a godwyd gan wasanaeth ynghylch y CRM yn gofyn am addasiadau pellach, ond ar hyn o bryd mae'r gallu i'w gweithredu yn gyfyngedig. Gall y sefyllfa heb ei llenwi hefyd gyfyngu diweddariad ystyrlon. Felly, bydd diweddariad cynnydd yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad cwynion blynyddol nesaf, ym mis Gorffennaf 2025, gan ganiatáu i'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth cyn y llythyr CCC blynyddol nesaf. | Wedi cwblhau. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | DIWEDDARIAD: Mae'r adroddiad blynyddol wedi'i ohirio tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Medi i gyd-fynd â llythyr blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>DIWEDDARIAD: Mae cyhoeddi Llythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/25 yn cael ei ohirio oherwydd mater data. O ganlyniad, bydd y Llythyr nawr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Rhagfyr 2025. Yn unol â hynny, bydd yr Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol yn cael ei ohirio i gyd-fynd â Llythyr yr Ombwdsmon.<br><br>DIWEDDARIAD: Roedd yr Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban Blynyddol ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd i'r pwyllgor ar 04/12/25 yn cynnwys diweddariad ar gynnydd y mesurau a nodwyd i ddarparu penderfyniadau. | |
| 20 | 05/12/24 | 11 | Ar gyfer adroddiadau monitro archwilio allanol a rheoleiddwyr yn y dyfodol, bydd amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn cyd-fynd â diweddariadau ar gynnydd yr ymatebion i argymhellion. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | | Mae'r adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025. |
| 24 | 08/05/25 | 9 | Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i godi'r mater o ganllawiau polisi ar ddefnydd Deallusrwydd Artiffisial o fewn | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Mae polisi wedi'i ddrafftio, a'i ddiweddaru'n ddiweddar yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried ac yn mabwysiadu pryd y gallent ddyrannu slot. | Ar y gweill. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 26/06/25 | 4 | y Cyngor gyda'r Tîm Arweinyddiaeth. | | DIWEDDARIAD: Ystyriodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi drafft yn ei gyfarfod ar 17/06/25 ac wedi gofyn iddo gael ei adolygu ymhellach. | |
| 25 | 16/07/25 | 5 | Y fersiwn derfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i gynnwys dangosyddion statws CAG ar gyfer y materion llywodraethu a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyflwynwyd i'r pwyllgor ar 23/10/25 yn cynnwys dangosyddion statws RAG ar gyfer y materion llywodraethu a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol. | Wedi cwblhau. |
| 26 | 16/07/25 | 5 | I'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd trwy broses asesu 2024/25 yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Mae Rheolwr Tîm Perfformiad a Phrosiectau wedi gofyn am ohirio tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Chwefror 2026. | |
| 27 | 16/07/25 | 5 | Dylid darparu dadansoddiad o gyfradd gadael staff i aelodau'r pwyllgor, gan gynnwys dadansoddiad o symudiadau mewnol yn hytrach nag ymadawiadau allanol. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Mae'r Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol wedi trafod hyn gyda chydweithwyr ym maes Adnoddau Dynol. Yn anffodus, nid yw'r system AD yn caniatáu i symudiad staff rhwng gwasanaethau gael ei olrhain yn hawdd. Mae swyddogion yn edrych ar hyn ac yn gobeithio rhoi diweddariad erbyn y cyfarfod nesaf. | |
| 28 | 30/09/25 | 4 | Y Pennaeth Archwilio a Risg i gadarnhau gyda'r Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol fod yr argymhellion o Archwilio Cymru yn adrodd ar y defnydd y cyngor o wybodaeth am | Pennaeth Archwilio a Rheoli Risg / Rheolwr Cynllunio a | Mae'r Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol wedi cadarnhau bod argymhellion yr adroddiad yn cael eu monitro, a chynhwyswyd cynnydd o ran gweithredu mewn adroddiad monitro i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024. Bydd | Wedi cwblhau. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | berfformiad: persbectif a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu monitro a'u bod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad monitro nesaf a ddaw i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr 2025. | Pherfformiad Corfforaethol | adroddiad pellach yn cael ei wneud i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2025.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol ei fod yn rhan o rwydwaith a sefydlwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i edrych ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion o'r adolygiad hwn. | |
| 29 | 30/09/25 | 5 | Y Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd i ddod â'r cynllun strategol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol tair blynedd wedi'i gwblhau, sy'n ymgorffori camau gweithredu SMART, i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol. | Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd | | |
| 30 | 30/09/25 | 6 | Y Pennaeth Archwilio a Risg i gylchredeg i aelodau'r pwyllgor:<br><br>• 'Rheoli'r Risg Tlodi' cynllun gweithredu yr adolygiad archwilio<br><br>• Cynllun Gweithredol y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi | Pennaeth Archwilio a Risg | Cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio a Risg y cynllun gweithredu archwilio mewnol i aelodau'r pwyllgor ar 23/10/25.<br><br>Mae'r Cynllun Strategol Trechu Tlodi wedi cael ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio, ac fe'i craffwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2024. Felly, er mwyn osgoi dyblygu goruchwyliaeth, cysylltwyd â'r Fforwm Craffu i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bod ganddynt oruchwyliaeth o'r cynllun.<br><br>Yn eu cyfarfod fforwm ar 25 Tachwedd 2025, argymhellodd cadeiryddion ac is-gadeiryddion Craffu y canlynol: | Wedi cwblhau. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nid oedd aelodau'r fforwm yn teimlo bod craffu ar y Cynllun Gweithredol Trechu Tlodi yn flaenoriaeth uchel o ystyried bod archwilio mewnol wedi darparu sicrwydd rhesymol mewn adroddiad diweddar. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio yn craffu ar bartneriaid allanol o dan thema mynd i'r afael â thlodi y flwyddyn nesaf, ac yn ystyried cais y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, byddai adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar gynnydd yn erbyn Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi y Cyngor yn yr un cyfarfod yn ddefnyddiol. Mae'r cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill ond efallai y bydd angen symud i Fehefin 2026. | |
| 31 | 30/09/25 | 7 | Y Pennaeth Archwilio a Risg i hysbysu aelodau'r pwyllgor drwy e-bost a yw'r tair camau gweithredu sy'n gysylltiedig â rheoli asedau sydd â dyddiad dyledus o 1 Hydref 2025 wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad cau hwn. | Pennaeth Archwilio a Risg | Hysbysodd y Pennaeth Archwilio a Risg aelodau'r pwyllgor, ar 28/10/25, fod y tair camau gweithredu sy'n gysylltiedig â rheoli asedau, gyda dyddiad dyledus o 1 Hydref 2025, i gyd wedi'u datrys. | Wedi cwblhau. |
| 32 | 30/09/25 | 8 | O ran proses hunanasesu'r cyngor, gofynnodd y pwyllgor i'r Rheolwr Tîm Perfformiad a Phrosiectau ystyried adborth ar eglurder sgorio a meini prawf gwerthuso ac ar gyfer adolygiad 2025/26, argymhellodd ddull mwy gwrthrychol, sy'n seiliedig ar ddata, ynghyd â dileu'r | Rheolwr Tîm Perfformiad a Prosiectau | Mae'r Rheolwr Tîm Perfformiad a Prosiectau wedi cadarnhau y bydd yn ystyried sylwadau'r pwyllgor wrth ddatblygu templed hunanasesu y flwyddyn nesaf. | Wedi cwblhau. |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | categori "Rhagori ar y Disgwyliadau" i wella tryloywder. | | | |

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Dyddiad: | 21/10/2025<br>04/12/2025 |
| Pwnc: | Cwynion a Chwythu'r Chwiban 04/2024 – 03/2025 sy'n ymgorffori Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/2025 |
| Aelod(au) portffolio: | Dirprwy Arweinydd, Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Awdur yr adroddiad: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Aelodau lleol: | Pob Un |

A – Argymhellion a rhesymau

**Argymhellion**

(a) Gweithredu, cyn gynted â phosibl:

- cyflwyno dashfwrdd Power BI ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr, mewn perthynas â chwynion am eu gwasanaeth.

- hyfforddiant ar gyfer swyddogion cwynion, a'u dirprwyon, ar ofal cwsmer a chydraddoldeb/amrywiaeth

- nodyn canllaw wedi'i ddiweddaru ar ddelio â chwynion yn effeithiol.

(b) Ar ôl ystyried y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2024/2025, gofyniad bod data perfformiad presennol ar gwynion gwasanaethau yn dod yn eitem sefydlog yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng Penaethiaid Gwasanaeth/Cyfarwyddwyr a'u harweinwyr Pwyllgor Gwaith (Aelodau Portffolio).

(c) Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i atgoffa gwasanaethau o'r angen i:

- weithredu unrhyw argymhellion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac adrodd i'r Ombwdsmon eu bod wedi eu cwblhau o fewn yr amserlen a osodwyd

- cofnodi'n rheolaidd unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i gwynion, adnabod unrhyw batrymau a gweithredu mesurau lliniaru addas.

(d) Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ymateb i Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/2025 yn ôl yr angen ym mharagraff olaf ond un y Llythyr o dan sylw.

**Rhesymau**

**Cyflwyniad**
Gall cwynion ddarparu gwybodaeth werthfawr am berfformiad gwasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys barn defnyddwyr gwasanaeth. Gellir defnyddio'r data hwn, lle bo'n bosibl ac yn briodol, i wella darpariaeth gwasanaeth. Mae'r ddolen ar gyfer y Polisi Cwynion Corfforaethol yma.

**Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am gwynion gwasanaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 01/04/2024 a 31/03/2025**.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am ddatgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r ddolen i'r Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban ar gael yma.

Darperir gwybodaeth hefyd am y cod ymddygiad cwynion. Adroddir ar y rhain yn chwarterol i'r Pwyllgor Safonau, ac yn ffurfiol yng nghyfarfodydd arferol y Pwyllgor. Mae'r dolenni at yr adroddiadau hyn ar gyfer y cyfnod perthnasol isod.

Chwarter 1, 2 a 3
Chwarter 4

Mae **Atodiad 4** yn cynnwys crynodeb o'r Cod Ymddygiad ar gyfer cwynion a chwythu'r chwiban.

Mae cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn trefn statudol wahanol, yn benodol Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ac fe'u hystyrir gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Ar gyfer unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth bellach, bydd y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn yr adroddiad perthnasol ar 20 Tachwedd 2025, ac yna'n ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Atodiad 5** yn cynnwys crynodeb o'r cwynion a dderbyniodd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2024/2025. Dengys y crynodeb bod nifer y cwynion yn parhau'n isel o gymharu â'r galw ar y Gwasanaeth, gyda chyfanswm y cwynion yn gostwng o 22 i 21 er bod cynnydd o 11% yn yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Oedolion a chynnydd o 14% yn yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Y prif themâu oedd yn deillio o'r cwynion oedd problemau cyfathrebu, oedi wrth gynnal asesiadau a phrinder gofalwyr. Mae'r materion hyn yn derbyn sylw, gan gynnwys darparu hyfforddiant ychwanegol, adolygu protocolau a gosod disgwyliadau ymarfer mwy eglur. Cwblhawyd yr holl ymatebion i gwynion Cam 1 o fewn yr amserlenni statudol.

Nid yw cwynion am ddefnydd y Cyngor o'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond fe adroddir arno'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg, sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cael ei ystyried yn flynyddol gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Mae unrhyw gwynion am yr iaith Gymraeg hefyd yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Llywio Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb, ac fe adroddir ar ddata cwynion

fel rhan o'r cerdyn sgorio corfforaethol a'r ddogfen gyflawni flynyddol. Ar gyfer unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth bellach, mae'r ddolen i'r Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg ar gael yma

**1. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Efallai bydd OGCC yn ystyried cwynion gan y cyhoedd sy'n ymwneud â gwasanaethau. Mae pwerau'r OGCC ar gyfer hyn yn disgyn dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

I ysgogi ymchwiliad, mae'n rhaid i'r OGCC fod yn fodlon fod cwyn wedi mynd drwy'r weithdrefn gwyno leol. Mae OGCC yn ceisio cwblhau ymchwiliadau cyn pen 12 mis o dderbyn cwyn.

Yn ogystal â phwerau ymchwiliol, mae OGCC hefyd yn cynnig canllawiau a chefnogaeth. Er enghraifft, Polisi Ymdrin â Chwynion, a gyhoeddwyd dan Adran 38 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Defnyddiwyd darpariaethau'r polisi model er mwyn datblygu Polisi Cwynion y Cyngor. Cafodd ei adolygu ddiwethaf yn 2024.

**2. Beth sy'n cael ei ystyried yn gŵyn?**

**2.1 Mae OGCC yn ystyried cwyn fel:**

- Mynegiad o anfoddhad neu bryder **a wnaed**
- Yn ysgrifenedig neu ar lafar, neu drwy unrhyw ddull cyfathrebu arall **ac**
- A wnaed gan un, neu fwy o aelodau'r cyhoedd **am**
- Weithredoedd darparwr cyhoeddus neu ddiffyg gweithredu, neu safon y gwasanaeth a ddarparwyd **a**
- Rhywbeth sydd angen ymateb.

**Noder:**

**Cais am Wasanaeth** - *Dylid nodi fod cwyn yn wahanol i 'gais am wasanaeth' dechreuol.* Nid yw cais am wasanaeth yn gŵyn (e.e. gall cais fod ar gyfer atgyweirio golau stryd diffygiol neu wastraff bin na gafodd ei gasglu). Bydd cwyn yn codi dim ond pe na fyddai'r cais am wasanaeth yn cael sylw teilwng.

**2.2** **Cwynion Cam 1**

Mae'n well delio gyda chwyn cyn gynted â phosibl; yn ddelfrydol gyda'r pwynt cyswllt cyntaf. Os yw hyn yn bosibl, disgwylir i'r maes gwasanaeth perthnasol ymateb i'r gŵyn cyn pen **deg diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn.**

**Cwynion Cam 2**

Cynhelir ymchwiliad Cam 2 os nad yw cwyn wedi derbyn ymateb yng Ngham 1, neu nid ydynt yn fodlon â'r ymateb a dderbyniwyd.

Dylai'r gŵyn dderbyn ymateb i ymchwiliad **Gam 2 cyn pen ugain diwrnod gwaith**. Gall hyn gymryd mwy o amser os yw'n cynnwys materion cymhleth, neu bod rhaid i sawl maes gwasanaeth gyfrannu i'r ymateb. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid hysbysu'r achwynydd o'r rhesymau dros unrhyw oedi, a phryd allent ddisgwyl ymateb.

Os na fydd achwynydd yn fodlon gyda chanlyniad ymchwiliad Cam 2, gallent atgyfeirio'r mater i'r OGCC. Mae gwybodaeth bellach, galluogi achwynydd i atgyfeirio mater i'r OGCC, yn cael ei darparu ym mhob ymateb Cam 2. Nid oes hawl mewnol ar gyfer adolygiad neu apêl.

**2.3** **Sut y Derbynnir Cwynion**

Derbynnir mwyafrif y cwynion drwy e-bost (161), wyneb yn wyneb (7) a thrwy'r post (3). Y bwriad yw annog achwynwyr i ddefnyddio'r system Rheoli Cofnodion Corfforaethol (CRM), yn hytrach nag anfon e-bost. Nid oes rhaid i achwynwyr greu cyfrif er mwyn cyflwyno cwyn (ond fe'u hanogir i wneud hynny) yn ogystal â chyflwyno cwyn fel defnyddiwr gwadd.

**2.4** **Ystadegau Cwynion Corfforaethol**

Mae **Atodiad 1** yn amlygu'r data cwynion. Fodd bynnag, nodir y pwyntiau canlynol:

- 171 cwyn ar draws yr holl wasanaethau, gan gynnwys Cam 1 a 2.
- 56 wedi'u olrhain (33.3%)
- 112 heb eu holrhain (66.7%)
- 152 o ymatebion ar amser (88.9%)
- 19 o ymatebion hwyr (11.1%)

## 2.5 Cwynion yn ôl Gwasanaeth

| Amgylchedd/Gwarchod y Cyhoedd |
|---|
| **Cyfanswm y Cwynion: 11 (6.4% o'r holl gwynion)** |
| **Cwynion Cam 1: 10 cwyn** |
| **Cwynion Cam 2: 1 cwyn** |
| **Wedi'u olrhain: 4 cwyn (cyfradd olrhain o 36.4%)** |
| **Heb eu olrhain: 7 cwyn (63.6%)** |
| **Wedi'u gollwng: 0 cwyn** |
| **Ymatebion ar amser: 10 cwyn (90.9%)** |
| **Ymatebion hwyr: 1 cwyn (9.1%)** |

| Priffyrdd ac Eiddo |
|---|
| **Cyfanswm y Cwynion: 49 (28.5% o'r holl gwynion)** |
| **Cwynion Cam 1: 38 cwyn** |
| **Cwynion Cam 2: 11 cwyn** |
| **Wedi'u olrhain: 8 cwyn (cyfradd olrhain o 16.7%)** |
| **Heb eu Olrhain: 40 cwyn (83.3%)** |
| **Wedi'u gollwng: 1 cwyn** |
| **Ymatebion ar amser: 42 cwyn (85.7%)** |
| **Ymatebion hwyr: 7 cwyn (14.3%)** |

| Tai |
|---|
| **Cyfanswm y Cwynion**: 47 (27.3% o'r holl gwynion) |
| **Cwynion Cam 1**: 40 cwyn |
| **Cwynion Cam 2**: 7 cwyn |
| **Wedi'u olrhain**: 25 cwyn (54.3% wedi'u olrhain) |
| **Heb eu Olrhain**: 21 cwyn (45.7%) |
| **Wedi'u gollwng**: 1 cwyn |
| **Ymatebion ar amser**: 43 cwyn (91.5%) |
| **Ymatebion hwyr**: 4 cwyn (8.5%) |

| Dysgu |
|---|
| **Cyfanswm y Cwynion**: 13 (7.6% o'r holl gwynion) |
| **Cwynion Cam 1**: 12 cwyn |
| **Cwynion Cam 2**: 1 cwyn |
| **Wedi'u olrhain**: 0 cwyn (cyfradd olrhain o 0.0%) |
| **Heb eu Olrhain**: 13 cwyn (100%) |
| **Wedi'u gollwng**: 0 cwyn |
| **Ymatebion ar amser**: 10 cwyn (76.9%) |
| **Ymatebion hwyr**: 3 cwyn (23.1%) |

| Hamdden |
|---|
| Cyfanswm y Cwynion: 15 (8.8% o'r holl gwynion) |
| Cwynion Cam 1: 15 cwyn |
| Cwynion Cam 2: 0 cwyn |
| Wedi'u olrhain: 14 cwyn (cyfradd olrhain o 93.3%) |
| Heb eu Olrhain: 1 cwyn (6.7%) |
| Wedi'u gollwng: 0 cwyn |
| Ymatebion ar amser: 15 cwyn (100.0%) |
| Ymatebion hwyr: 0 cwyn (0%) |

| Cynllunio |
|---|
| Cyfanswm y Cwynion: 4 (2.4% o'r holl gwynion) |
| Cwynion Cam 1: 2 cwyn |
| Cwynion Cam 2: 2 cwyn |
| Wedi'u olrhain: 0 cwyn (cyfradd olrhain o 0%) |
| Heb eu Olrhain: 4 cwyn (100%) |
| Wedi'u gollwng: 0 cwyn |
| Ymatebion ar amser: 4 cwyn (100.0%) |
| Ymatebion hwyr: 0 cwyn (0%) |

| Adnoddau |
| --- |
| **Cyfanswm y Cwynion**: 20 (11.6% o'r holl gwynion) |
| **Cwynion Cam 1**: 14 cwyn |
| **Cwynion Cam 2**: 6 cwyn |
| **Wedi'u olrhain**: 4 cwyn (cyfradd olrhain o 21.1%) |
| **Heb eu Olrhain**: 15 cwyn (78.9%) |
| **Wedi'u gollwng**: 1 cwyn |
| **Ymatebion ar amser**: 17 cwyn (85%) |
| **Ymatebion hwyr**: 3 cwyn (15%) |

| Gwastraff |
| --- |
| **Cyfanswm y Cwynion**: 12 (7.0% o'r holl gwynion) |
| **Cwynion Cam 1**: 10 cwyn |
| **Cwynion Cam 2**: 2 cwyn |
| **Wedi'u olrhain**: 1 cwyn (cyfradd olrhain o 8.3%) |
| **Heb eu Olrhain**: 11 cwyn (91.7%) |
| **Wedi'u gollwng**: 0 cwyn |
| **Ymatebion ar amser**: 11 cwyn (91.7%) |
| **Ymatebion hwyr**: 1 cwyn (8.3%) |

| Cwynion Corfforaethol yn ôl Cam | Rhif |
|---|---|
| Cam 1 | 141 |
| Cam 2 | 30 |
| | |
| **Cyfanswm** | **171** |

**2.6 Dadansoddiad ar Ddata Cwynion Mewnol**

Mae wedi'i atodi yn **Atodiad 2**

**3. Cwynion a Gyflwynwyd i OGCC**

**3.1** Mae Llythyr Blynyddol OGCC 2024/2025 yn **Atodiad 3**.

Yn ystod 2024/2025, derbyniodd swyddfa OGCC y nifer uchaf o gwynion erioed, gyda 3,547 o gwynion cyflawn yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn gynnydd o 10% o'r flwyddyn flaenorol, a 43% yn uwch na 2019/2020. Gweler hefyd newid sylweddol yn y meysydd pwnc, gyda chwynion tai yn cynyddu'n genedlaethol (19% o gymharu â 15% yn 2019/2020). Mae'r cynnydd yng nghwynion Tai OGCC hefyd yn amlwg o fewn ystadegau cwynion mewnol y Cyngor.

Er y cynnydd cenedlaethol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC, derbyniodd y Cyngor 0.32 cwyn i bob 1,000 preswylydd, o gymharu â chyfartaledd Cymru, oedd yn 0.41 i bob 1,000.

**3.2 Nifer y Cwynion yn erbyn Cyngor Sir Ynys Môn yn 2023/2024 a 2024/2025**

| Tueddiadau Perfformiad | 2023/24 | 2024/25 | Newid |
|---|---|---|---|
| Cwynion OGCC | 38 | 22 | - 42% |

Mae'r data hwn yn dangos gostyngiad yn nifer y cwynion dros y cyfnodau perthnasol. Yn ystod 2023/2024, roedd 24% o gwynion yn ymwneud ag ymdriniaeth y Cyngor o'r cwynion eu hunain, ac mae'n awgrymu gwelliant yn y modd y mae cwynion yn cael eu datrys ar lefel leol; gan osgoi gorfod eu trosglwyddo ymlaen i OGCC.

**3.3 Canlyniadau Cwynion i'r OGCC**

O'r ddau ar hugain o gwynion a dderbyniodd yr OGCC, roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

| Canlyniad | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Penderfyniad i beidio ag ymchwilio | 34% (14 achos) | 40% (8 achos) |
| Cwynion cynamserol | 32% (13 achos) | 30% (6 achos) |
| Mater y tu hwnt o awdurdodaeth | 10% (4 achos) | 25% (5 achos) |
| Datrysiad cynnar (ymyrraeth) | 24% (10 achos) | 5% (1 achos) |
| Ymchwiliadau | 0 | 0 |

* Ceir eglurhad ynglŷn â’r anghysondebau sy’n ymddangos rhwng nifer y cwynion a dderbyniwyd a’r cwynion a gaewyd yn Llythyr Blynyddol OGCC:-

*“2023/2024*
*Cawsom 38 o gwynion am Gyngor Sir Ynys Môn yn 2023/24 a gwnaethom gau 41 – roedd rhai cwynion wedi cael eu trosglwyddo o’r flwyddyn flaenorol.*

*2024/2025*

*Cawsom 22 o gwynion am Gyngor Sir Ynys Môn a chau 20 - roedd rhai cwynion wedi cael eu trosglwyddo o’r flwyddyn flaenorol.”*

**3.4 Ymyrraeth gan OGCC**

Mae ymyrraeth gan OGCC yn cyfeirio at y cwynion hynny sydd wedi’u hasesu, ac mae’r OGCC yn ystyried y gall ymyrraeth gynnar fod yn bosibl heb ymchwiliad. Heb os, mae hyn hefyd yn awgrymu y byddai cyngor wedi gwneud mwy yn ystod Cam 2 i adfer y mater yn fewnol, ac osgoi trosglwyddo ymlaen i OGCC.

Yn 2023/2024, roedd y gyfradd ymyrraeth yn 24% (10 achos). Yn 2024/2023, roedd y gyfradd ymyrraeth yn 5% (1 achos). Roedd hyn yn erbyn cyfartaledd ymyrraeth yng Nghymru o 13%. Mae hyn yn awgrymu:-

- adferiad mewnol mwy effeithiol i gwynion.
- rheolaeth well dros achosion yn y camau cyntaf;
- adolygu Polisi Cwynion y Cyngor a swyddogion cwynion yn ymgymryd â hyfforddiant gydag OGCC

yn debygol o fod wedi arwain at y gwelliant hwn.

**3.5 Categorïau Cwynion**

| Newidiadau Maes Gwasanaeth | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Delio â chwynion | 24% (9 achos) | 5% (1 achos) |
| Adnoddau | 16% (6 achos) | 23% (5 achos) |
| Tai | 8% (3 achos) | 18% (4 achos) |
| Adeiladu a rheoli adeiladu | 16% (6 achos) | 9% (2 achos) |
| Hamdden | 3% (1 achos) | 9% (2 achos) |
| Iechyd yr Amgylchedd | Sero | 5% (1 achos) |
| Addysg | 3% (1 achos) | Sero |
| Trwyddedu | 3% (1 achos) | Sero |
| HWP | 3% (1 achos) | 5% (1 achos) |

Roedd ymdrin â chwynion yn un o’r categorïau uchaf ymhlith cwynion yn 2023/2024, gan gynrychioli 24% o’r cyfanswm. Yn 2024/2025, roedd ymdrin â chwynion yn un o’r categorïau cwyno isaf, yn cynrychioli dim ond 5%.

Mae’r Cyngor wedi dangos gwelliant yn ystod 2024/2025 o ran rheoli cwynion, gan arwain at ostyngiad yn nifer y cwynion a chyfraddau ymyrraeth OGCC.

## 4. Dysgu o Gwynion yn 2024/2025

**4.1** Mae Polisi Cwynion y Cyngor yn pwysleisio ar ddysgu o gamgymeriadau a defnyddio’r wybodaeth honno i wella gwasanaethau.

Mae’r gwersi y ddysgwyd yn cael eu cofnodi ar hyd o bryd ar y gronfa ddata cwynion, ond nid yw pob gwasanaeth yn cofnodi cwynion yn gyson.

**4.2** Y prif wersi ar gyfer 2024/2025 yw:

**4.2.1** Pwysigrwydd ystyried materion cydraddoldeb. Yn ystod 2024/2025, cyflwynodd OGCC argymhellion yn seiliedig ar brofiad preswylwyr bregus o ddefnyddio gweithdrefnau’r Cyngor, a gofynnwyd i’r Cyngor baratoi a chyhoeddi dogfen ‘hawdd ei darllen’ yn amlygu’r gofyniad i dalu’r Dreth Gyngor yn brydlon, a beth ddylid ei wneud am gasglu ôl-ddyledion. Mae cydraddoldeb yn un o brif flaenoriaethau’r OGCC. Yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/2025, mae’r OGCC yn nodi:

> *‘…Ymhlith y themâu a’r pwyntiau dysgu allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad yw’r diffyg addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion ag anableddau, megis anableddau dysgu, problemau symudedd difrifol, neu awtistiaeth a dyslecsia. Mae’r Adroddiad hefyd yn nodi heriau yn deillio o gyfathrebu gwael gyda phobl sydd ag anghenion iaith neu golled synhwyraidd… Yn ogystal mae’r adroddiad (thematig - Materion Cydraddoldeb 2025) yn codi pryderon am gyrff cyhoeddus yn methu ag alinio polisïau darparu gwasanaethau gyda’r dyletswyddau cyfreithiol dan ddeddfwriaeth hawliau dynol a chydraddoldeb.* ***(Adroddiad Blynyddol OGCC 2024/2025)***

Mae angen diweddaru hyfforddiant ar gydraddoldeb i swyddogion cwynion a chodi ymwybyddiaeth o Bolisi Cydraddoldeb y Cyngor a bod cyngor ar gael gan y Swyddog Cydraddoldeb.

**4.2.2** Yr angen i feysydd gwasanaeth adnabod materion sy’n ailadrodd, themâu a gwneud gwelliannau lle bo’n bosibl.

**4.2.3** Bod gweithdrefnau’n cael eu dehongli’n gyson a bod yr holl swyddogion cwynion wedi’u deall yn iawn. Roedd hyfforddiant gan OGCC i swyddogion cwynion y Cyngor yn 2024 yn amlygu camddealltwriaeth gan rai o ran dehongli beth a ystyrir yn gŵyn, a gwaethygwyd hyn gan y ffaith fod y

Cyngor wedi cael pedwar swyddog cwynion yn y tair blynedd ddiwethaf, ac wedi methu a phenodi rhywun yn barhaol.  Gwnaeth yr hyfforddiant hwn arwain at wneud addasiadau i Bolisi Cwynion y Cyngor ac mae ymateb ymgynghorol dilynol, a ddarparwyd gan y Cyngor i'r OGCC, yn dilyn cyfarfod gyda swyddfa'r OGCC, wedi arwain at gytundeb o ran paratoi cyngor a chanllawiau drafft cenedlaethol pellach.

**4.2.4** Gwneud mwy gydag OGCC, yn enwedig er mwyn sicrhau bod OGCC wedi'i gynnwys mewn unrhyw ohebiaeth gydag achwynwyr sy'n ymwneud â gweithredu argymhellion yr OGCC, oherwydd mae'r diffyg i wneud hynny mewn dau achos (yn cynnwys chwe argymhelliad) yn ystod 2024/2025 wedi arwain at argymhellion a oedd yn cael eu gweithredu yn cael eu cofnodi fel nad oeddynt yn cydymffurfio.

**4.2.5** Er bod hyfforddiant a phrofion mewnol wedi'u cwblhau, mae hyfforddiant pellach yn mynd rhagddo bellach ar y CRM newydd. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, gyda'r system wedi'i ymgorffori, bydd hyfforddiant pellach ar gydraddoldeb a gofal cwsmer yn angenrheidiol.

## 5. Edrych Ymlaen - 2025/26

**5.1** Fel y cyfeiriwyd ato uchod, cwblhaodd y Cyngor hyfforddiant gydag OGCC yn 2024 a diweddarwyd Polisi Cwynion y Cyngor.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd//a fydd yn cael eu cymryd yn 2025/2026 i wella'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â chwynion gwasanaeth.

**5.2** Aeth y CRM Cwynion yn fyw ar 01/10/2025 a chaiff ei adolygu ar 13/11/2025.

Mae swyddogion perthnasol wedi derbyn hyfforddiant yr y system newydd ac mae Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth/Rheolwyr Busnes wedi derbyn sesiynau ar y cyfrwng adrodd (Dangosfwrdd Power BI) sy'n darparu data penodol ar gyfer pob gwasanaeth ac sy'n cael ei ddiweddaru tair gwaith y dydd. Mae'r swyddogion hynny bellach wedi derbyn mynediad i'r Dangosfyrddau perthnasol.

Y bwriad wrth ddatblygu a chyflwyno'r CRM yw gwella goruchwyliaeth a rheolaeth y Cyngor dros gwynion; gweithrediadau dydd i ddydd gan y swyddogion cwynion gwasanaeth a goruchwyliaeth gan eu Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth.

**5.3** Mae'r Swyddog Cwynion Dros Dro, ynghyd â'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu, yn trefnu hyfforddiant ar ofal cwsmer er mwyn codi ymwybyddiaeth o arfer gorau wrth ddelio gydag chwynion yn effeithiol. Mae hyfforddiant pellach hefyd yn cael ei drefnu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

**5.4** Mae'r Swyddog Cwynion Corfforaethol Dros Dro yn diweddaru nodyn canllaw ar gyfer swyddogion cwynion er mwyn pwysleisio ymhellach egwyddor proses ymdrin â hawliadau sy'n cael ei deall yn dda ac sy'n cael ei chymhwyso'n gyson.

**5.5** Ar ôl ystyried copi drafft o’r Adroddiad hwn, mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i’r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) a’r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) fynychu cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch perfformiad eu priod Wasanaethau. Mae’r Cadeirydd wedi gofyn am wybodaeth bellach hefyd ynghylch perfformiad y Gwasanaeth Hamdden. Cynhwysir y wybodaeth bellach honno yn **Atodiad 6.**

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

| |
|---|
| Dim. Mae Llythyr Blynyddol OGCC 2024/2025 yn nodi bod rhaid adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. |

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| Mae'n ofyniad gan OGCC. |

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

| |
|---|
| Amherthnasol |

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| |
|---|
| Amherthnasol. Mae'r cyllid angenrheidiol ar gyfer gweithredu rhai o'r argymhellion eisoes o fewn y gyllideb. |

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

| |
|---|
| Bydd lleihau nifer y cwynion a gwella'r modd yr ydym yn delio â chwynion yn gwella profiad y cwsmer, galluogi swyddogion i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd a gwella enw da'r Cyngor. |

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Ydi, gan y bydd llai o gwynion a delio â chwynion yn well yn osgoi dyblygu gwaith a lleihau'r costau'n gysylltiedig â hynny a'r amser y mae swyddogion yn ei dreulio yn delio â chwynion, cynnal ymchwiliadau a gohebu ag OGCC. |

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

| |
|---|
| Do, OGCC. |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

| |
|---|
| Mae profiadau cwsmeriaid o ran y modd yr ydym yn delio â chwynion wedi effeithio ar rai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. |

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Un o’r argymhellion yw darparu hyfforddiant i swyddogion cwynion ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae’r thema hon hefyd yn thema genedlaethol ac mae’n rhan waith thematig OGCC ar gyfer 2024/2025. |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Amherthnasol |

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

| |
|---|
| Rhagwelir na fydd unrhyw effaith gan y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu’n gwbl ddwyieithog wrth ymateb i’r argymhellion a chwsmeriaid. |

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Wedi ei rannu â’r Prif Weithredwr a’r Tîm Arweinyddiaeth ar 15/09/2025 ac mae unrhyw adborth perthnasol wedi cael ei gynnwys yn yr Adroddiad hwn |
| 2. Cyllid / Swyddog 151 | Aelod o’r Tîm Arweinyddiaeth |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 4. Adnoddau Dynol | Pob Pennaeth Gwasanaeth wedi bod yn rhan o’r ymgynghoriad ar yr adroddiad drafft |
| 5. Eiddo | |
| 6. Technoleg Gwybodaeth | |
| 7. Caffael | |
| 8. Sgriwtini | Na |
| 9. Aelodau lleol | Na |

F – Atodiadau

| |
|---|
| Atodiad 1 : Crynodeb o’r Cwynion fesul Gwasanaeth ar gyfer 2024-2025<br>Atodiad 2 : Dadansoddiad o’r Data Mewnol ar Gwynion<br>Atodiad 3 : Llythyr Blynyddol OGCC 2024/2025<br>Atodiad 4 : Crynodeb o’r Cwynion Cod Ymddygiad a Chwythu’r Chwiban<br>Atodiad 5 : Adroddiad Blynyddol Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/2025 - Crynodeb o’r Pwyntiau Allweddol<br>Atodiad 6 : Gwybodaeth bellach ynghylch perfformiad y Gwasanaeth Hamdden |

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

| |
|---|
| Mae’r holl bapurau cefndirol perthnasol wedi cael eu darparu yn yr Atodiadau uchod. |

# ATODIAD 1

**Crynodeb o Gwynion fesul Gwasanaeth ar gyfer 2024 - 2025**

| **Gwasanaeth** | **Nifer y cwynion Cam 1** | **Nifer y cwynion Cam 2** | **Nifer wedi'u olrhain** | **Nifer heb eu olrhain** | **Cwynion wedi'u gollwng** | **Ymatebwyd iddynt ar amser** | **Ymatebion hwyr (cyn pen 3 mis)** | **Nifer yr ymatebion (dros 3 mis)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Busnes y Cyngor** | | | | | | | |
| Busnes y Cyngor | - | - | - | - | - | - | - | |
| | **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | |
| Priffyrdd ac Eiddo | 38 | 11 | 8 | 40 | 1 | 42 | 7 | |
| Gwastraff | 10 | 2 | 1 | 11 | | 11 | 1 | |
| | **Tai** | | | | | | | |
| Tai | 40 | 7 | 25 | 21 | 1 | 43 | 4 | |
| | **Dysgu** | | | | | | | |
| Dysgu (ac eithrio ysgolion) | 12 | 1 | | 13 | | 10 | 3 | |
| | **Rheoleiddio ac Economaidd** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd/Morwrol | | | | | | | | |
| Hamdden | 15 | | 14 | 1 | | 15 | | |
| Cynllunio | 2 | 2 | | 4 | | 4 | | |
| Amgylchedd/Gwarchod y Cyhoedd | 10 | 1 | 4 | 7 | | 10 | 1 | |
| | **Adnoddau** | | | | | | | |
| Adnoddau | 14 | 6 | 4 | 15 | 1 | 17 | 3 | |
| | **Trawsnewid** | | | | | | | |
| Cyswllt Môn | - | - | - | - | - | | - | |
| AD | - | - | - | - | - | | - | |
| **Cyfansymiau** | **141** | **30** | **56** | **112** | **3** | **152** | **19** | |

CC-17494/884819 (884818)

# ATODIAD 2

| Amgylchedd/Gwarchod y Cyhoedd |
| --- |
| - 15 cwyn, o gymharu â 10 yn 2023/2024, yn cynrychioli 8.7% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br><br>- Ymatebwyd i 14 o'r 15 ar amser.<br><br>- Er nad oedd nifer y cwynion yn uchel, cafodd 5 ohonynt eu trosglwyddo ymlaen i Gam 2. Mae hyn yn awgrymu y gall yr ymdriniaeth a chwynion Cam 1 fod yn fwy effeithiol.<br><br>- Er hyn, dim ond 2 gŵyn a gafodd eu olrhain. |

| Priffyrdd ac Eiddo |
| --- |
| - Y nifer uchaf o gwynion, sef 49, o gymharu â 19 yn 2023/2024, gan gynrychioli 28.5% o gyfanswm y cwynion yn 2024/2025.<br><br>- O ystyried y cynnydd yn nifer y cwynion, o un flwyddyn i'r llall, awgrymir y dylai'r Gwasanaeth adolygu'r rhesymau dros hyn ac a oes unrhyw addasiadau y gellir eu gwneud i systemau/prosesau/capasiti/hyfforddiant i leihau cwynion yn 2025/2026. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd cyllid/materion staffio ond efallai nad oes modd liniaru hynny.<br><br>- Dylid nodi mai dim ond 8 cwyn a gafodd eu olrhain (16.7%) ond hefyd mai ychydig o gwynion a gofnodwyd yn Ch1 a Ch2 2024/2025, sy'n awgrymu y gallai nifer y cwynion fod yn uwch nag a gofnodwyd. |

| Tai |
| --- |
| - 47 cwyn, o gymharu â 113 yn 2023/2024, yn cynrychioli 27.3% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025. Mae hwn yn welliant amlwg, er o sylfaen isel, gyda pherfformiad yn 2023/2024 yn cael ei briodoli i weithredu system TG newydd.<br><br>- Fodd bynnag, cofnodwyd 45 o'r 47 cwyn yn 2024/2025 ar gyfer Chwarter 3 a 4. Mae'n annhebygol mai dim ond 2 gŵyn a wnaed yn Chwarter 1 a 2 gyda'i gilydd. Mae felly’n rhesymol derbyn y gall nifer y cwynion blynyddol ar gyfer Tai fod yn sylweddol uwch.<br><br>- Mae angen i'r Gwasanaeth Tai ddilysu ei ddata ar gyfer 2024/2025 ac ystyried adolygu'r rhesymau dros y nifer uchel o gwynion a gafodd eu olrhain. Cadarnhawyd 54.3% o'r cwynion a gofnodwyd yn ystod 2024/2025. Dylai'r Gwasanaeth nodi prif achosion y cwynion a llunio cynllun i wella'r meysydd hyn, lle bo modd. |

| Dysgu |
| --- |
| - 13 cwyn, o gymharu â 6 yn 2023/2024, yn cynrychioli 7.6% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br>- Cafodd 12 ohonynt eu hadfer yng Ngham 1, sy’n awgrymu yr ymdrinnir â chwynion yn effeithiol.<br>- Ni chafodd unrhyw rai o’r cwynion eu olrhain, ond ni throsglwyddwyd unrhyw rai i Gam 2.<br>- Fodd bynnag, mae’r unig fater yn ymwneud â’r amseroedd ymateb mwyaf araf, gyda 23.1% o ymatebion hwyr. Dylid nodi y gall cwynion yn y maes hwn fod yn gymhleth, ac mae diffyg cwynion yng Ngham 2 yn awgrymu yr ymdriniwyd â chwynion yn effeithiol. |

| Hamdden |
| --- |
| - 15 cwyn, o gymharu â 29 yn 2023/2024, yn cynrychioli 8.7% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br>- Ymatebwyd i'r holl gwynion ar amser.<br>- Datryswyd yr holl gwynion yng Ngham 1. Mae hyn yn awgrymu sgiliau gofal cwsmeriaid da mewn gwasanaeth sy'n wynebu'r rheng flaen i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae nifer y cwynion a gafodd eu olrhain yn uchel sef 93%, gyda dim ond un gŵyn heb ei olrhain. Gall hyn fod o ganlyniad i natur y Gwasanaeth ac uniongyrchedd y cwynion a wneir. Fodd bynnag, efallai y bydd angen hyfforddiant, er mwyn sicrhau nad yw cwynion yn cael eu drysu â cheisiadau am wasanaeth. |

| Cynllunio |
| --- |
| - 4 cwyn, o gymharu â 25 yn 2023/2024, yn cynrychioli 0.6% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br>- 2 gwyn wedi'u datrys yng Ngham 1, a 2 gŵyn wedi'u datrys yng Ngham 2.<br>- Ni chafod unrhyw rai eu olrhain, ac ymatebwyd i bob cwyn ar amser.<br>- Perfformiad uchel, ddim yn codi unrhyw bryder. |

| Adnoddau |
| --- |
| - 20 cwyn, o gymharu â 56 yn 2023/2024, yn cynrychioli 11.6% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025. Mae hyn yn dangos gwelliant amlwg.<br>- Datryswyd 14 o gwynion yng Ngham 1 gyda 6 yn mynd i Gam 2. Mae hyn yn gymharol uchel, sef 30% o gyfanswm y cwynion. Mae hyn yn awgrymu y gallai trin cwynion Cam 1 fod yn fwy effeithiol, ond mae hwn yn wasanaeth eang, ac mae cwynion yn aml yn cwmpasu mwy nag un maes gwasanaeth, gan arwain at oedi a chymhlethdod.<br>Cafodd 4 o'r 20 cwyn eu olrhain. |

| **Gwastraff** |
|---|
| - 12 cwyn, o gymharu â 21 yn 2023/2024, yn cynrychioli 7% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br>- Cafodd 10 ohonynt eu hadfer yng Ngham 1, sy'n awgrymu yr ymdrinnir â chwynion yn effeithiol.<br>- Cafodd 1 ei olrhain.<br>- Derbyniodd 11 allan o 12 cwyn ymateb ar amser.<br>- Perfformiad uchel, ddim yn codi unrhyw bryder. |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
☎ 01656 641150
✉ Caseinfo@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 14 Awst 2025

---

**PERSONOL A CHYFRINACHOL**
Cynghorydd Gary Pritchard
Cyngor Sir Ynys Môn

**Drwy e-bost yn unig**
garypritchard@anglesey.gov.uk
dylanwilliams@ynysmon.gov.uk
Lynnball@anglesey.gov.uk
GaryO'reilly@ynysmon.llyw.cymru

Annwyl Gynghorydd Gary Pritchard

**Llythyr Blynyddol 2024-25**

**Rôl OGCC**

Fel y gwyddoch, ein rôl ni fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus, ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr, gosod safonau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gyrff cyhoeddus a sbarduno gwelliant mewn ymdrin â chwynion a dysgu o gwynion. Rydym hefyd yn cynnal ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus ar ein liwt ein hunain.

**Diben y llythyr**

Trwy'r llythyr hwn, rydym am roi diweddariad i chi ar ein gwaith, rhannu tueddiadau allweddol mewn cwynion am lywodraeth leol yng Nghymru a thynnu sylw at unrhyw faterion penodol i'ch sefydliad, ynghyd â chamau yr hoffwn i'ch sefydliad eu cymryd.

**Cwynion am wasanaethau cyhoeddus**

Mae'r llythyr hwn, fel bob amser, yn cyd-fynd â chyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol. Unwaith eto, gwelsom gynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â ni am wasanaethau cyhoeddus. Ers 2019-20, mae nifer y cwynion newydd am wasanaethau cyhoeddus sy'n cyrraedd ein swyddfa wedi cynyddu 44%.

Caewyd y nifer uchaf erioed o gwynion am wasanaethau cyhoeddus – 5% yn fwy na'r llynedd. Eleni, gwnaethom ymyrryd (canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le, ac argymell sut i gywiro pethau) mewn 18% o'r cwynion a gaewyd. Ar nodyn



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

cadarnhaol, eleni fe wnaethom ddatrys llawer mwy o gwynion yn gynnar. Roedd 87% o'n hymyriadau eleni yn ymwneud â Datrysiad Cynnar, o'i gymharu â 70% yn 2023-24.

Rydym yn deall bod pobl sy'n dod atom eisiau i'w cwynion gael eu datrys cyn gynted â phosibl ac rydym wedi ymrwymo i ddelio â nhw'n brydlon.

Yn gyffredinol, gwnaethom asesu cwynion a ddaeth i law, neu ymyrryd gyda Datrysiad Cynnar, o fewn 4 wythnos ar gyfartaledd; sydd ymhell o fewn ein targed o 6 wythnos.  Rydym hefyd wedi lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau ymchwiliad ar gyfartaledd, o 64 wythnos yn 2023-24, i 53 wythnos eleni.

Yn ystod 2024-25, cawsom 1,337 o gwynion am gynghorau lleol - cynnydd o 20% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a 54% yn fwy nag yn 2019-20.

Roedd y prif gwynion oedd i gyfrif am y cynnydd hwn yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd ac iechyd yr amgylchedd, a thai.  Fodd bynnag, gwelsom hefyd ostyngiad, sydd i'w groesawu, mewn cwynion am ymdrin â chwynion.

Gwnaethom ymyrryd mewn 13% o gwynion cynghorau lleol a gaewyd – cyfran debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

Derbyniwyd 22 o gwynion am Cyngor Sir Ynys Môn a chaewyd 20 – cafodd rhai cwynion eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol.  Cyfradd ymyrraeth Cyngor Sir Ynys Môn oedd 5%.  Roedd 18% o'r cwynion a dderbyniwyd am Gyngor Sir Ynys Môn yn ymwneud â Thai, cynnydd o 8% yn 2023-24.  Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanwl am gwynion am eich sefydliad y rhoddwyd sylw iddynt eleni yn yr atodiadau.

Yn 2024-25, gwnaethom 4 o argymhellion i'ch sefydliad.  Er mwyn sicrhau bod ein hymchwiliadau a'n hadroddiadau yn hybu gwelliant, gwnawn waith dilynol ar gydymffurfiaeth â'r argymhellion y cytunwyd arnynt gyda'ch sefydliad.  Yn 2024-25, roedd angen cydymffurfio â 6 argymhelliad.  Cyflawnwyd 0% o argymhellion oedd angen eu cwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.  Caiff argymhellion ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio ag argymhellion bob amser eu cytuno gyda'r corff cyhoeddus dan sylw cyn eu cwblhau, ac felly rydym yn disgwyl sefydliadau i gydymffurfio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

**Ein gwaith Cod Ymddygiad**

Ein rôl yw ymchwilio i honiadau bod cynghorwyr wedi torri eu Cod Ymddygiad. Pan fydd ymchwiliad yn canfod tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn ar fater sy'n ddigon difrifol fel bod angen ei gyfeirio er budd y cyhoedd, caiff yr achosion hyn eu cyfeirio naill ai at y Pwyllgor Safonau lleol neu'r Panel Dyfarnu Cymru i'w hystyried.

Yn 2024-25, cawsom 4% yn llai o gwynion Cod Ymddygiad newydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.  Roedd 60% o'r cwynion hyn yn ymwneud ag aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned.  Rydym yn dal i weld bod tuedd i dros hanner y cwynion hyn (56% eleni) fod yn gysylltiedig â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.

Gwnaethom 15 o atgyfeiriadau at y Pwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru (o'i gymharu â 21 y llynedd). Rydym yn ddiolchgar i'ch Swyddog Monitro am eu hymgysylltiad cadarnhaol gyda'm swyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf. Eleni byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw ar faterion sy'n ymwneud â'r fframwaith safonau moesegol, gan gynnwys Gweithdrefnau Datrys Lleol.

**Adolygiad Annibynnol**

Fel y gwyddoch, y llynedd, tynnwyd i'n sylw bod aelod o staff a oedd wedi bod yn Arweinydd Tîm ein Tîm Cod Ymddygiad wedi bod yn postio sylwadau amhriodol ac annerbyniol o natur wleidyddol ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd yr aelod o staff ei atal yn brydlon ac yn fuan wedyn ymddiswyddodd.

O ystyried difrifoldeb y mater, comisiynwyd Dr Melissa McCullough i gynnal adolygiad annibynnol o'n gwaith Cod Ymddygiad. Mae Adroddiad Dr McCullough, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, wedi canfod "yn gyffredinol, bod prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gadarn o ran diogelu tegwch a didueddrwydd. Maent yn systematig, wedi eu dogfennu'n dda ac wedi eu hategu gan ganllawiau priodol ac mae'n ofynnol cofnodi ac egluro'r rhesymau dros y penderfyniad fel bo'n berthnasol."

Er bod y canfyddiadau yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn, roedd yr adroddiad adolygu yn cynnwys nifer o argymhellion a gwersi a ddysgwyd, i " ategu'r mesurau diogelu presennol ar gyfer sicrhau tegwch a didueddrwydd y prosesau a byddai'n egluro'r canllawiau cysylltiedig fel bo'n berthnasol:

Yn dilyn hyn, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd ei adroddiad ar yr Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion pellach i ni yn ei adroddiad. Gellir dod o hyd i fanylion yr holl argymhellion a gwersi a ddysgwyd a'r camau rydyn ni wedi'u cymryd mewn ymateb yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol, cynhaliodd Dr McCullough asesiad annibynnol pellach o sut y gwnaethom weithredu'r argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd, fel y nodir yn ei Hadroddiad Adolygiad Annibynnol 2024. Daeth yr asesiad hwn i'r casgliad canlynol:

- derbyniwyd yr holl argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd yn llawn gennym ac maent wedi'u gweithredu'n llawn.
- dangoswyd dull cynhwysfawr, ystyriol ac ymgynghorol o weithredu'r argymhellion
- mae cyflymder y gweithredu wedi bod yn drawiadol
- cadarnhaodd adolygiad sicrwydd ansawdd ar wahân fod ein proses yn gadarn.

**Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus**

Gwnaethom barhau â'n gwaith ar gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod 2024-25, gwnaethom gwblhau ein hail ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hunain a oedd yn edrych ar asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghymru. Edrychwyd ar 4 cyngor lleol – Caerffili, Ceredigion, Sir y Fflint a Chastell-nedd Port Talbot – i weld p'un ai oedden nhw'n cynnal asesiadau gofalwyr yn unol â'u rhwymedigaethau statudol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ym mis Hydref 2024. Canfuom mai dim ond 2.8% o bobl yn ardaloedd y cynghorau hynny a nododd eu bod yn ofalwyr oedd wedi derbyn asesiad o anghenion. Yn ogystal â hyn, dim ond 1.5% oedd wedi derbyn cynllun cymorth priodol yn dilyn eu hasesiad. Nid oedd llawer o ofalwyr chwaith yn ymwybodol o'u hawliau mewn perthynas ag asesiadau a gwasanaethau cymorth a allai fod ar gael iddynt.

Nodwyd rhai meysydd o arfer da gan y cynghorau yr ymchwiliwyd iddynt. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd sawl argymhelliad gan gynnwys:

- gwella arferion cofnodi
- gwella sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â gofalwyr
- cynnig hyfforddiant diweddaru i staff ar hawliau gofalwyr
- cydweithio'n well â'r sector gofal iechyd.

Gwahoddwyd y cynghorau lleol eraill yng Nghymru i wneud gwelliannau tebyg.

Fel y gwnaethom yn achos ein hymchwiliad cyntaf ar ein liwt ein hunain, rydym wedi bod yn monitro sut mae sefydliadau wedi bod yn cydymffurfio â'n hargymhellion. Rydym yn bwriadu adolygu cydymffurfiaeth â'r argymhellion ac unrhyw effeithiau eraill yr adroddiad ym mis Hydref 2025.

Ar hyn o bryd mae 54 o sefydliadau ledled Cymru yn gweithredu ein polisi cwynion enghreifftiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl gynghorau lleol, pob bwrdd iechyd a bellach y rhan fwyaf o gymdeithasau tai - sy'n cynrychioli tua 85% o'r cwynion a dderbyniwn.

Mae ein cynnig o hyfforddiant am ddim ar ymdrin â chwynion wedi parhau i fod yn boblogaidd a darparwyd 52 o sesiynau hyfforddi pellach i gyrff cyhoeddus ledled Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dod â'r cyfanswm i 550 o sesiynau hyfforddi a 10,000 o bobl, ers 2020.

Rydym wedi parhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion, a gasglwyd gan gyrff cyhoeddus, gyda data'n cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r data am gwynion sy'n cael sylw gan gynghorau lleol yng

Nghymru yn ystod 2024-25 yn yr Hydref.  Mae'r data hwn yn caniatáu inni weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun – er enghraifft, yn ystod 2024-25 aeth 5.18% o'r cwynion a wnaed i gynghorau lleol ymlaen i gael eu cyfeirio atom.

Yn olaf, cyhoeddom hefyd 2 adroddiad thematig eleni, a oedd yn cynnwys astudiaethau achos o gwynion am gynghorau lleol:

- 'Byw mewn Cyflyrau Difrifol' (Tachwedd 2024): adroddiad thematig am gwynion tai a lleithder a llwydni.
- 'Mae Cydraddoldeb o Bwys' (Ionawr 2025): adroddiad thematig ar gynhwysiant a hygyrchedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion cyffredinol ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, gan roi ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith achos.

**Camau yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd**

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno'r Llythyr Blynyddol hwn i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal.
- Ystyried y data yn y llythyr hwn, ochr yn ochr â'ch data eich hun, i ddeall mwy am eich perfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth eich sefydliad ag argymhellion a wnaed gan fy swyddfa.
- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Hoffwn ddiolch i chi, a'ch swyddogion, am barhau i fod yn agored, ac am ymgysylltu, gyda fy swyddfa.  Mae ein gwybodaeth yn dangos bod awdurdodau lleol yn ystyried mwy o gwynion nag erioed o'r blaen ac yn defnyddio gwybodaeth o gwynion i sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru.

Yn gywir

*Michelle Morris*

**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cc. Dylan Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
Lynn Ball, Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn
Gary O'Reilly, Swyddog Cyswllt OGCC, Cyngor Sir Ynys Môn

**Taflen Wybodaeth**

Mae **Atodiad A** yn dangos nifer y cwynion a gafodd OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2024-25. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae **Atodiad B** yn dangos categori pob cwyn a gafwyd, a pha gyfran o'r cwynion a gafwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad C** yn dangos cyfraddau ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2024-25. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae **Atodiad D** yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2024-25. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad E** yn dangos perfformiad o ran cydymffurfiad ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad F** yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2024-25. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad G** yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2024-25. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

## Atodiad A – Cwynion a gafwyd (trosolwg)

| | MAL | | | CODE | | | Cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **Cywnion a Gafwyd** | **Poblogaeth** | **Cafwyd fesul 1,000 o drigolion** | **Cywnion a Gafwyd** | **Poblogaeth** | **Cafwyd fesul 1,000 o drigolion** | **Cywnion a Gafwyd** | **Poblogaeth** | **Cafwyd fesul 1,000 o drigolion** |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 14 | 67356 | 0.21 | 1 | 67356 | 0.01 | 15 | 67356 | 0.22 |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 58 | 146743 | 0.40 | 10 | 146743 | 0.07 | 68 | 146743 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 78 | 176437 | 0.44 | 3 | 176437 | 0.02 | 81 | 176437 | 0.46 |
| Cyngor Caerdydd | 219 | 383536 | 0.57 | 4 | 383536 | 0.01 | 223 | 383536 | 0.58 |
| Cyngor Sir Gâr | 86 | 190083 | 0.45 | 14 | 190083 | 0.07 | 100 | 190083 | 0.53 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 47 | 73050 | 0.64 | 0 | 73050 | 0.00 | 47 | 73050 | 0.64 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 29 | 114410 | 0.25 | 9 | 114410 | 0.08 | 38 | 114410 | 0.33 |
| Cyngor Gwynedd | 46 | 119173 | 0.39 | 2 | 119173 | 0.02 | 48 | 119173 | 0.40 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 98 | 97156 | 1.01 | 7 | 97156 | 0.07 | 105 | 97156 | 1.08 |
| Cyngor Sir y Fflint | 61 | 155812 | 0.39 | 3 | 155812 | 0.02 | 64 | 155812 | 0.41 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 22 | 69291 | 0.32 | 2 | 69291 | 0.03 | 24 | 69291 | 0.35 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 17 | 58593 | 0.29 | 3 | 58593 | 0.05 | 20 | 58593 | 0.34 |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 19 | 94572 | 0.20 | 9 | 94572 | 0.10 | 28 | 94572 | 0.30 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 48 | 142898 | 0.34 | 1 | 142898 | 0.01 | 49 | 142898 | 0.34 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 61 | 163628 | 0.37 | 1 | 163628 | 0.01 | 62 | 163628 | 0.38 |
| Cyngor Sir Penfro | 47 | 125006 | 0.38 | 6 | 125006 | 0.05 | 53 | 125006 | 0.42 |
| Cyngor Sir Powys | 55 | 134439 | 0.41 | 24 | 134439 | 0.18 | 79 | 134439 | 0.59 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 62 | 241178 | 0.26 | 3 | 241178 | 0.01 | 65 | 241178 | 0.27 |
| Cyngor Abertawe | 113 | 246742 | 0.46 | 6 | 246742 | 0.02 | 119 | 246742 | 0.48 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 20 | 93419 | 0.21 | 4 | 93419 | 0.04 | 24 | 93419 | 0.26 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 61 | 134733 | 0.45 | 3 | 134733 | 0.02 | 64 | 134733 | 0.48 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 76 | 136149 | 0.56 | 11 | 136149 | 0.08 | 87 | 136149 | 0.64 |
| **Cyfanswm** | **1337** | **3164404** | **0.41** | **126** | **3164404** | **0.04** | **1463** | **3164404** | **0.46** |

## Atodiad B – Cwynion a gafwyd (yn ôl sefydliad)

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 2 | 9% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 2 | 9% |
| Cyfleusterau Cymunedol, Adloniant a Hamdden | 2 | 9% |
| Ymdrin â Chwynion | 1 | 5% |
| Covid19 | 0 | |
| Addysg | 0 | |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 5% |
| Cyllid a Threthiant | 5 | 23% |
| Iechyd | 0 | |
| Tai | 4 | 18% |
| Trwyddedu | 0 | |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 2 | 9% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 1 | 5% |
| Darparwr Gofal sy'n Hunan-gyllido | 0 | |
| Amrywiol Eraill | 2 | 9% |
| **Cyfanswm** | **22** | |

## Atodiad C – Achosion lle ymyrrodd OGCC (trosolwg)

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % yr ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 12 | 0% |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 57 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 11 | 79 | 14% |
| Cyngor Caerdydd | 37 | 190 | 19% |
| Cyngor Sir Gâr | 11 | 86 | 13% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 11 | 45 | 24% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5 | 29 | 17% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6 | 98 | 6% |
| Cyngor Sir y Fflint | 7 | 61 | 11% |
| Cyngor Gwynedd | 3 | 44 | 7% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1 | 20 | 5% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 1 | 15 | 7% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 45 | 11% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 6 | 62 | 10% |
| Cyngor Sir Penfro | 8 | 47 | 17% |
| Cyngor Sir Powys | 8 | 51 | 16% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 6 | 60 | 10% |
| Cyngor Abertawe | 12 | 109 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 0 | 18 | 0% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 12 | 63 | 19% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7 | 72 | 10% |
| **Cyfanswm** | **164** | **1279** | **13%** |

**Atodiad D – Achosion lle ymyrrodd OGCC (yn ôl sefydliad) (* yn dynodi ymyrraeth)**

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Canlyniadau Cwynion** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Rhoddwyd gorau i'r ymchwiliad i'r gŵyn (gyda datrysiad cynnar yn ystod y camau asesu)* | 0 | |
| Rhoddwyd y gorau i ymchwilio'r gŵyn (heb setliad) | 0 | |
| Penderfynu peidio ymchwilio cwyn | 8 | 40% |
| Datrys yn gynnar* | 1 | 5% |
| Mater tu hwnt i awdurdodaeth | 5 | 25% |
| Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn heb ei chadarnhau | 0 | |
| Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi'i chadarnhau* | 0 | |
| Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: cwyn wedi'i chadarnhau a'i datrys yn gynnar yn y cam asesu* | 0 | |
| Cynamserol | 6 | 30% |
| Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi ei chadarnhau* | 0 | |
| Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'i gyhoeddi: cwyn wedi'i chadarnhau gyda datrysiad cynnar yn ystod y cam asesu* | 0 | |
| Adroddiad Budd Arbennig | 0 | |
| Setliadau gwirfoddol* | 0 | |
| **Cyfanswm** | **20** | |

## Atodiad E – Cymhariaeth o berfformiad cydymffurfio

| Awdurdod Lleol | Nifer yr amgymhellion a wnaed ar gwynion y caewyd yn 2024-25 | Nifer yr amgymhellion sy'n ddyledus yn 2024-25 | % yr argymhellion, y cydymffurfiwyd â dyddiad targed cytûn |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 0 | n/a |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 15 | 18 | 28% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 24 | 24 | 50% |
| Cyngor Caerdydd | 97 | 96 | 56% |
| Cyngor Sir Gâr | 29 | 27 | 67% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 24 | 24 | 63% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 14 | 14 | 71% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 10 | 8 | 50% |
| Cyngor Sir y Fflint | 20 | 22 | 91% |
| Cyngor Gwynedd | 9 | 9 | 89% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 4 | 6 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 4 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 2 | 2 | 0% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 11 | 8 | 75% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 12 | 11 | 27% |
| Cyngor Sir Penfro | 20 | 18 | 61% |
| Cyngor Sir Powys | 21 | 23 | 22% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 11 | 10 | 20% |
| Cyngor Abertawe | 25 | 24 | 33% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 0 | 0 | n/a |
| Cyngor Bro Morgannwg | 30 | 31 | 55% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 19 | 16 | 75% |

## Atodiad F – Cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cwynion Y Cod Ymddygiad y caewyd |
|---|---|
| Cod Ymddygiad heb ei weithredu | 0 |
| Taflen Cod Ymddygiad wedi'i hanfon/dolen i'r wefan wedi'i darparu | 0 |
| Gafwyd y gŵyn dros y ffôn - yn aros am lofnod | 0 |
| Tynnwyd y gŵyn ôl | 0 |
| Rhoddwyd y gorau. Nid er budd y cyhoedd i'w ddilyn | 0 |
| Cŵynddyblyg heb dystiolaeth newydd | 0 |
| Gwybodaeth a ddarparwyd | 0 |
| Dim angen gweithredu | 0 |
| Dim datganiad y derbyniwyd - tynnwyd yn ôl | 0 |
| Dim tystiolaeth o esgeulustod | 0 |
| Dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o esgeulustod | 2 |
| Nid er lles y cyhoedd i ymchwilio | 0 |
| Tu hwnt i awdurdodaeth - cyfeirio | 0 |
| Cynamserol - Cyfeiriwyd ar gyfer datrysiad lleol | 0 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |
| Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | 1 |
| Tynnwyd yn ôl | 0 |
| **Total** | 3 |

## Atodiad G – Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref / Cyngor Cymuned

| | Penderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r cod | | Ymchwiliadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Nid er lles y cyhoedd i ymchwilio** | **Dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o esgeulustod** | **Rhoddwyd y gorau. Nid er budd y cyhoedd i'w ddilyn** | **Dim angen gweithredu** | **Dim tystiolaeth o esgeulustod** | **Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru** | **Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau** | **Cyfanswm** |
| Cyngor Cymuned Aberffraw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Amlwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Tref Biwmares | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bodedern | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bodffordd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bodorgan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bryngwran | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Cwm Cadnant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Caergybi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanbadrig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddaniel Fab | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddona | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddyfnan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llaneilian | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanerchymedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llaneugrad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfachraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfaelog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanfaethlu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfairpwll | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Llangefni | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llangoed and Penmon | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanidan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Mechell | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Porthaethwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Moelfre | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Penmynydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Pentraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Rhoscolyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Rhosyr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Trearddur | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Tref Alaw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Trewalchmai | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Fali | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |

**ATODIAD 4**

## 1. Cod Ymddygiad Cwynion

Rhaid i unrhyw gŵyn yn erbyn aelod etholedig fod yn seiliedig ar honiad o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau, gyda'r Ombwdsmon yn arfer awdurdodaeth 'hidlo cyntaf' (h.y. asesu teilyngdod) cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen, a sut.

Yn ystod 2024/2025, derbyniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 4 cwyn ynghylch cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sir, gyda 2 wedi'u cau ar ôl asesiad cychwynnol, a heb ymchwiliad.

Mae cwyn yn erbyn 1 cynghorydd sir yn parhau i gael ei hymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chafodd y llall ei chwblhau gan y Pwyllgor Safonau, ond roedd yn disgyn i'r flwyddyn 2025/2026, felly nid yw'n berthnasol i amserlen yr adroddiad hwn.

Er mwyn cyflawnrwydd, mae cwynion am aelodau etholedig cynghorau tref a chymuned, mewn perthynas â'r un Cod Ymddygiad, hefyd yn cael eu hadrodd ddwywaith y flwyddyn i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir. Oherwydd cyfyngiadau a osodwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, dim ond gwybodaeth gyfyngedig iawn am gwynion o'r fath sy'n cael ei hadrodd yn ffurfiol i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir ddwywaith y flwyddyn. Gweler y dolenni dilynol:-

Chwarter 1, 2 a 3
Chwarter 4

## 2. Chwythu'r Chwiban

Lluniwyd Polisi Chwythu'r Chwiban a'r ddogfen Ganllawiau lleol y Cyngor i gefnogi gweithwyr i godi'r pryderon hynny, sy'n dod o fewn cwmpas y Polisi, heb ofni erledigaeth na gwahaniaethu. Chwythu'r chwiban yw'r term poblogaidd a ddefnyddir pan fydd aelod o staff (mae'n cynnwys contractwyr ond nid yw'n ymwneud â'r cyhoedd nac aelodau etholedig) yn codi pryderon ynghylch twyll, troseddoldeb, perygl, neu risg ddifrifol a allai fygwth y cyhoedd, eu cydweithwyr neu enw da'r Cyngor.  Y ddeddfwriaeth berthnasol yma yw Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sef darn o ddeddfwriaeth cyflogaeth a gynlluniwyd yn benodol i amddiffyn gweithwyr a chontractwyr rhag triniaeth anffafriol gan eu cyflogwyr.

Cynhaliodd staff y Cyngor sesiwn ddatblygu ar ddatgelu camweddau drwy'r Porth Polisi yn ystod Chwarter 1, 2025/2026.  Bydd cyfraddau cydymffurfio yn cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Oherwydd y sensitifrwydd dan sylw, mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno ar lefel y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn unol â rhwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i amddiffyn chwythwyr chwiban rhag niwed yn y gweithle.  Yn unol â hynny, dim ond gwybodaeth gyfyngedig a ddatgelir byth.

| | Dyddiad a Gyflwynwyd | Natur y Datgeliad* /Adroddwyd i | Natur y bryder | Ymchwiliwyd | Canlyniad | Gwersi a Ddysgwyd | Canlyniadau a adroddwyd yn ôl i'r Chwythwr Chwiban |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 14/03/2025 * | Lefel 1 / Swyddog Monitro | Honiadau o ymyrraeth wleidyddol mewn erlyniad sydd ar y gweill | Do, trafodaethau gyda chwythwyr chwiban a phartïon perthnasol yn ogystal ag adolygiad o gofnodion | Penderfyniad anffurfiol gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau / Swyddog Monitro | Datblygwyd modiwl hyfforddi ar gyfer uwch swyddogion ar y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion: Rolau a Chyfrifoldebau | Do, diweddariad terfynol i'r pedwar chwythwr chwiban mewn cyfarfodydd un-i-un gyda'r Swyddog Monitro ar 04/06/2025 |
| 2 | 14/03/2025 * | Lefel 1 / Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Pryderon ynglŷn â'r gwasanaeth Rheoli Adeiladu ynghylch cydymffurfiaeth, cymhwysedd, capasiti a llesiant staff | Do, ac fe adroddwyd yn ffurfio i'r Pwyllgor Gwaith ar 02/20/2025. Mae'r adroddiad ar gael yma | Ymateb i'r Hysbysiad Gwella wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 02/10/2025. | Darparu gwell hyfforddiant, goruchwyliaeth a chefnogaeth ar gyfer y tîm perthnasol fel y manylir yn Atodiad A yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith. | Do ar 19/09/2025 |

* Troednodyn - dyddiadau wedi'u dilysu.  Dyddiadau adrodd yn gyd-ddigwyddiadol.

# ATODIAD 5

**Adroddiad Blynyddol ar Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/2025**

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol**

Mae'n ofynnol, o dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014, i'r Gwasanaethau Cymdeithasol roi Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol ar waith.
Mae'r weithdrefn hon ar wahân i Bolisi Cwynion Corfforaethol y Cyngor.

Yn ystod 2024/25, mae'r adroddiad hwn yn dangos:

- Bod llai o ganmoliaeth wedi'i gofnodi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (317 o gymharu â 383 y llynedd).
- Bod llai o sylwadau negyddol wedi'u cofnodi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (62 o gymharu â 68 y llynedd).
- Bod nifer y cwynion Cam 1 a gofnodwyd wedi cynyddu (o 16 i 20) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac roedd nifer y cwynion Cam 2 wedi gostwng (o 6 i 1). Roedd cyfanswm yr holl gwynion a gofnodwyd wedi gostwng (o 22 i 21).
- Mae lefel y cwynion yn y ddau Wasanaeth yn isel yng nghyd-destun y galw ar y gwasanaeth (roedd cynnydd o 11% am Wasanaethau Oedolion a chynnydd o 14% am Wasanaethau Plant a Theuluoedd). Gan ddefnyddio nifer yr atgyfeiriadau fel ffigwr cymharol, mae lefel y cwynion Cam 1 yn 0.12% (Gwasanaethau Oedolion) a 0.26% (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd) a'r lefelau ar gyfer cwynion Cam 2 yw 0.00% a 0.02% yn y drefn honno.
- Mae'r ddau wasanaeth yn parhau i ddadansoddi'r pwyntiau dysgu sy'n deillio o'r cwynion a'r ganmoliaeth er mwyn cymryd camau i wella gwasanaethau ac ymarfer yn y dyfodol, megis adolygu protocolau, polisïau a systemau, hyfforddi staff a gosod disgwyliadau o ran ymarfer.
- Anfonwyd yr holl ymatebion i ymchwiliadau Cam 1 o fewn yr amserlen.

**Themâu Cwynion**

- Materion cyfathrebu
- Oedi ac anghysonderau mewn perthynas ag asesiadau a chefnogaeth
- Cywirdeb gwybodaeth
- Trefniadau cyswllt
- Diffyg cefnogaeth
- Lleoliadau
- Oedi
- Diffyg darpariaeth gofalwyr

**Dysgu o Gwynion**

- Yr angen i gyfathrebu'n ddigonol, yn eglur ac yn sensitif
- Bod angen cofnodi gweithredoedd yn eglur
- Cydymffurfio ag amserlenni statudol ar gyfer cyflawni camau angenrheidiol

**Sylwadau Cadarnhaol**

- Sylwadau cadarnhaol iawn am aelodau staff.
- Gwerthfawrogi gwasanaethau cefnogol a chymwynasgar.
- Mae gwasanaethau'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar deuluoedd, neu ar gyfer teuluoedd.
- Mae staff yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae gofal o ansawdd uchel a charedigrwydd yn cael ei ddangos mewn cartrefi preswyl.
- Proffesiynol ac ansawdd y gwaith a'r gefnogaeth wedi creu argraff dda.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 04/12/2025 |
| **Pwnc:** | Llywodraethu Gwybodaeth - Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ar gyfer y cyfnod 01/04/2024 i 31/03/2025 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro / SIRO |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Swyddog Diogelu Data Dros Dro |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br><br>Rhoi barn yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar y prif faterion Llywodraethu Gwybodaeth (LIG) ar gyfer y cyfnod 01/04/2024 i 31/03/2025; a'r risgiau cyfredol. | |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad hwn yn amlinellu barn SIRO y Cyngor ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion statudol* ym maes Llywodraethu Gwybodaeth (LIG).

Hefyd, mae'r Adroddiad yn cyfeirio at gyswllt y Cyngor ag awdurdodau rheoleiddio a gwendidau a risgiau a nodwyd. Ac eithrio'r wybodaeth yn **Atodiad 8** ni fydd yr Adroddiad yn cyfeirio at seiber ddiogelwch, na'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â'r Fframwaith Asesu Seiber. Caiff y materion hyn eu trafod yn Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Digidol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn.

Cyflwynir rhywfaint o wybodaeth ystadegol yn gysylltiedig â pherfformiad LIG y Cyngor yn yr atodiadau.

## 2. ARGYMHELLION

**2.1** Bod hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar dor diogelwch data yn cael ei ddarparu i Swyddogion Deddf Rhyddid Gwybodaeth (Swyddogion DRhG) i wella eu hymwybyddiaeth o'r hyn a ystyrir yn dor diogelwch data, sut i roi gwybod am dor diogelwch data a'r mesurau lliniaru y dylid eu cymryd pe byddai achos o dorri diogelwch data'n cael ei ganfod.

**2.2** Bod y Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Personol, a'r Canllaw atodol, yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru cyn cael ei ail lansio yn fewnol â Swyddogion DRhG. Dylai ail lansiad o'r fath gynnwys hyfforddiant penodol ar y Polisi a Chanllaw diwygiedig.

Troednodyn: *Mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfiaeth â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR), darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, amodiadau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gofynion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (yn gysylltiedig â gweithgareddau goruchwylio), ynghyd â chanllawiau gweithdrefnol cysylltiedig.

**2.3** Yn amodol ar gymeradwyaeth gorfforaethol, bod ffigurau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol chwarterol, sy'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwitni Corfforaethol, yn cael eu diwygio fel eu bod yn cynnwys cyfraddau cydymffurfiaeth gwasanaethau unigol. Mae hyn er mwyn gwella tryloywder a nodi meysydd o danberfformiad er mwyn asesu a chefnogi'r meysydd hynny â darparu mesurau gwella wedi'u targedu a hyfforddiant.

**2.4** Bod gwasanaethau'n asesu eu cynlluniau cyhoeddi er mwyn dibynnu mwy ar a20 ac a21 o'r DRhG (sef, gwybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol neu wybodaeth sydd eisoes ar gael).

**2.5** Darparu hyfforddiant ar y DRhG i Swyddogion DRhG yn cynnwys pryd i ddefnyddio'r eithriadau perthnasol.

**3. ASESIAD Y SIRO**

**3.1 TOR DIOGELWCH DATA**

At ei gilydd mae'r ffigurau yn gysylltiedig â thor diogelwch data yn parhau i fod yn isel, ac mae hyn yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gan fod y Cyngor wedi cael gwybod am ddim ond saith achos o dorri diogelwch data mewn blwyddyn **(Atodiad 1)** mae'n bosib bod diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â beth a ystyrir yn dor diogelwch data ac felly mae materion a ddylai gael eu cyfeirio at y Swyddog Diogelu Data Dros Dro yn cael eu hanwybyddu. I wneud yn siŵr bod arferion y Cyngor yn gadarn, rhaid cwblhau hydoddiant yn y maes hwn yn flynyddol. Yn amlwg, bydd hyn yn cael ei wneud gan gydnabod y ffaith y gallai nifer yr achosion o dorri diogelwch data gynyddu yn sgil gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r systemau a phrosesau angenrheidiol.

Cafodd y Polisi Digwyddiadau Diogelu Data Personol ei adolygu ddiwethaf yn 2020. Roedd i fod i gael ei adolygu yn 2022, ac yna 2024. Fodd bynnag, oherwydd problemau staffio/capasiti, ni chafodd y gwaith hwn ei gwblhau. Yn yr un modd, roedd y nodyn canllaw i gyd-fynd â'r Polisi hefyd i fod i gael ei adolygu ond ni chafodd y gwaith hwn ei gwblhau chwaith.

**3.2 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG)**

Er bod enghreifftiau o arferion da, y brif neges yw bod ffigurau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r DRhG yn ofnadwy o isel ac maent bob amser yn is na'r isafswm y mae'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn ei ddisgwyl (y targed yw 90%) **(Atodiad 4)**.

Mae'n bosib y bydd yr ystyriaethau a ganlyn yn berthnasol i'r mater hwn:-

- Nid oes cynlluniau cyhoeddi'n gysylltiedig â gwasanaethau ar hyn o bryd. Drwy fynd ati'n rheolaidd i gyhoeddi deunyddiau y mae pobl yn aml iawn yn gofyn amdanynt o dan y DRhG a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) gellir defnyddio'r eithriadau a ganiateir o dan y DRhG a RhGA a thrwy ddefnyddio cynlluniau cyhoeddi'n effeithiol gellir lleihau'r baich ar wasanaethau.

- Nodir yn **Atodiad 4** mai un cais yn unig a dderbyniwyd am adolygiad mewnol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae adolygiadau mewnol yn geisiadau i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir o dan y DRhG a RhGA a rhaid cyflwyno cais o'r fath cyn y gellir apelio i SCG.

  Mewn cymhariaeth, mae'r adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r DRhG ar lefel lywodraethol yn awgrymu bod adolygiad mewnol wedi cael ei gychwyn yn achos 13% o geisiadau DRhG yn 2024 (cafodd y ffigurau eu rhyddhau yn 2025). Mae'n bosib bod y nifer isel o geisiadau am adolygiadau mewnol a dderbynnir gan y Cyngor oherwydd nad yw'n dibynnu ar eithriadau statudol yn aml iawn.

  Dibynnwyd ar ddim ond 16 eithriad yn unig er bod 818 o geisiadau DRhG wedi'u derbyn, a oedd yn cynnwys 6574 o elfennau. Gweler **Atodiad 4.**

  Felly, mae'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro wedi trefnu hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion DRhG ar yr DRhG yn gyffredinol, yn cynnwys hyfforddiant penodol ar ddefnyddio eithriadau. Bydd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu rhwng y Swyddog Diogelu Data Dros Dro a'r Swyddogion DRhG yn ogystal, a bydd defnyddio eithriadau yn eitem sefydlog ar yr agenda. Y nod yw gwella eu hymwybyddiaeth a chynyddu eu hyder wrth ddefnyddio eithriadau.

  Yn benodol, bydd y Swyddog Diogelu Data Dros Dro yn gweithio â'r Swyddogion DRhG, a'u gwasanaethau, i drafod adnewyddu/gweithredu cynlluniau cyhoeddi. Bydd hyn yn caniatáu i eitemau y gofynnir amdanynt yn rheolaidd gael eu cyhoeddi, fel y gellir ymateb i'r ceisiadau yn unol ag adran 20 ac 21 o'r DRhG, sef gwybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol, neu sydd eisoes ar gael. Fe all cynlluniau cyhoeddi ystyriol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd wella cyfraddau cydymffurfiaeth â lleihau'r llwyth gwaith ar wasanaethau.

Cynigir bod adrodd ar elfennau unigol yn cael ei dynnu o adroddiadau yn y dyfodol. Nid yw'r wybodaeth hon o unrhyw gymorth wrth geisio deall y llwyth gwaith y mae ceisiadau DRhG y ei greu a bydd adroddiadau chwarterol ar berfformiad meysydd gwasanaeth unigol yn rhoi mwy o eglurhad ynglyn â materion perthnasol ynghyd â chyfle i ymyrryd a gwella.

Mae'r ffigurau cydymffurfiaeth cyfartalog ar gyfer y blynyddoedd blaenorol ar gael yn **Atodiad 4**.

## 3.3 RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL

Dylai adroddiadau DRhG gynnwys ceisiadau o dan RhGA 2004. Dros y cyfnod adrodd mae ceisiadau a ddylai fod wedi cael eu trin fel ceisiadau o dan y RhGA wedi cael eu cofnodi fel ceisiadau DRhG a'u rheoli, prosesu a'u hadrodd fel ceisiadau o'r fath.

Mewn adroddiadau yn y dyfodol, byddwn yn adrodd ar geisiadau a gyflwynir o dan y RhGA ar y cyd.

Dylid nodi mai'r un yw'r terfynau amser statudol ar gyfer ymateb i geisiadau RhGA, sef 20 diwrnod gwaith.

## 3.4 CEISIADAU GWRTHRYCH AM WYBODAETH

Adroddir ar hyn yn **Atodiad 6**

## 3.5 CEISIADAU HAWLIAU UNIGOLION (CHU)

Derbyniwyd 2 CHU yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Cawsant eu trin fel cwynion.

Mewn adroddiadau gan y SIRO yn y dyfodol byddant yn cael eu hadrodd fel CHU o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

## 3.6 TROSOLWG GAN REOLEIDDWYR

Adroddir ar hyn yn **Atodiad 7**

## 3.7 PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24

Adroddir ar hyn yn **Atodiad 8**

## 3.8 RHEOLI COFNODION CORFFORAETHOL (DRhG)

Adroddir ar hyn yn **Atodiad 9**

## Atodiad 1. Nifer y digwyddiadau diogelwch data a gofnodwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

**Digwyddiadau diogelwch data (24/25): 7**

**Lefel 1** (digwyddiad diogelwch data fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau a gadarnhawyd ond **nad oes** rhaid hysbysu'r SCG/Rheoleiddwyr eraill amdanynt) = 7

**Lefel 2** digwyddiadau diogelwch data y mae'n **rhaid** hysbysu SCG yn eu cylch oherwydd y risg yn gysylltiedig â'r digwyddiad = 0

| Categori Lefel 0 -1 | Nifer |
|---|---|
| Datgelu trwy gamgymeriad | 7 |
| Colli data/caledwedd | 0 |
| Datgelu heb awdurdod | 0 |
| Colli wrth gael ei gludo | 0 |
| Arall | 0 |
| Categori 2 | **Nifer** |
| Datgelu trwy gamgymeriad | 0 |
| Datgelu heb awdurdod | 0 |
| Methiant technegol | 0 |
| Arall | 0 |

## Atodiad 2. Gweithredoedd a gytunwyd yn dilyn y digwyddiadau diogelwch data.

| Gweithredoedd |
|---|
| Ni chytunwyd ar unrhyw weithredoedd ffurfiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. |

## Atodiad 3. Achosion tor-diogelwch data yr hysbyswyd SCG yn eu cylch.

Yn ystod y cyfnod rhwng 01/04/2024 a 31/03/2025, ni fu unrhyw achosion tor-diogelwch data yr oedd rhaid hysbysu SCG yn eu cylch.

## Atodiad 4. Ceisiadau a chwynion o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000



### 4.1 Ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Derbyniodd y Cyngor 818 cais am wybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd, sef rhwng 01/04/2024 a 31/03/2025.


Roedd y mwyafrif o'r ceisiadau wedi'u cyfeirio at y gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, y gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r gwasanaeth Adnoddau.

Crynodeb o ddata DRhG ar gyfer y cyfnod adrodd:

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd | 818 |
| Cyfanswm Nifer yr Elfennau a Dderbyniwyd | 6574 |
| Canran y ceisiadau a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen statudol | 82% yn erbyn targed SCO o 90% |
| Cyfanswm nifer y ceisiadau am Adolygiad Mewnol yn unol â'r Cod Ymarfer Statudol | 1 |

Mae SCG yn cynghori y dylai cyrff cyhoeddus ymateb i 90% o geisiadau DRhG o fewn 20 diwrnod gwaith.

Yn ystod y cyfnod adrodd, sef rhwng 01/04/2024 a 31/03/2025, cyfradd cydymffurfio corfforaethol y Cyngor, ar gyfartaledd, oedd 82%. Mae hyn yn parhau i fod yn sylweddol is na tharged SCG ac mae'n awgrymu fod problemau'n bodoli o ran hyfforddiant a chapasiti. Mae'r patrwm hwn o danberfformio yn bodoli ers amser maith ac nid yw'r sefyllfa'n newid. Nodir lefelau cydymffurfio dros gyfnod o amser yn y graff isod.


Cydymffurfiaeth DRhG 2015-2025
67%
77%
78%
81%
82%
79%
79%
72%
80%
82%
2015-2016
2016-2017
2017-2018
2018-2019
2019-2020
2020-2021
2021-2022
2022-2023
2023-2024
2024-2025

## 4.2 Eithriadau a ddefnyddiwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Defnyddiwyd yr eithriadau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd, sef rhwng 01/04/2024 a 31/03/2025:

| Eithriad | Nifer o weithiau y cafodd yr eithriad ei defnyddio |
|---|---|
| **Adran 1** Adran 1(3) (mae angen eglurhad pellach ynglŷn â'r cais) | 3 |
| **Adran 12** (mae'n uwch na'r terfyn priodol o 18 awr) | 1 |
| **Adran 14** (ceisiadau wedi'u hailadrodd) | 1 |
| **Adran 21** (gwybodaeth ar gael drwy ddulliau eraill) | 4 |
| **Adran 31** (rhagfarnu swyddogaethau amrywiol yn gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith) | 1 |
| **Adran 39** (gwybodaeth amgylcheddol) | 1 |
| **Adran 40** (data personol) | 1 |
| **Adran 41** (gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol) | 2 |
| **Adran 42** (braint gyfreithiol broffesiynol) | 2 |
| **Cyfanswm yr eithriadau a ddefnyddiwyd** | 16 |

**Atodiad 5. Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a dderbyniodd y Cyngor yn ystod y flwyddyn gan unigolion ynglŷn â'r modd y proseswyd eu gwybodaeth bersonol.**

Mae deddfwriaeth diogelu data yn atgyfnerthu hawliau gwrthrych y data i gwyno am y modd y mae sefydliadau wedi defnyddio eu data personol, neu'n bwriadu ei ddefnyddio, neu sut y maent fel arall wedi amharu ar hawliau gwrthrych y data.

| **Cwynion i'r Cyngor o dan y Ddeddf Diogelu Data (Ceisiadau Hawliau Unigolion)** |
|---|
| Derbyniwyd dwy gŵyn o dan y Ddeddf Diogelu Data.<br><br>Roedd un gŵyn yn ymwneud â chais i **ddileu data personol**<br><br>Roedd un gŵyn yn ymwneud â **gwrthod gadael** i'r Cyngor brosesu data personol<br><br>Yn dilyn ymchwiliad gan y Swyddog Diogelu Data Annibynnol:<br><br>**Cadarnhawyd un achos.** Roedd y Cyngor wedi amharu ar hawliau'r unigolyn trwy brosesu data;<br><br>**Ni chadarnhawyd un achos.** Nid oedd y Cyngor wedi amharu ar hawliau'r unigolyn o dan y Ddeddf Diogelu Data trwy brosesu data. |

**Atodiad 6. Gwybodaeth ynglŷn â nifer y Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a pherfformiad y Cyngor.**

| **Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a Chydymffurfiaeth** |
|---|
| Derbyniwyd 49 Cais Gwrthrych am Wybodaeth yn ystod y cyfnod.<br><br>Mewn perthynas â'r ceisiadau a dderbyniwyd:<br><br>Anfonwyd 39% (19) o ymatebion o fewn y terfyn amser statudol priodol, h.y. o fewn 1 mis, ac roedd 1 ymateb yn hwyr.<br><br>Mae 59% (29) o ymatebion yn aros am gadarnhad ynghylch hunaniaeth yr ymgeiswyr. Nid yw ceisiadau o'r fath yn cael eu dynodi'n "hwyr".<br><br>Roedd 2% o'r ymatebion yn hwyr. |

## Atodiad 7. Gwybodaeth am Drosolwg gan Reoleiddwyr

### 7.1 Digwyddiad Meddalwedd Wystlo Data Cymru

#### 7.1.1. Crynodeb o'r Digwyddiad

Ar 03/11/2024 roedd Data Cymru yn destun ymosodiad meddalwedd wystlo gan grŵp o'r enw INC Ransom. Canfuwyd yr ymosodiad yn wreiddiol ar 04/11/2024 a llwyddodd yr ymosodwyr i gael mynediad heb ei awdurdod at ddata personol sensitif yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol o fewn cynghorau ledled Cymru. Datgelodd ymchwiliad pellach ar 26/11/2024 fod yr ymosodwyr wedi cael mynediad hefyd at ail set, mwy helaeth, o ddata.

Roedd y data oedd wedi'i gyfaddawdu'n cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif am blant mewn lleoliadau gofal ledled Cymru, ac roedd yn dyddio'n ôl i 2012. Roedd y wybodaeth yn cynnwys enwau'r plant, dyddiadau geni, manylion lleoliadau, gwybodaeth am ddarparwyr, a chyfeiriadau lleoliadau.
Yn ôl y dadansoddiad, roedd yn ymddangos bod yr ymosodiad yn bosib trwy gyfrif profi etifeddol a grëwyd wrth fudo Data Cymru i'w ddarparwr TG allanol (OGI/NSUK) yn 2012. Roedd y cyfrif hwn, nad oedd Data Cymru'n ymwybodol ohono, yn darparu drws cefn i'w systemau i'r ymosodwyr. Prif ffocws yr ymosodiad oedd system storio ffeiliau etifeddol oedd wrthi'n cael ei diddymu'n raddol wrth fudo i SharePoint.

#### 7.1.2. Camau a gymerwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn

Roedd ymateb y Cyngor hwn i'r digwyddiad Data Cymru yn bwyllog ac wedi'i gydlynu, gan ganolbwyntio ar amddiffyn yr unigolion oedd wedi'u heffeithio, yn ogystal â pharhau i gydymffurfio â gofynion diogelu data. Ar ôl cael ei hysbysu am y tor-diogelwch data ym mis Tachwedd 2024, sefydlodd y Cyngor hwn sianelau cyfathrebu mewnol ar unwaith, gan ddynodi swyddogion penodol i fod yn bwyntiau cyswllt ar gyfer y digwyddiad. Cafodd gwybodaeth ei rheoli'n ofalus a'i rhannu yn ôl yr angen yn unig er mwyn sicrhau cyfrinachedd, yn unol ag argymhelliad y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Trwy gydol y broses rheoli digwyddiad, fe wnaeth y Cyngor gymryd rhan weithredol yn yr ymateb cenedlaethol cyd-drefnus trwy gyfarfodydd arweinwyr rhanbarthol Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a rhwydweithiau Swyddogion Diogelu Data. Mabwysiadodd y Cyngor y protocol rheoli'r cyfryngau a gytunwyd a pharatowyd ein tîm cyfathrebu i ddelio ag unrhyw ymholiadau gan y wasg yn unol â'r canllawiau a sefydlwyd. Fe wnaethom hefyd barhau i gyfathrebu â darparwyr gofal lleol oedd wedi cael eu heffeithio, gan gynnig cyngor iddynt ynghylch eu cyfrifoldebau fel rheolwyr data.

Pan gyhoeddodd y BBC erthygl ym mis Mawrth 2025 ynglŷn â digwyddiad tor-data oedd yn effeithio ar blant agored i niwed, aeth y Cyngor ati'n syth i adolygu asesiadau risg a pharatoi i reoli unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn sgil yr erthygl, yn unol â'r trefniadau eithrio a argymhellwyd. Trwy gydol y digwyddiad, fe wnaeth y Cyngor gadw dogfennau cynhwysfawr oedd yn cofnodi ein prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y penderfyniad ar sail risg i beidio â hysbysu'r unigolion oedd wedi cael eu heffeithio. Ym mis Ebrill 2024, derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau rheoleiddio,

ac roedd hynny'n cadarnhau dilysrwydd dull y Cyngor o reoli'r digwyddiad tor-diogelwch data cymhleth hwn.

### 7.1.3 Gwersi a Ddysgwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn

Roedd y digwyddiad meddalwedd wystlo Data Cymru yn cynnig llawer o wybodaeth werthfawr sydd wedi cryfhau ein trefniadau diogelu data a rheoli digwyddiadau. Yn sgil ein hymwneud â'r digwyddiad cymhleth hwn, fe wnaeth y Cyngor nodi meysydd allweddol i'w gwella mewn perthynas â'n harferion llywodraethu gwybodaeth, trosolwg o ddiogelwch a phrosesau'n ymwneud â chydweithio amlasiantaethol.

Nododd y Cyngor yr angen i gadarnhau'r berthynas rhwng rheolwyr/proseswyr data ac adolygu trefniadau rhannu data gyda sefydliadau allanol, yn enwedig lle mae'n ymwneud â gwybodaeth sensitif am blant agored i niwed. Yn sgil yr ystyriaethau llywodraethu hyn, sefydlwyd trefniadau mwy cadarn ar gyfer cofnodi llif data a gweithgareddau prosesau ar gyfer data categori arbennig.

Maes dysgu holl bwysig arall a nodwyd oedd cydweithio ar ddiogelwch, ac roedd y Cyngor yn cydnabod fod dilysu rheolaethau diogelwch sy'n cael eu gweithredu gan eu proseswyr data yn rheolaidd yn bwysig, yn hytrach na dibynnu ar rwymedigaethau cytundebol yn unig. Roedd y ffaith fod detholiad o ddata heb ei amgryptio wedi cael ei gyfaddawdu'n tynnu sylw at yr angen am safonau diogelwch cyson o fewn yr holl arferion trin data. Yn olaf, roedd cyfranogiad y Cyngor yn yr ymateb cenedlaethol cyd-drefnus yn dangos gwerth rheoli digwyddiad ar lefel amlasiantaethol, yn ogystal â datgelu cyfleoedd i ddatblygu prosesau mewnol mwy cadarn ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud â phroseswyr data allanol.

### 7.2 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'r SCG yn gyfrifol am orfodi a hyrwyddo cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig; y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; y Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus; y Rheoliadau INSPIRE. Mae gan y SCG y pŵer i asesu'r ffordd y mae unrhyw sefydliad wedi prosesu data personol yn erbyn safonau 'arfer dda' cyfredol.

| **Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a wnaed gan unigolion ynghylch y modd y bu i'r Cyngor brosesu eu gwybodaeth bersonol ac yr oedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) wedi'u hymchwilio yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.** |
|---|
| Fe wnaeth SCG ymchwilio i ddwy gŵyn, ac roedd un ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn. Yn y ddau achos, ni ofynnodd SCG i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau pellach. |

| **Apeliadau i SCG o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|
| Cyflwynwyd apêl i SCG ynghylch dau benderfyniad yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn: |

Mewn un achos, penderfynodd SCG y dylai'r Cyngor ddarparu ymateb o sylwedd i'r cais cyn pen 10 diwrnod gwaith.

Gyda'r ail, gofynnwyd i'r Cyngor ystyried elfennau diogelwch data'r cwyn DRhG ar wahân, ond ni fu'n rhaid cymryd unrhyw gamau pellach.

### 7.3. Y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth

Nid oes dim i'w adrodd ar gyfer y cyfnod hwn.

## Atodiad 8. Diweddariad ar benderfyniadau'r Pwyllgor ar gyfer 2023-2024

*"Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhelliad bod y SIRO ac uwch arweinwyr y Cyngor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar seiber ddiogelwch a'r mesurau lliniaru fel y gellir gwneud penderfyniadau strategol, gwybodus yn gysylltiedig â bygythiadau seiber cyson i uniondeb a chyfrinachedd asedau data'r Cyngor yn gyflym ac effeithiol."*

**Statws Cyfredol**

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn derbyn diweddariadau naill ai:

- pan fo gwendid wedi cael ei ganfod/neu fesur lliniaru arfaethedig ar gyfer gwendid a ganfuwyd, yn debygol o achosi effaith sylweddol ar un gwasanaeth neu fwy; neu

- phan fo rhaid gwneud penderfyniad gan bwyso a mesur y risgiau. Ar yr adegau hyn bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn derbyn adroddiad gan TG yn gofyn am benderfyniad i ddefnyddio mesur lliniaru gan gydnabod unrhyw effaith. Fel arall, rhoi mesur lliniaru a fydd yn cael llai o effaith ar waith, neu dderbyn y risg yn gysylltiedig â gwendid penodol.

Ar 30/09/2025 cyflwynodd Prif Swyddog Digidol y Cyngor adroddiad i'r Pwyllgor hwn yn gysylltiedig â statws prosiectau seiber yn cynnwys y gwaith parhaus fel rhan o'r Fframwaith Asesu Seiber Cenedlaethol.

## Atodiad 9. Rheoli Cofnodion Cenedlaethol/CRhG

Mae'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro a benodwyd yn ddiweddar wedi mynegi pryder nad yw manyleb wreiddiol y system ceisiadau DRhG/CRM yn rhoi digon o drosolwg. Yn y bôn, daethpwyd i'r casgliad nad oedd y prosiect CRM yn ddigon uchelgeisiol. Mae'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro wedi cynnal adolygiad holistig o drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ac mae wedi dod i'r casgliad y byddai'n fwy defnyddiol i'r Cyngor ddyfeisio system nad yw'n gyfyngedig i ddata DRhG yn unig ac sydd hefyd yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth ehangach (y rheiny a ddisgrifir yn Adran 3 yn yr adroddiad hwn) a fydd yn sicrhau mwy o gywirdeb a monitro perfformiad corfforaethol.

Mae model tebyg yn bodoli mewn awdurdod arall yn y rhanbarth ond yn dilyn ymholiadau cadarnhawyd nad yw'r system yn cydweddu â phlatfform CRM y Cyngor ac felly nid yw cydweithio/caffael yn bosib.

Dan yr amgylchiadau bydd rhaid ail-ddylunio'r prosiect newydd  y fewnol ac mae manyleb CRM newydd wrthi'n cael ei ddylunio ynghyd â chynllun prosiect newydd.

Yn y cyfamser, er eu bod y tu allan i amserlen yr adroddiad hwn, mae'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro wedi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio i reoli ceisiadau DRhG, ynghyd â hyfforddiant ychwanegol a chyfarfodydd rheolaidd a'r gobaith yw y bydd y mesurau hyn yn gwneud y gwasanaeth hwn yn fwy effeithlon.  Erbyn hyn mae gwaith monitro pellach yn cael ei gwblhau, mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng y Swyddog Diogelu Data Dros Dro a'r Swyddogion RhG i roi cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau ac mae hyfforddiant a chymorth wedi'i dargedu'n cael ei ddarparu i wasanaethau â lefelau cydymffurfiaeth isel.

Rhannwyd gwybodaeth â'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 18/11/2025 yn ogystal, a bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor Gwaith ar 25/11/2025.  Mae'r adroddiad perthnasol yn nodi'r canlynol:-

"*Mae Swyddog Diogelu Data Dros Dro presennol y Cyngor wedi adolygu polisi a gweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor. Yn dilyn yr adolygiad hwn, bydd manyleb newydd yn cael ei datblygu ar gyfer sefydlu ceisiadau gwybodaeth ar y system CRM, a fydd yn sicrhau bod ein gweithdrefnau yn cydymffurfio â Safonau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Credir y dylai'r system ar-lein newydd wella'r perfformiad yn y tymor hir. Mae rhywfaint o ostyngiad mewn capasiti o fewn y gwasanaethau i ddelio â thasgau ceisiadau gwybodaeth hefyd yn sicrhau bod cyrraedd y targed o 90% yn un heriol.*"

F2. 2025/07

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Y Pwyllgor Gwaith<br>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>Y Cyngor |
| Dyddiadau: | 25/11/2025<br>04/12/2025<br>09/12/2025 |
| Pwnc: | Diwygio'r Cyfansoddiad - Rhoi Cymeradwyaeth Derfynol i Gyfrifon Blynyddol y Cyngor |
| Aelod Portffolio: | |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Lisa Lord, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro |
| Aelodau Lleol: | Pawb |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhellion**

**Y Pwyllgor Gwaith**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Bod y Pwyllgor yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

**Y Cyngor**

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

**Rhesymau**

- Mae prif gamau proses gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor fel a ganlyn:

1. Ardystio'r cyfrifon drafft - Swyddog Adran 151

2. Archwiliad cyhoeddus o'r cyfrifon drafft

3. Adolygu'r cyfrifon drafft wedi'u harchwilio - Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

4. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn iddo ystyried y cyfrifon drafft wedi'u harchwilio

5. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu'r cyfrifon drafft terfynol

6. Y Cyngor llawn i gymeradwyo'r cyfrifon terfynol

- Mae Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru yn cynnwys nod clir i fyrhau'r amserlen archwilio ar gyfer llywodraeth leol. Y dyddiad awdurdodi ar gyfer 2025/26 yw 30/09/2026 ac mae hyn fis yn gynharach na 2024/25.

- Mae hyn yn cywasgu'r amser sydd ar gael i ymateb i unrhyw faterion a godir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cytuno ar unrhyw newidiadau gyda'r Archwilydd Allanol a chynhyrchu fersiwn ddwyieithog ddiwygiedig a chywir o'r cyfrifon terfynol.

- Os bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon, yna bydd rhaid symud cyfarfod Medi 2026, neu bydd angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn.

- Mae dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn broses gymeradwyo fwy effeithlon. Nid oes unrhyw anfantais i unrhyw gynghorydd, na'r cyhoedd, oherwydd bydd yr adroddiadau'n parhau i fod ar gael yn y ffordd arferol (gweler y broses gymeradwyo lawn uchod).

- Mae Archwilio Cymru wedi awgrymu'r newid arfaethedig er mwyn sicrhau fod ein trefniadau'n cyd-fynd â'r trefniadau presennol sydd ar waith mewn prif gynghorau yng Nghymru.

- Yng nghyd-destun y cefndir hwn, yr hyn y gofynnir amdano yw newid paragraff 3.4.8.12.3 - "*Bydd y Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo datganiadau ariannol y Cyngor, ~~cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn~~, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig".*

- O dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad "…*ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig*".

- Cyflwynir adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar 04/12/2025, er mwyn gofyn barn y pwyllgor hwnnw ar y newid arfaethedig.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Bod y Cyngor llawn yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon. Gwrthodwyd hyn gan fod y sefyllfa bresennol yn cael effaith negyddol ar effeithlonrwydd y broses, ac nid yw'r newid arfaethedig yn creu anfantais i unrhyw barti.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith, a bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Fodd bynnag, o dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad, mae'n ofynnol rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno sylwadau ar unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r Cyfansoddiad.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad (nad ydynt yn ymwneud â 3.5.3.6.6. a 3.4.12.6.3)

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?

Mae'r newid arfaethedig yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithlon mewn perthynas â chyfrifon statudol y Cyngor.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

Nid i unrhyw raddau sylweddol, ond bydd yn osgoi'r angen i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor.

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Archwilio Cymru

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Na

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Dim effaith |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Dim effaith |

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Dim effaith |

## E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Ystyriwyd y mater ar 14/10/2025 pan gytunwyd ar yr argymhelliad. |
| 2. Swyddog Cyllid / 151 | Y Swyddog Adran 151 sydd wedi comisiynu'r adroddiad |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad ac mae'n cefnogi'r argymhelliad<br><br>Mae cyngor cyfreithiol wedi ei geisio, yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, o ran y gwrthdaro rhwng yr Atodiad Darparu Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol a'r ddeddfwriaeth, pan ddaw hi i hawliau pleidleisio aelodau lleyg y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.<br><br>Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliad 10 y Cyfrifon a Rheoliadau archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) a chanllawiau statudol yn ei gwneud yn glir fod gan aelodau lleyg y Pwyllgor archwilio a Llywodraethiant hawliau pleidleisio llawn.<br><br>Cydnabyddir hyn gan CIPFA a bydd eu canllawiau yn cael eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'r safbwynt statudol cywir. |
| 4. AD | Amherthnasol |
| 5. Eiddo | Amherthnasol |
| 6. TG | Amherthnasol |
| 7. Caffael | Amherthnasol |
| 8. Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9. Aelodau Lleol | Ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 04/12/2025 |

## F - Atodiadau

## Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 4 Rhagfyr 2025 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)<br>Mae gofyn i'r pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Gofynnir i'r pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt. (3.4.8.10.10)<br>Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) newydd, sy'n cael eu mandadu o 1 Ebrill 2025 ac maent yn cynnwys Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yr IIA a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang sector cyhoeddus y DU a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU.<br>Mae hefyd yn cyd-fynd â'r arferion sy'n cael e hargymell ar gyfer goruchwylio archwilio mewnol, fel y nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Safon 11.3 y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol gyda'r bwrdd ac uwch reolwyr yn rheolaidd ac ar gyfer pob gweithgaredd. Yn ychwanegol at hyn, mae Safon 15.1 yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu'r cyfathrebiad olaf gyda'r rheiny a all sicrhau bod y canlyniadau'r cael eu hystyried yn briodol.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r pwyllgor, fel y mae'r sefyllfa ar 21 Tachwedd, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 30 Medi 2025, llwyth gwaith presennol archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen.


## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:

- canlyniad gweithgareddau Archwilio Mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd a'n
- blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

Rhagfyr 2025





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**




# Cynnwys:

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ____ 1
Rheoli Perfformiad ____ 2
Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd ____ 2
Gwaith ar y Gweill ____ 3
Camau Gweithredu sy'n Weddill ____ 3
Blaenoriaethau ____ 4
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ____ 4
Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy ____ 4



# Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

1. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Medi 2025, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau/cyfleoedd a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **dau** ddarn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Rhesymol | 0 | 2 | 5 |
| Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd | Cyfyngedig | 0 | 5 | 6 |

## Rheoli Perfformiad

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 2 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

**A oes gan y cyngor drefniadau rheoli perfformiad effeithiol ar waith i sicrhau bod uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn derbyn gwybodaeth brydlon, gywir a chyflawn mewn perthynas â pherfformiad y cyngor yn erbyn ei brif flaenoriaethau ac amcanion, sy'n eu galluogi i ddal gwasanaethau i gyfrif yn effeithiol am eu perfformiad?**

4. Mae gan y cyngor fframwaith rheoli perfformiad effeithiol sydd wedi'i angori yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, gyda threfniadau llywodraethu sydd wedi hen wreiddio a phroses strwythuredig ar gyfer cynllunio, monitro ac adolygu blaenoriaethau strategol. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad yn nodi meysydd allweddol i'w gwella er mwyn gwella aeddfedrwydd a chysondeb trefniadau rheoli perfformiad o fewn y sefydliad cyfan.

5. Yn neilltuol, mae yna ddiffyg sicrwydd ynghylch ansawdd data ar lefelau gwasanaeth a chorfforaethol, sy'n creu risg o ran cywirdeb y canlyniadau sy'n cael eu rhannu. Mae adnoddau'r tîm Perfformiad Corfforaethol yn brin ac nid oes ganddo system bwrpasol i gefnogi trefniadau dilysu data cadarn. Mae arferion monitro perfformiad yn amrywio o un gwasanaeth i'r llall, ac nid oes cysondeb o ran defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a threfniadau adolygu. Er bod diwylliant perfformiad cryf mewn rhai gwasanaethau, mae angen codi ymwybyddiaeth a darparu arweiniad mwy eglur i wasanaethau eraill.

6. Mae ymdrechion yn mynd rhagddynt i safoni prosesau gan ddefnyddio templed cynllun cyflawni gwasanaeth blynyddol, sy'n ceisio gwella trosolwg corfforaethol. Mae proses hunanasesu'r cyngor, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn cydymffurfio i raddau helaeth, ond byddai'n fuddiol gwella trefniadau craffu ac adolygu'r templed er mwyn sicrhau proses gyflawn a chywir.

## Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd

| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 5 | Sylweddol |
| | 6 | Cymedrol |

7. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

**Oes gan y cyngor drefniadau llywodraethu, isadeiledd a mesurau diogelwch TGCh effeithiol ar waith o fewn ei ystadau TG mewn ysgolion uwchradd?**

8. Cwblhawyd y darn hwn o waith ar ein rhan gan Dîm Archwilio TG Cyngor Salford. Daethant i'r casgliad nad yw ysgolion uwchradd, at ei gilydd, yn lliniaru'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â threfniadau llywodraethu, isadeiledd a diogelwch TGCh i lefel dderbyniol.

9. Er bod y cyngor wedi lansio sawl cynllun er mwyn gwella gwasanaethau TGCh ysgolion a mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn y tymor canol, nid ydynt yn gallu lliniaru'r heriau presennol ar unwaith.

10. Rydym wedi codi 11 mater/risg/cyfle a chytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr, sydd ar gael mewn dogfen ar wahân. Rydym wedi derbyn sicrwydd bod rheolwyr yn bwriadu mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd erbyn Gorffennaf 2026.

11. Oherwydd natur y pryderon a godwyd, bydd yr adroddiad a'r cynllun gweithredu yn cael eu trafod mewn sesiwn breifat o'r cyfarfod, ar ôl cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus priodol.

12. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynllun gweithredu a byddwn yn adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Gwaith ar y Gweill

13. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes | Rheswm dros yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|
| Rheoleiddio ac Economaidd | Ymchwiliad | Gwaith Maes |
| Archwiliad TG: Diogelwch Ffisegol ac Amgylcheddol Canolfannau Data | Cofrestr Risgiau Strategol (YM3) | Adroddiad Drafft |
| Archwiliad TG: Rheoli Asedau TG | Cofrestr Risgiau Strategol (YM3) | Gohiriwyd ar gais y Prif Swyddog Digidol |
| Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio | Adolygiad Dilynol Cyntaf | Gwaith Maes |
| Rheoli'r Risg Diogelu | Cofrestr Risgiau Strategol (YM10/YM12) | Gwaith Maes |
| Rhaglenni Addysg Gynnar a Grant Gofal Plant | Adolygiad Dilynol Cyntaf | Gwaith Maes |
| Rheolaeth Ariannol | Cofrestr Risgiau Strategol (YM1) | Gwaith Maes |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Ail Adolygiad | Gwaith Maes |

# Camau Gweithredu sy'n Weddill

14. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i fynd i'r afael â'r holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd, a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

15. Ar 21 Tachwedd, ar hyn o bryd nid oes unrhyw gamau gweithredu sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed i'w cwblhau sydd wedi dod yn 'hwyr'.

# Blaenoriaethau

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

16. Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran Gwaith ar y Gweill yn gynharach yn yr adroddiad. Mae'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26 yn mynd rhagddo'n dda.

17. Rydym wedi llwyddo i recriwtio Uwch Archwilydd fydd yn ymuno â'r tîm ganol Rhagfyr. Bydd gwaith yn dechrau ar unwaith i gynefino'r swyddog newydd fel aelod o'r tîm.

## Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy

18. Bydd gweithredu gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn y Sector Cyhoeddus yn y DU yn parhau dros y 18 mis nesaf.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 4 Rhagfyr 2025 |
| Pwnc: | Adolygiad Blynyddol o'r Fframwaith Rheoli Risg a'r Gofrestr Risgiau Strategol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol i'r pwyllgor adolygu, asesu ac adrodd ar ba mor effeithiol yw'r cyngor wrth ddatblygu a gweithredu trefniadau rheoli risg o fewn y cyngor (3.4.8.8.1). Fel rhan o'r cyfrifoldeb hwn, bydd yn cadw llygaid ar bolisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer eu rhoi ar waith. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r fframwaith rheoli risg (polisi, strategaeth a chanllawiau) yn cael ei adolygu bob blwyddyn a'i gyflwyno i'r pwyllgor ei ystyried. Wrth weithredu fel pwyllgor risg, bydd hefyd yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol ac yn ceisio sicrwydd bod rheolwyr yn perchnogi risgiau'n briodol a'u rheoli'n effeithiol, a bydd yn ystyried a yw trefniadau ar gyfer adnabod ac asesu risgiau'n ddigonol ac effeithiol a ph'un a yw mesurau lliniaru a gynlluniwyd yn briodol ac effeithiol, gan wneud argymhellion i'r perchennog risg cyfrifol lle bo hynny'n briodol. (3.4.8.8.3) | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwahanol elfennau fframwaith rheoli risg presennol y cyngor, sef y strategaeth, sydd yn cynnwys datganiad polisi'r cyngor, ynghyd â'r canllawiau rheoli risg cysylltiedig, i'r pwyllgor. Mae'r dogfennau presennol wedi'u cynnwys yn Atodiad A a B, yn y drefn honno. Mae mân newidiadau wedi cael eu hamlygu, er gwybodaeth.

## 2. Newidiadau arfaethedig i'r fframwaith

2.1 Gadawodd y Rheolwr Yswiriant a Risg ei swydd ym mis Mai 2024 ac roedd hynny'n gyfle i adolygu strwythur a chyfrifoldebau swyddogion o fewn y fframwaith rheoli risg, ynghyd â chynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gofrestr risgiau strategol.

2.2 Mae cyfrifoldebau rheoli risgiau oedd yn arfer bod yn rhan o swydd y Rheolwr Yswiriant a Risg, yn enwedig mewn perthynas â chynnal a chadw a diweddaru'r gofrestr risgiau strategol, wedi cael eu trosglwyddo i'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Rheolaeth).

2.3 Fel rhan o'n contract yswiriant gyda Zurich Municipal (ZM), rydym yn derbyn gwasanaethau Zurich Risk Solutions (ZRS) a gomisiynwyd i weithio gyda'r cyngor ar adolygiad llawn o drefniadau rheoli risg y cyngor.

2.4 Fel rhan o'r gwaith hwn, bu ZRS yn gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth er mwyn cynorthwyo i adolygu'r gofrestr risgiau strategol bresennol. Cynhaliodd ZRS weithdy gyda'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Mawrth 2025, ac mae nifer y risgiau ar y gofrestr risgiau strategol wedi gostwng o 16 i 11 risg yn sgil hynny.

2.5 Lluniwyd y set mwy cryno o risgiau gan ddefnyddio'r model CORE (cryno; canolbwyntio ar amcanion; nodi gwraidd y risg a penodol) a nod y model yw nodi gwraidd y risg er mwyn rhoi mesurau lliniaru mwy effeithiol a real ar waith.

2.6 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno ar y set ddiwygiedig o risgiau strategol. Ar hyn o bryd mae'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) yn gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth er mwyn dadansoddi'r risgiau, h.y. ystyried pa mor debygol yw'r risg o ddigwydd a'r effaith ar y cyngor pe byddai'n digwydd (y risg cynhenid), ynghyd â nodi'r mesurau lliniaru sydd ar waith, a'i effaith ar sgôr y risg (y risg gweddilliol).

2.7 Mae perchnogion risgiau wrthi'n cael eu hadnabod, h.y. y rheiny sy'n gyfrifol am y maes risg ac sydd mewn swyddi ar lefel ddigon uchel i ddarparu sicrwydd fod mesurau lliniaru ar waith a mynnu bod camau ychwanegol yn cael eu cwblhau. Cyflwynir cofrestr risgiau wedi'i ddiweddaru'n llawn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026.

2.8 Mae ZRS wedi cael ei gomisiynu gan y cyngor hefyd i:

- ddatblygu a mireinio archwaeth risg y cyngor ymhellach gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, gan ddefnyddio gweithdai ac arolwg er mwyn alinio canfyddiadau a dealltwriaeth.

- darparu hyfforddiant rheoli risg i reolwyr busnes gwasanaethau ('Cydlynwyr Risg') er mwyn sicrhau lefel gyson o ddealltwriaeth o fewn y cyngor, fel bod unigolion yn teimlo'n hyderus y gallant ddefnyddio dull rheoli risgiau'r cyngor yn eu hamgylchedd gweithio, a bod ymrwymiad ac agwedd ragweithiol yn bodoli tuag at reoli risgiau sy'n annog trafodaeth reolaidd ac agored.

- darparu sesiwn hyfforddi ragweithiol ynglŷn â rheoli risgiau strategol i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd y sesiwn yn cynorthwyo aelodau i adnabod y gwahaniaeth rhwng risgiau gweithredol a strategol; yn ogystal â datblygu cyd-ddealltwriaeth o arferion a gweithdrefnau rheoli risg a dull rheoli risg cyffredinol y cyngor. Y nod yw rhoi trosolwg clir i aelodau o sut mae'r cyngor yn nodi, asesu a lliniaru risgiau. Bydd yr hyfforddiant hefyd yn pwysleisio rôl hanfodol aelodau etholedig a lleyg wrth ddarparu trosolwg, her a sicrwydd fod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol o fewn y sefydliad cyfan.

2.9 Er bod y system rheoli risgiau ar waith ers nifer o flynyddoedd, byddai'n fanteisiol i staff dderbyn hyfforddiant diweddaru o ganlyniad i drosiant staff ac yn dilyn cyflwyno fersiwn ddiwygiedig (v2) o'r system. Comisiynwyd RSM, darparwr y system (4risk), i ddarparu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system i'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) a'r tîm cefnogi, ynghyd â rheolwyr busnes gwasanaethau sy'n cyflawni'r rôl 'Cydlynydd Risg' o fewn y gwasanaethau.

## 3. Argymhelliad

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd fel rhan o adolygiad cyflawn o'r fframwaith rheoli risg a'r gofrestr risgiau strategol.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Polisi a Strategaeth Rheoli Risg



## Fersiwn 23.0
## (Mawrth Rhagfyr 20254)

**Am y polisi hwn**

Mae'r ddogfen hon, ynghyd a'r canllawiau cysylltiedig, yn darparu fframwaith y Cyngor as gyfer rheoli risg.  Mae'r fframwaith yn berthnasol o holl staff ac Aelodau'r Cyngor.



**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Mai 2023 | |
| 2.0 | Mawrth 2024 | Rolau a chyfrifoldebau wedi eu diweddaru. |
| 3.0 | Rhagfyr 2025 | Rolau a chyfrifoldebau wedi eu diweddaru. Dileu'r gofyniad i bolisi gael ei dderbyn yn y porth polisi. |

| Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
|---|---|
| Adolygir y polisi ar: | ~~Mai~~ Rhagfyr 2026 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | ~~Rheolwr Risg & Yswiriant~~Pennaeth Archwilio a Risg |

~~**Manylion cyswllt: Julie Jones (juliejones@ynysmon.llyw.cymru)**~~

## Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. This document is available in English.

## Rhagair

Mae risgiau ynghlwm â phob agwedd ar fywyd a busnes.  Fel sefydliad amrywiol, mae'r risgiau sy'n wynebu Cyngor Sir Ynys Môn yn eang ac amrywiol.  Rydym yn credu na ddylai'r Cyngor anwybyddu risg ond yn hytrach ceisio ei reoli'n rhagweithiol.  Bydd hyn yn caniatáu inni nid yn unig ddiwallu anghenion heddiw, ond hefyd fod yn barod i ymateb i heriau'r dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod risgiau'n fygythiad ond eu bod hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i arloesi. Felly, mae angen dealltwriaeth dda ac ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n ein hwynebu os ydym am fynd ati'n llwyddiannus i gyflawni'r nodau a'r amcanion sydd yng Nghynllun y Cyngor, cynlluniau cyflenwi gwasanaethau a chynlluniau prosiect, a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth lawn.

Mae rheoli risg yn rhan sylfaenol o lywodraethu da a rheolaeth fewnol ac mae'n elfen hanfodol wrth gyflawni ein nodau a'n hamcanion.   Mae'r ddogfen hon a'r canllawiau atodol yn nodi'r ymddygiadau a'r arferion rheoli risg da yr ydym yn eu disgwyl drwy'r Cyngor ac a fydd yn ein helpu i ddatblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg.

Mae gan y Pwyllgor Gwaith â'r Tîm Arweinyddiaeth ddarlun clir o'r risgiau sy'n bygwth y gallu i gyflawni ein hamcanion a lefel yr amlygiad i risg yr ydym yn fodlon ei dderbyn.  Bydd rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach i ddarparu gwasanaethau o safon, cyflawni ein hamcanion, sicrhau gwerth am arian, ac ymateb i broffil risg sy'n newid.



**Cynghorydd ~~Llinos Medi~~Gary Pritchard**
**Arweinydd y Cyngor**



**Dylan Williams**
**Prif Weithredwr**

# Cynnwys


Rhagair ..... 3

1 Cyflwyniad ..... 5

1.1 Amcanion y polisi a strategaeth rheoli risg ..... 5

1.2 Diffiniad o risg a rheoli risg ..... 5

1.3 Rhesymau dros reoli risg ..... 6

2 Datganiad Polisi Rheoli Risg ..... 7

3 Strategaeth Rheoli Risg ..... 8

3.1 Gytuno ar barodrwydd y cyngor i dderbyn risg ac aeddfedrwydd risg ..... 8

3.2 Datblygu diwylliant sy’n ymwybodol o risg ..... 8

3.3 Diffinio rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu yn glir ..... 9

3.4 Darparu proses rheoli risg ..... 10

3.5 Monitro perfformiad rheoli risg ..... 11

4 Y Parodrwydd i Dderbyn Risg ac Aeddfedrwydd ..... 12

4.1 Y parodrwydd i dderbyn risg ..... 12

4.2 Aeddfedrwydd risg ..... 14

5 Rolau a Chyfrifoldebau ..... 15

6 Adolygiad ..... 18

# 1 Cyflwyniad

Mae'r polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau atodol yn amlinellu egwyddorion a dull Cyngor Sir Ynys Môn o reoli risg.

Y nod yw darparu proses gyson sy'n sail i'r gwaith o reoli risg ledled y cyngor, sy'n adlewyrchu lefel a natur ein gwahanol swyddogaethau, a defnyddio ein sgiliau a'n gallu i'r eithaf.

Mae'r dogfennau hyn yn berthnasol i holl weithwyr ac aelodau'r cyngor. Dylid annog unrhyw sefydliadau partner i groesawu'r egwyddorion sydd yn y dogfennau.

## 1.1 Amcanion y polisi a strategaeth rheoli risg

Amcanion y ddogfen hon yw:

- Datblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg sy'n treiddio drwy weithgareddau'r cyngor.
- Ei fod yn arwain at broses fwy cyson a gwybodus o wneud penderfyniadau ar bob lefel, gan wella atebolrwydd a thryloywder.
- Galluogi i'r cyngor ragweld ac ymateb i newid a rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd a allai effeithio ar ei amcanion fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau prosiect.
- Sicrhau bod gan weithwyr ac aelodau etholedig y wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau i ddeall yr angen i reoli risg, a manteision hynny, a chymryd cyfrifoldeb am reoli risg o fewn eu maes.
- Bod y cyngor yn sefydliad sy'n ymdrin â rheoli risg mewn dull mwy aeddfed sy'n monitro cynnydd yn erbyn targedau, yn dysgu, ac yn addasu pan nad yw pethau'n mynd i'r cynllun.

## 1.2 Diffiniad o risg a rheoli risg

Mae **risg** yn cael ei ddiffinio fel "effaith ansicrwydd ar amcanion." [1] Hynny yw, y posibilrwydd y gall digwyddiad godi neu beidio â chodi a'i fod yn effeithio ar gyflawni amcan. Gall yr effaith fod yn negyddol neu'n gadarnhaol.

Ni ddylid camgymryd neu gymysgu rhwng risg a mater sy'n ddigwyddiad neu'n sefyllfa sydd eisoes yn bodoli.

**Diffinnir rheoli risg** fel "gweithgareddau cydgysylltiedig i gyfarwyddo a rheoli sefydliad o ran risg"[2]. Hynny yw, y broses o fynd i'r afael yn drefnus â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gyda'r nod o sicrhau budd parhaus o fewn pob gweithgaredd ac ar draws yr holl weithgareddau.

[1] ISO 31000 2018
[2] ISO 31000 2018

## 1.3 Rhesymau dros reoli risg


Mae sawl rheswm dros reoli risgiau gan gynnwys:

- Mae'n cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant, ac yn lleihau'r tebygolrwydd o fethiant a'r ansicrwydd o ran cyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad.
- Mae'n gwella'r broses o wneud penderfyniadau, cynllunio a blaenoriaethu drwy ddarparu fframwaith sy'n fodd i weithgarwch yn y dyfodol gael ei gynnal mewn modd cyson a dan reolaeth.
- Gall helpu rheolwyr i ddangos trefniadau llywodraethu da, ac mae'n arwain at well dealltwriaeth o'r proffil risg ac yn lliniaru risg.
- Gall yrru'r gwaith o gyflawni amcanion yn effeithiol a defnyddio / dyrannu adnoddau'n effeithlon drwy ganolbwyntio sylw uwch reolwyr ac aelodau etholedig ar y risgiau a'r cyfleoedd posibl i hybu llwyddiant.
- Mae rheoleiddwyr a phartneriaid yn gofyn fwyfwy am dystiolaeth o arferion rheoli risg da, ac mae hyn hefyd yn ofynnol i lawer o gytundebau dan gontract.
- Yn allanol gall helpu i wella cefnogaeth wleidyddol a chymunedol a diogelu a gwella enw da.  Fodd bynnag, gall methu â nodi, asesu a rheoli risgiau arwain at wariant sylweddol heb ei gyllidebu a niwed i enw da.

# 2 Datganiad Polisi Rheoli Risg

Mae'r cygor yn sefydliad amrywiol sydd wedi ymrwymo i gyflawni ei nodau a'i amcanion fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau prosiect. Mae risg yn rhan na ellir ei osgoi o gyflawni'r cynlluniau hyn, ac mae yna beryglon eraill sydd y tu allan i gynlluniau o'r fath a allai effeithio ar allu'r cyngor i ddarparu gwasanaethau o safon i drigolion Môn a'r rhai sy'n ymweld ac yn gweithio ar yr ynys. Mae'r cyngor yn cydnabod fod risg yn gallu bod yn fygythiad ai fod yn gallu cynnig cyfleoedd.

Polisi'r cyngor yw mabwysiadu dull rhagweithiol a chyson o reoli ei risgiau o fewn parodrwydd cydnabyddedig i dderbyn risg. Mae'r dull rhagweithiol a chyson hwn o nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau allweddol yn rhan annatod o'n prosesau rheoli ar lefelau strategol a gweithredol, ac yn sicrhau diwylliant o gymryd risg ar sail gwybodaeth. Bydd gwreiddio trefniadau rheoli risg drwy'r holl brosesau, prosiectau a phenderfyniadau strategol yn rhoi'r cyngor mewn sefyllfa gryfach i ddarparu gwasanaethau o safon, cyflawni amcanion, sicrhau gwerth am arian, ac ymateb i broffil risg sy'n newid.






# 3 Strategaeth Rheoli Risg

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut rydym yn anelu at gyflawni'r polisi rheoli risg, a phwy sy'n gyfrifol am reoli risgiau.  Caiff hyn ei gyflawni drwy:

## 3.1 Gytuno ar barodrwydd y cyngor i dderbyn risg ac aeddfedrwydd risg

Parodrwydd i dderbyn risg yw'r lefel a'r math o risg y mae'r cyngor yn anelu at ei dderbyn. Trwy gytuno ar ei barodrwydd i dderbyn risg, mae'r cyngor yn gosod ffiniau iddo'i hun o ran lefel y risg sy'n dderbyniol a pha risgiau y mae'n ceisio eu rheoli os yw am wireddu ei amcanion.

Aeddfedrwydd risg yw lefel, dealltwriaeth ac effeithiolrwydd rheolaeth y cyngor o risg.  O bryd i'w gilydd gofynnir i barti annibynnol gynnig sicrwydd am aeddfedrwydd risg y cyngor a'r farn p'un ai a yw'r prosesau rheoli risg yn addas i'r diben, a nodir meysydd lle mae angen gwella ymhellach.

Mae'r Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno ar barodrwydd y cyngor i dderbyn risg ac mae hyn wedi'i amlinellu a'i esbonio'n fanylach yn Adran 4 y ddogfen.

Bydd y Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu y parodrwydd i dderbyn risg o leiaf unwaith yn ystod pob gweinyddiaeth.

## 3.2 Datblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg

Mae diwylliant risg yn cyfeirio at werthoedd, agweddau a dealltwriaeth staff ac aelodau'r cyngor mewn perthynas â'r risgiau y mae'r cyngor yn eu hwynebu.  Pan fydd sefydliad yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gan wybod yn llawn beth yw'r risgiau dan sylw, disgrifir y diwylliant risg fel un **sy'n ymwybodol o risg**.

Er mwyn datblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg, bydd angen i staff ac aelodau ddeall yn well y risgiau sy'n berthnasol i'w maes gwaith a sut i werthuso risgiau.  Mae integreiddio, hyfforddiant, a chyfathrebu i gyd yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddiwylliant risg.

Mae pawb yn rheoli risg ac yn manteisio ar gyfleoedd i ryw raddau yn eu rôl o ddydd i ddydd. Trwy integreiddio rheoli risg i'n prosesau a'n gweithgareddau, ein nod yw bod staff ac aelodau yn deall, gwerthfawrogi a chyflawni mesurau rheoli risg, gan arwain at ddod yn sefydliad sy'n ymwybodol o risg.

Bydd hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i aelodau, rheolwyr ar bob lefel, a'r rhai sydd â rolau rheoli risg penodol.  Ein criw o hyfforddeion yw rheolwyr ac uwch arweinwyr posibl y dyfodol.  Felly, mae'n bwysig datblygu eu dealltwriaeth o reoli risg trwy roi sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth briodol iddynt.


Drwy gyfathrebu'r polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau atodol i staff ac aelodau bydd pwysigrwydd egwyddorion rheoli risg effeithiol yn ein gweithgareddau bob dydd yn cael eu hamlygu.  Bydd y dogfennau felly ar gael ar fewnrwyd y cyngor (MonITor) ~~a'u cynnwys fel polisi y mae'n ofynnol i rai staff sydd â chyfrifoldebau rheoli ac Aelodau ei dderbyn drwy'r Porth Polisi~~.

## 3.3 Diffinio rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu yn glir

Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u cynnwys yn Adran 5 o'r ddogfen hon.

Mae cydlynydd risg yn rôl newydd a gofynnir i bob gwasanaeth ddynodi swyddog a dirprwy priodol i ymgymryd â rôl eu cydlynydd risg fel rhan o'u dyletswyddau. Dylai hyn sicrhau bod pwysigrwydd rheoli risg yn cael ei ddeall a'i wreiddio ar draws y gwasanaeth.

Ein nod yw gwella'r trefniadau llywodraethu ynghylch rheoli risg trwy annog cyfeiriad at risgiau ym mhob adroddiad sy'n gofyn am benderfyniad, a sicrhau bod cofrestri risg yn cael eu hystyried fel mater o drefn ar y lefel briodol. Er enghraifft, mae'r siart hwn yn dangos y berthynas rhwng cofrestri risg strategol a gwasanaeth ac yn esbonio pwy sy'n berchen ar y risgiau a phwy sydd angen sicrwydd o'r risgiau.





Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith Annffurfiol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn.

Caiff risgiau eu hadolygu a'u trafod yn rheolaidd ar lefel gorfforaethol / strategol, a chaiff risgiau allweddol eu huwchgyfeirio gan wasanaethau.

## 3.4 Darparu proses rheoli risg

Mae proses rheoli risg generig yn cynnig dull cyson o reoli risg drwy’r sefydliad. Mae'r canllawiau rheoli risg sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon yn nodi'r broses rheoli risg fanwl ac fe’i crynhoir yn y diagram canlynol.




Mae canfyddiadau pob cam o'r broses rheoli risg yn cael eu cofnodi yn y gofrestr risg. Mae'r cyngor yn cadw cofrestr risg strategol, cofrestri risg gwasanaethau, cofrestri risg project a rhaglenni, a chofrestri risg penodol ar gyfer gweithgareddau eraill yn ôl y gofyn.

Mae asesu tebygolrwydd ac effaith pob risg a'u plotio ar fatrics risg yn rhoi sgôr risg i bob risg ac mae’n fodd i risgiau gael eu cymharu a'u blaenoriaethu. Asesir pob risg ar sail cynhenid (senario waethaf), gweddilliol (sefyllfa bresennol), a tharged (sefyllfa a ddymunir). Datblygwyd matricsau risg ar wahân ar gyfer risgiau strategol, gwasanaeth, a phrosiect, ac ar gyfer cyfleoedd, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y canllawiau atodol.

## 3.5 Monitro perfformiad rheoli risg

Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) i fonitro cynnydd a chyflawniadau'r strategaeth rheoli risg. Mae'r DPA yn cynnwys:

- risgiau a chofrestri risg a adolygwyd ar lefelau strategol a gwasanaeth
- sicrwydd a ddarparwyd yn ymwneud ag effeithiolrwydd rheolaethau
- staff ac aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant
- ~~staff ac aelodau sydd wedi derbyn y polisi ar y Porth Polisi~~

Y Tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg sy'n gyfrifol am gyfrifo'r DPA hyn a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad Risg blynyddol a adroddir i'r Tîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith.

Mae dangosyddion risg allweddol (DRA) yn rhoi arwydd cynnar o newid yn yr amlygiad i risg, a dangosyddion rheoli allweddol (DRhA) yn rhoi arwydd cynnar o reolaethau aneffeithiol neu lai effeithiol, gan ddarparu cyfle cynnar i adolygu'r risgiau a lle bo angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol. Felly, lle bo'n briodol ac yn berthnasol, bydd DRA a DRha yn cael eu datblygu ar y cyd â'r cydlynwyr risg a'r tîm perfformio.

# 4 Y Parodrwydd i Dderbyn Risg ac Aeddfedrwydd

## 4.1 Y parodrwydd i dderbyn risg

### 4.1.1 Diffiniad

Diffinnir parodrwydd i dderbyn risg fel "Lefel a math o risg y mae sefydliad yn barod i'w geisio, derbyn neu oddef"[3] neu lefel y risg y mae'r cyngor **yn anelu** at weithredu o'i fewn.

Ni ddylid camgymryd hyn neu ddrysu rhwng hyn â goddefiant risg, sef y lefel risg eithaf y bydd y cyngor yn gweithredu o'i fewn.

Diffinnir isod lefelau parodrwydd i dderbyn risg:

| Parodrwydd i dderbyn risg | Disgrifiad | Parodrwydd i dderbyn risg yn uchel |
|---|---|---|
| Awyddus | Awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig buddion a allai fod yn uwch er gwaethaf mwy o risg | |
| Agored | Yn barod i ystyried yr holl opsiynau cyflawni posibl a dewis yr un sydd fwyaf tebygol o arwain at gyflawni'n llwyddiannus gan hefyd sicrhau lefel dderbyniol o fudd, gwerth am arian, a risg gymedrol / uchel. | |
| Gofalus | Ffafrio opsiynau cyflawni diogel sydd â lefel risg isel ac a allai fod â photensial cyfyngedig yn unig o ran budd. | |
| Ychydig iawn | Ffafrio opsiynau cyflawni busnes diogel iawn sydd â lefel risg isel a photensial am fudd cyfyngedig yn unig. | |
| Osgoi | Osgoi risg ac ansicrwydd yn un o brif amcanion y sefydliad. | Parodrwydd i dderbyn risg yn isel |

Dylai lefel is o barodrwydd am risg gael ei adlewyrchu gan ffocws rheoli risg uwch.

[3] ISO 31000 2018

### 4.1.2 Datganiad parodrwydd i dderbyn risg

Mae'r tabl canlynol yn mynegi parodrwydd y cyngor i dderbyn risg ar gyfer pob categori risg, fel y cytunwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth.

| Categori Risg | Parodrwydd i dderbyn risg |
|---|---|
| Amcanion | Awyddus |
| Darparu Gwasanaethau | Agored |
| Ariannol | Gofalus |
| Enw da | Agored |
| Pobl (I&D / diogelu) | Ychydig iawn |
| Rheoleiddio | Gofalus |
| Amgylcheddol | Agored |

### 4.1.3 Pam fod parodrwydd i dderbyn risg yn bwysig?

Drwy ddiffinio ei barodrwydd i dderbyn risg, mae'r cyngor yn gosod ffiniau iddo'i hun o ran faint o risg sy'n dderbyniol a pha risgiau y mae'n ceisio eu rheoli os yw am wireddu ei amcanion.

Rhai o fanteision mabwysiadu parodrwydd i dderbyn risg:

- Mae’n arwain at wneud penderfyniadau sy’n seiliedig ar wybodaeth
- Lleihau ansicrwydd
- Gwella cysondeb ar draws dulliau llywodraethu a phenderfyniadau
- Helpu i wella perfformiad
- Canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth
- Yn llywio'r adolygiad gwariant a phrosesau blaenoriaethu adnoddau

## 4.2 Aeddfedrwydd risg

Aeddfedrwydd risg yw lefel, dealltwriaeth ac effeithiolrwydd trefniadau sefydliad i reoli risg.

Mae sefydlu Model Aeddfedrwydd Risg yn agwedd allweddol ar fonitro ac adrodd cynnydd, yn rhoi sicrwydd bod prosesau rheoli risg yn addas i'r diben, ac yn nodi meysydd lle mae angen gwella ymhellach. Mae lefel yr aeddfedrwydd yr anelir ati yn gydbwysedd o'r adnoddau sydd ar gael a'r parodrwydd i dderbyn risg.

Model aeddfedrwydd risg y cyngor:

| | | Lefel Aeddfedrwydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Anaeddfed** | **Cyflawnir** | **Rheolir** | **Rhagweladwy** | **Aeddfed** |
| **Paramedrau Gweithredu** | Defnyddio Safonau, adnoddau a thechnegau | Ddim yn defnyddio | Ymwybodol ond dim defnydd ffurfiol ohonynt | Yn defnyddio | Defnydd rheolaidd, canlyniadau cyson | Dealltwriaeth gadarn, defnydd da o adnoddau |
| | Gwybodaeth am y ddisgyblaeth rheoli risg | Ychydig o wybodaeth | Ymwybodol ond ansicr o'r budd | Dealltwriaeth ar draws rhai rhannau o'r sefydliad | Gwybodaeth gadarn am ddisgyblaeth a gwerth | Lefel uchel o ymwybyddiaeth a gwybodaeth |
| | Gweithgareddau rheoli risg wedi'u cynnal | Dim | Rhai ad-hoc, dim digon o adnoddau | Fframwaith ar gael ac yn cael ei ddefnyddio pan fydd amser yn caniatáu | Rhaglen ffurfiol | Wedi'u gwreiddio wrth wneud penderfyniadau |
| | Ymwybyddiaeth o fudd a gwerth rheoli risg | Ansicr o'r budd | Ymwybodol ond ansicr o'r budd | Ymwybodol o rai buddion | Ymwybodol o fuddion ac fe'u defnyddir ar draws y sefydliad | Wedi'u hymgorffori wrth gynllunio busnes a meddwl strategol |

Cafodd lefel aeddfedrwydd risg y cyngor ei asesu'n annibynnol ddiwethaf ym mis ~~Tachwedd 2018~~ Ionawr 2024 gan Zurich Risk Solutions, a phenderfynwyd ei fod yn Lefel 3 'Rheolir', gan ddefnyddio model aeddfedrwydd risg tebyg, hefyd yn cynnwys pum lefel o aeddfedrwydd.

# 5 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau yn unol â lefel y risg wedi'u hamlinellu isod:

| Lefel y Risg | Adnabod Risg / Cynnwys | Asesiad / Sicrwydd |
|---|---|---|
| Strategol | **Tîm Arweinyddiaeth:**<br>Dylai risgiau strategol gael eu adnabod gan y Tîm Arweinyddiaeth a dylai cynnwys y gofrestr risg gael ei hunanasesu trwy sgan gorwelion rheolaidd a thrafodaethau adnabod penodol.<br><br>**Y Pwyllgor Gwaith:**<br>Dylai'r Pwyllgor Gwaith sicrhau bod y risgiau'n adlewyrchu sefyllfa bresennol y sefydliad, sicrhau bod unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a'u dal, a sicrhau bod rhwystrau i gyflawni nodau strategol y sefydliad yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys y gofrestr risg. Dylai'r Pwyllgor Gwaith nid yn unig fod yn fodlon bod bygythiadau a chyfleoedd â blaenoriaeth yn cael eu dal ond hefyd yn rhan o sgwrs ddwyffordd wrth herio ac adolygu risg. | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**<br>Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl i'w chwarae hefyd wrth sicrhau bod bygythiadau a chyfleoedd strategol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Er y gallai'r pwyllgor wneud sylwadau ar gynnwys y gofrestr risg, eu rôl yw sicrhau bod y fframwaith yn ddigon cadarn i reoli risg yn effeithiol. Gall eu hasesiad gynnwys effeithiolrwydd rheolaeth, monitro sgoriau risg dros amser ac adolygu unrhyw waith archwilio cysylltiedig mewn perthynas â'r risgiau strategol. |
| Gwasanaeth | **Gwasanaethau**<br>Dylai fod gan bob gwasanaeth gofrestr risg benodol sy'n gysylltiedig â thargedau a chynlluniau gwasanaeth.<br><br>Gall prosiectau arbenigol penodol gael gofrestrau risg ar wahân neu gael eu cynnwys fel rhan o gofrestr risg y gwasanaeth.<br><br>**Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth**<br>Dylai'r Pennaeth Gwasanaeth a Cyfarwyddwr perthnasol gael gorolwg risgiau sy'n benodol i'w maes gwasanaeth yn rheolaidd. | **Pwyllgor Craffu**<br>Pan yn berthnasol, gall y Pwyllgor Craffu, adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth penodol. |
| Prosiect | **Rheolwyr Prosiect**<br>Gall prosiectau mwy gael cofrestrau risg ar wahân sy'n gysylltiedig â'r targedau a chynlluniau prosiect.<br><br>**Byrddau Prosiect**<br>Dylai'r bwrdd prosiect perthnasol gael gorolwg o'r risgiau prosiect yn rheolaidd. | **Pwyllgor Craffu**<br>Pan yn berthnasol, gall y Pwyllgor Craffu, adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect penodol. |

Yn ogystal, mae rolau a chyfrifoldebau penodol yn gorwedd gyda'r grwpiau neu'r unigolion penodol canlynol:

| | Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Aelodau | **Y Pwyllgor Gwaith** | • Sicrhau bod risg yn cael ei hystyried wrth gytuno ar y cyfeiriad y mae'r cyngor yn mynd iddo.<br>• Cytuno ar gyflawni'r polisi a'r strategaeth rheoli risg.<br>• Pob Aelod Gweithredol i oruchwylio risgiau'n ymwneud â'u portffolio. |
| | **Aelodau Etholedig** | • Ystyried risg yn rhan annatod o gynllunio strategol a gwneud penderfyniadau. |
| | **Tîm Arweinyddiaeth** | • Arweinyddiaeth gyffredinol ar gyfer rheoli risg yn effeithiol gan gynnwys y gofrestr risg strategol, polisi a strategaeth rheoli risg.<br>• Gosod y cywair o'r brig a hyrwyddo manteision rheoli risg.<br>• Sicrhau bod pob risg yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol<br>• Sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r holl ofynion llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.<br>• Rhoi gwybod am gynnydd a newid mewn perthynas â rheoli risg i aelodau. |
| | **Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth ac eu timau rheoli** | • Sicrhau bod trefniadau rheoli risg effeithiol yn eu gwasanaeth yn unol â'r polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau cysylltiedig<br>• Nodi risgiau trawsbynciol sy'n effeithio ar gyflawni amcanion y gwasanaeth.<br>• Sicrhau bod cofrestri risg a chamau'r gwasanaeth yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth ac Aelod Gweithredol perthnasol.<br>• Sicrhau bod adroddiadau allweddol am benderfyniadau yn cynnwys risg gytbwys sydd wedi'i hystyried.<br>• Sicrhau bod goblygiadau risg yr holl gynigion newid busnes newydd yn cael eu hystyried yn foddhaol.<br>• Lle mae gwasanaethau allweddol i'w darparu drwy drefniant partneriaeth, bod llinellau clir o berchnogaeth risg ac atebolrwydd yn cael eu sefydlu. |

| | Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Swyddogaeth Risg | **Tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg** | • Gweithredu fel cynghorydd corfforaethol ar gyfer risg a chydlynu mentrau risg strategol~~, gan sicrhau bod rheoli risg wedi'i integreiddio o fewn yr holl strategaethau a gweithdrefnau corfforaethol~~.<br>• Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ymwybyddiaeth risg, gan ddangos y gallu i wella canlyniadau.<br>• Sicrhau bod rheoli risg yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau arloesol a heriol.<br>• Darparu cyngor a chefnogaeth gorfforaethol ar sail gwasanaeth i sicrhau bod rheolaeth risg briodol yn cael ei chynnwys ym mhob penderfyniad ac adroddiadau eraill gan aelodau.<br>• Sicrhau y cynllunnir ac y gweithredir yn systematig bolisïau, gweithdrefnau ac ymarferion ar gyfer nodi, asesu, ymdrin, monitro ac adrodd ynghylch risg.<br>• Datblygu'r polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau atodol a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.<br>~~• Cefnogi'r Tîm Arweinyddiaeth i gadw'r gofrestr risg strategol a nodi risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.~~<br>• Cyfrannu at gywirdeb a dilysrwydd cofrestri risg o ran effeithiolrwydd camau lliniaru.<br>• Annog partneriaid allanol y cyngor i fabwysiadu dull effeithiol a thryloyw o reoli risg yn rhagweithiol.<br>• Cynllunio gwaith archwilio i ystyried risgiau allweddol, a pha mor effeithiol y cânt eu rheoli gan ddarparu sicrwydd i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y gofrestr risg strategol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br>• Sicrhau adolygiad annibynnol rheolaidd o'r dull corfforaethol o reoli risg a chydymffurfio ag ef. |
| | **Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth)** | • Sicrhau bod rheoli risg wedi'i integreiddio o fewn yr holl strategaethau a gweithdrefnau corfforaethol.<br>• Cefnogi'r Tîm Arweinyddiaeth i gadw'r gofrestr risg strategol a nodi risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.<br>• Darparu cymorth i wasanaethau i gynnal cofrestrau risg gwasanaeth |
| | **Perchnogion Risg** | • Rheoli pob agwedd ar risgiau a bennir iddynt<br>• Cael adnoddau neu gefnogaeth ychwanegol yn ôl y galw i reoli a monitro risgiau a bennir iddynt<br>• Sicrhau bod risgiau a bennir iddynt yn cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn cofrestri risg<br>• Penderfynu ar unrhyw gamau sydd eu hangen i liniaru risgiau, sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol, a sicrhau bod y sgôr risg yn adlewyrchu effeithiau'r camau hyn. |
| | **Cydlynwyr Risg** | • Sicrhau bod y polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau atodol yn cael eu hyrwyddo ac y cedwir atynt yn gyson ar draws y gwasanaeth<br>• Sicrhau bod cofrestri risg yn cael eu datblygu, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol, ac adrannau / timau unigol yn ôl y galw |

| | Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| | | • Rhoi gwybod am gofrestr risg y gwasanaeth i'r tîm rheoli gwasanaethau yn rheolaidd, ac o leiaf unwaith bob chwarter<br>• Sicrhau bod y gofrestr risg gwasanaeth yn cael ei hadrodd yn rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth ac yn rhan o broses her y gwasanaeth<br>• Bod trefniadau ar waith i ddarparu hyfforddiant, gwybodaeth, arweiniad ar reoli risg i'r holl staff perthnasol |
| Pawb | **Pob aelod o staff** | • Datblygu dealltwriaeth ac ymgyfarwyddo â'r polisi a'r strategaeth rheoli risg, a'r canllawiau atodol a mynychu hyfforddiant rheoli risg yn ôl y galw.<br>• Bod yn ymwybodol o beryglon a chymryd camau i reoli risg fel rhan o'u rôl.<br>• Rhoi gwybod am risgiau ac unrhyw reolaethau aneffeithiol i reolwyr. Mae hyn yn cynnwys adrodd ynghylch damweiniau a rhai fu bron â digwydd |

# 6 Adolygiad

Bydd y ddogfen hon yn cael ei adolygu pob tair blynedd neu'n amlach yn ôl yr angen.

# Canllawiau Rheoli Risg



# Fersiwn 1.1~~0~~
# (~~Mai~~ Rhagfyr 2025~~3~~)

**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Mai 2023 | |
| 1.1 | Rhagfyr 2025 | Newidiadau i ddeiliad y swydd a manylion cyswllt |

~~**Manylion cyswllt:** **Julie Jones (juliejones@ynysmon.llyw.cymru)**~~

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 3
2. Proses Rheoli Risg ..... 4
   2.1. Sefydlu'r Cyd-destun ..... 5
   2.2. Asesu Risg ..... 5
   2.3. Ymdrin â Risg ..... 10
   2.4. Cofnodi, Monitro ac Adrodd ynghylch Risg ..... 11
3. Cyfle i Reoli Risg ..... 15
4. Atodiadau ..... 17
   4.1. Terminoleg ..... 17
   4.2. Risgiau Gwasanaeth ..... 18
   4.3. Matricsau Risg ..... 19
   4.4. Canllaw 4risk ..... 21
   4.5. Dulliau i Nodi Risgiau ..... 21
5. Manylion Cyswllt ..... 23

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y broses rheoli risg a ddefnyddir ledled Cyngor Sir Ynys Môn, boed y rhain yn risgiau strategol, gwasanaeth, prosiect, neu'n risgiau eraill.

Y nod yw sicrhau diwylliant a dull cyson a rhagweithiol o reoli risgiau, gan gydnabod gwahaniaethau rhwng risgiau strategol, gwasanaeth, prosiect neu risgiau eraill a chyfrifoldeb cyfunol am reoli risgiau sy'n wynebu'r cyngor yn gyffredinol.

Ychydig o risgiau a chynlluniau gweithredu risg sy'n aros yn eu hunfan; mae risgiau'n newid, mae blaenoriaethau'n newid, mae camau gweithredu'n cael eu cwblhau, gall rheolaethau risg a oedd unwaith yn effeithiol ddod yn amherthnasol. Felly mae'n hanfodol monitro ac adrodd ynghylch â risgiau'n rheolaidd.


## 2. Proses Rheoli Risg

Mae'r broses rheoli risg yn barhaus. Mae'n cynnwys adnabod, blaenoriaethu ac ymdrin â risgiau. Argymhellir bod risg yn eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd y tîm rheoli, gweithgorau / fforymau, byrddau prosiect a rhaglenni.

Mae'n fwy effeithiol cynnwys nifer o unigolion yn y broses risg er mwyn osgoi safbwyntiau goddrychol a chanfyddiadau risg unigol a all arwain at gamgymryd risg oherwydd effaith ffactorau hewristig a rhagfarn. Yn aml caiff pobl eu dylanwadu gan ragfarn fel:

- Gorhyder – tuedd i orbwysleisio'r tebygolrwydd y bydd canlyniadau'n gadarnhaol
- Meddwl ar sail grŵp – tuedd i gydymffurfio â safbwyntiau'r grŵp
- Angori – tuedd i ddibynnu ar un darn o wybodaeth yn hytrach na chwilio am un arall
- Cadarnhad – tuedd i chwilio am wybodaeth sy'n cefnogi'r gred sy'n bodoli eisoes.

Mae'r diagram canlynol yn darlunio'r broses rheoli risg:



## 2.1. Sefydlu'r Cyd-destun

Y cam cyntaf yw sefydlu cyd-destun y risg. Mae hyn yn fframio'r risg o ran cwmpas, amcanion / cynlluniau busnes, parodrwydd i dderbyn risg, ac unrhyw ragdybiaethau a wneir.

**Strategol**

- Y cyd-destun ar gyfer risgiau strategol yw Cynllun y Cyngor

**Gwasanaeth**

- Y cyd-destun ar gyfer risgiau gwasanaeth yw eu cynllun darparu gwasanaeth, a nodau, amcanion a phwrpas y gwasanaeth neu uned fusnes.

**Prosiect a Rhaglen**

- Y cyd-destun ar gyfer risgiau prosiect a rhaglen yw eu cynllun prosiect.

**Partneriaethau**

- Mae partneriaeth a chydweithio yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r cyngor yn ceisio cyflawni ei uchelgeisiau. Mae'n ffordd bwysig o feithrin capasiti ac mae'n hanfodol i ddull y cyngor o gyflawni blaenoriaethau a rennir.
- Mae risgiau'n gysylltiedig ag unrhyw bartneriaeth sydd angen ei rheoli o'r cychwyn cyntaf. Mae bob partneriaeth angen diwylliant sy'n cefnogi trefniadau wedi'u hystyried yn drylwyr o ran cymryd risg ac arloesi drwy integreiddio rheoli risg o fewn y trefniadau llywodraethu a gweithredu prosesau risg a rheoli yn gyson drwy'r holl weithgareddau partneriaethau.
- Y cyd-destun ar gyfer partneriaethau yw cynllun busnes, telerau a threfniadau llywodraethu'r bartneriaeth

## 2.2. Asesu Risg

Wedi sefydlu'r cyd-destun, mae angen asesu'r risg. Mae asesiad risg yn cynnwys tri cham:

- nodi'r risg – sy'n cynnwys disgrifio'r risg, nodi achos ac effaith y risg a dyrannu perchennog risg,
- dadansoddi'r risg i bennu tebygolrwydd ac effaith y risg sy'n digwydd, a
- gwerthuso'r risg.

## Adnabod risg

Adnabod risg yw'r broses o benderfynu pa risgiau a allai atal y cyngor rhag cyflawni nodau ac amcanion. Mae hwn yn weithgaredd parhaus, gan mai anaml y bydd ffactorau mewnol ac allanol yn aros yn eu hunfan ac felly mae effaith a/neu debygolrwydd bod y risgiau'n digwydd yn newid yn rheolaidd.

Dylid adnabod risg mewn ffordd drefnus er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau o bwys wedi'u nodi a'r holl risgiau sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn wedi'u diffinio. Mae hyn yn gofyn am wybodaeth fanwl o'r maes / gweithgareddau sy'n cael eu hasesu a'r amgylchedd

cyfreithiol, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol ehangach y mae'n bodoli ynddo. Mae cynnal dadansoddiad SWOT neu ddadansoddiad 'tei bo' neu gynnal gweithdai neu sesiynau gwyntyllu syniadau yn arbennig o ddefnyddiol wrth nodi risgiau ar gyfer maes neu weithgaredd newydd. Argymhellir sganio'r gorwel yn rheolaidd i nodi risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

**Gwasanaeth**


- Dylai ganolbwyntio ar nodau ac amcanion y gwasanaeth fel y nodir yn eu cynllun darparu gwasanaethau a'u risgiau i'r modd y gweithredir y gwasanaeth o ddydd i ddydd.
- Mae risgiau wrth ymgysylltu â chontractwyr. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i ddarparu gwasanaeth os yw'r contractwr yn methu â gwneud hynny neu'n methu â darparu'r nwyddau sy'n ofynnol i'r cyngor ddarparu gwasanaeth. Dylai risgiau o'r fath gael eu cofnodi yng nghofrestr risg y Gwasanaeth perthnasol.
- Mae rhestr o risgiau y dylid eu hystyried wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.2

**Prosiect a Rhaglen**

- Dylid ganolbwyntio ar y risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion y prosiect / rhaglen, yr amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect / rhaglen, ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect / rhaglen.
- Mae angen dull deublyg o reoli risg ar gyfer partneriaethau, sef:
    - **O'r Tu Allan yn Edrych i Mewn** - y risgiau i'r cyngor wrth gymryd rhan neu fod yn rhan o'r bartneriaeth. ***Dylid cynnwys y risgiau hyn yn y gofrestr risg gwasanaeth berthnasol***. Enghreifftiau:
        - Bod y gost i'r cyngor o fod yn rhan o'r bartneriaeth yn uwch na chost darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol.
        - Nad yw'r bartneriaeth yn darparu anghenion y cyngor na'i thrigolion.
        - Bod yr adnoddau o ran amser staff sy'n ofynnol gan y bartneriaeth yn drech na'r buddion.
    - **O'r Tu Mewn Allan** - y risgiau i'r bartneriaeth gyflawni ei hamcanion.
- Dylai pob partneriaeth o bwys ddatblygu eu cofrestr risg eu hunain sy'n berthnasol i amcanion a chynllun y bartneriaeth. Dylid datblygu hyn ar y cyd â'r holl bartneriaid. Enghreifftiau:
    - Gwahaniaethau sylfaenol mewn agendâu gwleidyddol neu bartneriaid yn gweithredu o dan drefniadau llywodraethu gwahanol.
    - Bod strategaeth a'r amcanion ar draws y bartneriaeth ddim yn cyd-fynd.
    - Diffyg sgiliau perthnasol ar draws y bartneriaeth i gyflawni'r amcanion
    - Cyfathrebu gwael neu beidio â derbyn rolau a chyfrifoldebau pob partner.

## Disgrifio Risg

Unwaith y bydd risg wedi'i adnabod, rhaid ei ddisgrifio er mwyn ei deall yn glir.  Mae tair elfen hanfodol i'r disgrifiad:




Er mwyn cadw'r disgrifiad mor fyr â phosibl, mae'n ddefnyddiol nodi'r achosion a'r effeithiau ar wahân.  Mae'r dull hwn hefyd yn ddefnyddiol o ran cyfyngu ar nifer y risgiau lle mae sawl achos ac effaith yn gysylltiedig ag un risg.  Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â bod yn rhy annelwig gan y bydd amwysedd yn gwneud y gwaith o ddadansoddi a gwerthuso'r risg yn anodd.  Er enghraifft, gallai diffinio risg fel "Staffio" gael ei ddehongli fel sawl risg gwahanol, tra bod "y risg na ellir cadw gweithwyr allweddol" yn gliriach.

## Achos ac Effaith

Mae adnabod beth allai achosi i'r digwyddiad risg ddigwydd ac effaith y digwyddiad risg yn helpu i ddewis dulliau posibl i ymdrin â risg.   Mae dulliau rhagweithiol neu ataliol yn cael gwared ar yr achos neu'n lleihau'r achos ac felly'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd y digwyddiad risg yn digwydd.  Mae mesurau ymatebol i ymdrin â risg yn dylanwadu ar yr effaith ac felly'n lleihau effaith y digwyddiad risg pe bai'n digwydd.  Lle mae sawl achos neu effaith posibl, dylai pob un ohonynt gael eu rhestru.  Enghraifft:

- Risg: methu â chadw gweithwyr allweddol.
- Achos: tâl anghystadleuol, amodau gwaith, lefelau uchel o absenoldeb neu swyddi gwag.
- Effaith: amharu ar wasanaethau, cynnydd mewn costau staffio dros dro, pwysau cynyddol ar y tîm recriwtio.

## Perchennog Risg

Mae'n rhaid i bob risg gael perchennog sy'n gyfrifol am y maes risg ac sydd ar lefel ddigon uchel i fynnu bod camau'n cael eu cwblhau.

**Strategol**

- aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth

**Gwasanaeth**

- Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaeth neu aelod o'r Tîm Rheoli Gwasanaethau.

**Prosiect a Rhaglen**

- noddwr prosiect neu Uwch Swyddog Cyfrifol (USC)

## Dadansoddi Risg

Y cam nesaf yw dadansoddi'r risg drwy ystyried y **tebygolrwydd** y bydd y risg yn digwydd a'r **effaith** ar y sefydliad pe bai'r risg honno'n digwydd .




Gall dadansoddi risg fod yn feintiol, lled-feintiol neu ansoddol o ran y tebygolrwydd y bydd yn digwydd a'r effaith bosibl.  Mae darparu disgrifwyr o gymorth i ddadansoddi’r risg ac yn sicrhau bod y broses yn gyson.

Mae plotio'r **sgôr risg** ar gyfer pob risg ar **fatrics risg** yn golygu bod modd cymharu a blaenoriaethu risgiau.

Datblygwyd matricsau risg ar wahân ar gyfer risgiau strategol, gwasanaeth, prosiect, ac ar gyfer cyfleoedd, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.3. Dylai pob partneriaeth ddatblygu a chytuno ar feini prawf asesu risg yn seiliedig ar baramedrau'r bartneriaeth. Er enghraifft, dylai'r raddfa tebygolrwydd adlewyrchu amserlen y bartneriaeth.


Nodwch, os yw risg yn ddigon sylweddol i'w hystyried ar lefel wahanol, mae angen ail-werthuso'r risg yn erbyn y matrics risg perthnasol.  Er enghraifft, os am ystyried risg gwasanaeth fel risg strategol mae'n rhaid ei hail-werthuso gan ddefnyddio'r matrics risg strategol.

Ar gyfer pob matrics, mae'r tebygolrwydd a'r effaith yn cael eu mesur yn rhifiadol - 1 yw’r lleiaf tebygol a'r effaith leiaf.   Er enghraifft, bydd risg strategol a ystyrir sy’n cael effaith Sylweddol os yw'n digwydd a bron yn sicr o ddigwydd yn cael sgôr risg o 25.

Mae'r lliw sy'n gysylltiedig â'r sgôr risg yn dangos **lefel y risg**, mae'r ymatebion cyffredinol i bob lefel risg wedi'i nodi yn y tabl canlynol.

| Lefel y Risg | Ymateb |
|---|---|
| Critigol | • Risgiau blaenoriaeth<br>• Uwchgyfeirio a monitro'n weithredol<br>• Neilltuo adnoddau i liniaru |
| Mawr | • Uwchgyfeirio a monitro’n rheolaidd<br>• Yn debygol o fod angen mesurau lliniaru |
| Cymedrol | • Monitro'r risg o leiaf ddwywaith y flwyddyn<br>• Lliniaru os yw’n amlwg ac yn gost-effeithiol |
| Isel | • Derbyn ond parhau i fonitro o leiaf yn flynyddol<br>• Lliniaru os yw’n amlwg ac yn gost-effeithiol |

### Risg Gynhenid




Mae pob risg yn cael ei ddadansoddi i ddechrau ar sail gynhenid. Dyma lefel y risg cyn i fesurau i ymdrin â hi a'r rheolaethau presennol gael eu hystyried, neu mewn geiriau eraill, **y senario waethaf.**

### Rheolaethau Risg

Dyma'r dulliau sydd eisoes ar waith i leihau'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, neu leihau effaith y risg pe bai'n digwydd. Mae'n anghyffredin y bydd un rheolaeth risg yn dylanwadu ar yr effaith a'r tebygolrwydd. Gall dulliau ymdrin â risg fod ar ffurf gweithdrefnau, cynlluniau wrth gefn, hyfforddiant ac ati.

### Risg Weddilliol

Rhaid hefyd dadansoddi pob risg ar sail risg weddilliol. Dyma'r lefel sy'n weddill o'r risg ar ôl i unrhyw reolaethau risg presennol gael eu hystyried neu mewn geiriau eraill, **y lefel bresennol o risg**. Rhaid gwneud y dadansoddiad hwn gan ddefnyddio'r un matrics risg a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi'r risg gynhenid.

### Effeithiolrwydd Rheoli Risg a Llinellau Sicrwydd

Mae'r risg weddilliol yn tybio bod yr holl reolaethau a nodwyd yn effeithiol. Fodd bynnag, os yw rheolaeth yn methu neu'n aneffeithiol, bydd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd neu'r effaith pe bai'r risg yn digwydd, ac yn effeithio ar y penderfyniad a oes angen triniaeth ychwanegol. Felly mae angen asesu effeithiolrwydd pob rheolaeth.

Mae **llinellau sicrwydd** yn rhoi tystiolaeth o ba mor effeithiol yw rheolaeth risg, neu pa mor effeithiol y rheolir y risg gyfan. Mae'r cyngor yn defnyddio model 'Tair llinell sicrwydd'.

| Llinell Sicrwydd | Darperir gan |
|---|---|
| 1af | Perchennog y risg neu'r rheolaeth. |
| 2il | Swyddogaeth cymorth canolog, e.e. cyllid, Adnoddau Dynol, perfformiad a chyfreithiol. |
| 3ydd | Ffynonellau annibynnol e.e. archwiliad mewnol neu allanol, rheoleiddwyr allanol. |

Mae amlder a lefel y sicrwydd yn lleihau o'r llinell sicrwydd gyntaf, i'r ail linell sicrwydd, ac yna i'r trydydd lefel sicrwydd annibynnol. Mae'r tair lefel yn bwysig a dylid eu cyflwyno a'u cofnodi.

Swyddogion sy'n gyfrifol am roi'r sicrwydd sy'n gyfrifol am ychwanegu'r sicrwydd at y gofrestr risg, gyda'r Tîm Perfformiad yn mewnbynnu ffynonellau o sicrwydd allannol.

## Gwerthuso Risg

Pan fydd y broses dadansoddi risg wedi'i chwblhau, mae angen gwerthuso neu gymharu'r risg weddilliol yn erbyn parodrwydd y cyngor i dderbyn risg. Mae gwerthuso risg yn helpu i benderfynu pa mor sylweddol yw risg, p'un a ddylai gael ei derbyn neu a ddylid ymdrin â hi, a blaenoriaethir risgiau ar gyfer ymdrin â nhw.

**Parodrwydd i dderbyn risg** yw'r lefel a'r math o risg y mae'r cyngor yn fodlon ei derbyn. Ni ddylid cymysgu neu ddrysu rhwng hyn â goddefgarwch risg, sef y lefel eithaf o risg y bydd y cyngor yn gweithredu o'i mewn. Mae parodrwydd y cyngor i dderbyn wedi'i nodi yn y ddogfen polisi a strategaeth rheoli risg ac yn gosod y ffiniau o ran faint o risg mae'r cyngor yn credu sy'n dderbyniol a pha risgiau y mae'n anelu at eu rheoli os yw am wireddu ei amcanion.

## 2.3. Ymdrin â Risg

Mae pedwar opsiwn sylfaenol i ymdrin â risg.

| Terfynu | Ymdrin |
|---|---|
| Osgoi neu stopio proses neu weithgaredd penodol yn llwyr. Fel arall, gellid gwneud y gweithgaredd mewn ffordd wahanol | Gweithredu camau lliniaru neu fesurau rheoli i leihau'r tebygolrwydd neu effaith y risg. Mae'n anghyffredin y bydd un rheolaeth risg yn lleihau'r tebygolrwydd a'r effaith.<br>Dylid monitro rheolaethau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.<br>Mae'r mwyafrif helaeth o opsiynau i ymdrin â risg yn dod o fewn y categori hwn. |
| Enghraifft: os yw prosiect penodol yn risg uchel iawn ac nad oes modd lliniaru'r risg gellid penderfynu canslo'r prosiect. | Enghraifft: Gall gwirio gosodiadau trydanol leihau'r tebygolrwydd o dân a gall gosod system chwistrellu leihau effaith y tân. |
| **Trosglwyddo** | **Goddef** |
| Trosglwyddo cost y risg i barti arall sy'n ysgwyddo'r risg gyfan neu ran ohoni. Nodwch, lle mae dyletswydd statudol ar y cyngor i weithredu (e.e. casglu sbwriel) mae'r atebolrwydd am fethu â gweithredu yn aros gyda'r cyngor ac ni ellir ei drosglwyddo i'r contractwr sy'n cyflawni'r ddyletswydd ar ran y cyngor. | Derbyn y risg a gwneud dim i'w lliniaru. Efallai na fydd bob amser yn angenrheidiol neu'n briodol cymryd camau i ymdrin â risgiau.<br>Os dangosir y risg fel un 'gwyrdd' ar ôl camau lliniaru yna mae'n debyg y gellir ei goddef.<br>Mae angen monitro ac adolygu risgiau sy'n cael eu derbyn o hyd. |
| Enghraifft: Allanoli maes gwaith i gontractwr neu brynu yswiriant. | Enghraifft: bod y gost o ymdrin â risg yn fwy na'r manteision posibl. |

Bydd angen ymdrin âg unrhyw risg sydd ar lefel uwch na'r hyn y mae'r cyngor yn barod i'w derbyn.

Wrth werthuso pa opsiynau i'w defnyddio, ystyriwch:

- Arferion gorau presennol i ymdrin â'r risg.
- Rheolaethau critigol a fydd yn lleihau'r risg fel rhan o ymdrin â'r risg neu'r cynllun lliniaru.
- Costau sy'n gysylltiedig ag opsiynau gwahanol i ymdrin â'r risg yn erbyn buddion cysylltiedig.
- Sut mae sefydliadau eraill yn lliniaru'r un risg.

Felly, dylid canolbwyntio amser ac adnoddau ar risgiau lle mae'r risg weddilliol ar lefel uwch na'r hyn y mae'r cyngor yn barod i'w derbyn neu ar lefel gritigol (coch).

## Cynllun Gweithredu

Pan fo'r perchennog risg yn credu bod angen cymryd cam ychwanegol, dylent gofnodi pa gamau gweithrdu sydd eu hangen, gan bwy, ac erbyn pryd yn y gofrestr risg a chyfathrebu hyn i berchennog y gweithred. Os yw penderfyniad o'r fath y tu allan i awdurdod perchennog y risg, mae'n rhaid iddyn nhw uwchgyfeirio'r penderfyniad i sylw rhywun sydd ag awdurdod.

Dylai'r camau gweithredu a nodwyd fod yn rhai CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol.)

Perchnogion camau gweithredu sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r gofrestr risg o ran camau a bennir iddynt, yn enwedig os caiff y gwaith o gwblhau cam gweithredu ei ohirio neu os yw'n annhebygol o ddigwydd, a rhaid iddynt gadarnhau pan fydd gweithred wedi'i gwblhau.

Unwaith y bydd cam gweithredu wedi'i gwblhau, dylai'r perchennog risg ystyried yr effaith ar y sgôr risg weddilliol neu os oes rheolaeth newydd.

## Risg Darged

Os bydd camau gweithredu ychwanegol yn cael eu gweithredu, dylid cynnal dadansoddiad o'r sgôr risg disgwyliedig ar ôl cwblhau'r weithred. Dyma'r **risg darged** ac fe'i cyfrifir gan ddefnyddio'r un matrics risg ag a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi'r lefelau risg cynhenid a gweddilliol.

# 2.4. Cofnodi, Monitro ac Adrodd ynghylch Risg

## Cofrestr Risg

Mae canfyddiadau pob cam o'r broses rheoli risg yn cael eu cofnodi yn y gofrestr risg. 4risk yw'r dull sy'n cael ei ffafrio gan y cyngor ar gyfer cofnodi cofrestri risg.

**Strategol**

- Bydd y Rheolwr Risg ac Yswiriant yn hwyluso'r gwaith o gynnal a diweddaru'r gofrestr risg strategol ar ran y Tîm Arweinyddiaeth.

**Gwasanaeth**

- Bydd pob Gwasanaeth yn cynnal ac yn diweddaru eu cofrestr risg eu hunain.
- Efallai bydd gwasanaethau mawr neu'r rhai sydd ag unedau busnes penodol yn penderfynu cadw cofrestri risg ar gyfer pob un neu rai timau o fewn y gwasanaeth. Bydd cyfrifoldeb dros gynnal cofrestri risg o'r fath yn cael ei benderfynu o fewn y gwasanaeth.

**Prosiect a Rhaglen**

- Bydd rheolwyr prosiect a rhaglen yn cynnal a diweddaru cofrestri risg prosiect a rhaglen

## Monitro

Mae'n hanfodol monitro bob cam o'r broses rheoli risg yn rheolaidd.

Mae monitro risgiau unigol yn rheolaidd yn sicrhau bod y tebygolrwydd a'r effaith yn parhau i fod yn gynrychioliadol, bod y rheolaethau'n parhau i fod yn berthnasol, a ph'un ai a yw camau gweithredu ar y trywydd iawn. Mae amlder yr adolygiad yn dibynnu ar lefel y risg; po uchaf fo lefel y risg, yr amlaf y cynhelir yr adolygiad. Hefyd dylid adolygu risgiau ar ôl unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol. rhyddhau deddfwriaeth newydd neu ganllawiau'r llywodraeth ac ar ôl archwiliad.

Mae monitro cofrestri risg yn eu cyfanrwydd yn rheolaidd yn sicrhau eu bod yn rhoi cynrychiolaeth gyffredinol deg o'r risg i'r sefydliad a bod lefel y risgiau'n dal yn gymharol â'i gilydd.

Dylai risgiau ymddangos fel eitem sefydlog ar agenda timau rheoli (ar bob lefel o fewn y sefydliad), gweithgorau/ fforymau corfforaethol lle bo hynny'n briodol, byrddau prosiect a rhaglen, a chyfarfodydd partneriaeth, fel y gellir nodi a chofnodi risgiau. Dylai trafodaethau ar risg gynnwys y canlynol:

- oes unrhyw risgiau ar goll o'r gofrestr risg.
- adolygu'r risgiau presennol
- effeithiolrwydd y rheolaethau presennol
- ydi'r camau gweithredu ar y trywydd iawn
- materion a risgiau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg

**Strategol**

- Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu'r gofrestr risg Strategol yn ei chyfanrwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.
- Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu nifer fechan o risgiau strategol bob mis.

**Gwasanaeth**

- Mae gwasanaethau yn gyfrifol am fonitro a diweddaru eu cofrestri risg. Anogir gwasanaethau i adolygu eu cofrestri risg o leiaf unwaith y chwarter.

**Prosiect a Rhaglen**

- Dylid monitro risgiau ar ddechrau pob cam o'r prosiect / rhaglen er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar gerrig milltir allweddol.

**Partneriaeth**

- Dylai'r bartneriaeth gytuno ar y gwaith parhaus o fonitro'r proffil risg a chynnydd y cynllun gweithredu, ac amlder a chynnwys adroddiadau risg

## Effeithiolrwydd Rheoli Risg

Mae monitro effeithiolrwydd rheolaethau yn rheolaidd yn sicrhau bod y sgôr risg weddilliol yn adlewyrchiad cywir o'r risg. Mae gwahanol ddulliau o fonitro effeithiolrwydd rheolaethau gan gynnwys:

- adolygiadau cyfnodol lle gwneir dyfarniad
- llinellau sicrwydd
- dulliau ffurfiol o brofi'r rheolaethau
- sefydlu dangosyddion rheoli allweddol (DRhA)

## Dangosyddion Allweddol

Gall y rhain helpu'r broses fonitro.

| Dangosyddion Perffomriad Allweddol | Dangosyddion Risg Allweddol | Dangosyddion Rheoli Allweddol |
|---|---|---|
| • monitro cynnydd a'r hyn a gyflawnwyd gan y strategaeth rheoli risg. | • dangosyddion rhybudd cynnar i fonitro achos y risg, sicrhau bod y broses o fonitro risg yn rhagweithiol yn hytrach nag yn ymatebol.<br>• dangosydd newid o ran y tebygolrwydd neu effaith risg, yn rhoi arwydd cynnar o'r cynnydd yn yr amlygiad i risg ac o gymorth i'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer lliniaru risg | • dangosyddion rhybudd cynnar ar gyfer rheolaethau risg allweddol<br>• Pan fo rheolaethau'n aneffeithiol neu'n llai effeithiol, dylid adolygu lefel y risg weddilliol. |

## Adrodd ynghylch Risg ac Uwchgyfeirio

### Uwchyfeirio Risg

Mae hyn yn sicrhau bod risgiau sylweddol yn cael eu huwchgyfeirio a'u dwyn i sylw'r person neu'r grŵp priodol ac mae'n angenrheidiol i sicrhau bod y penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud a chamau'n cael eu gweithredu i liniaru'r risg.

Mae sicrhau bod gwybodaeth risg ar gael yn amserol i'r bobl gywir yn hanfodol i'r broses o uwchgyfeirio risg. Nid oes cyfyngiad ar yr hyn y gellir ei uwchgyfeirio i weithredu arno; y meini prawf allweddol yw bod angen rhyw fath o ymyrraeth gan reolaeth sy'n uwch.

Perchnogion risg unigol sy'n gyfrifol am uwchgyfeirio risgiau drwy'r hierarchaeth reoli arferol. Er y gallai fod yn briodol cynnwys risg mewn cofrestr risg wahanol, gall y cyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r risg aros gyda'r perchennog risg gwreiddiol. Dylid hysbysu'r Tîm Arweinyddiaeth o unrhyw risg sy'n uwch na lefel parodrwydd y cyngor i dderbyn risg; fodd bynnag, bydd cyfrifoldeb dros reoli'r risgiau hynny fel arfer yn aros gyda pherchennog y risg ond gyda mwy o graffu gan y Tîm Arweinyddiaeth.

## Adrodd ynghylch Risg

Mae adrodd ynghylch risg yn cynnig llawer o fanteision gan gynnwys caniatáu i sefydliadau ddangos dealltwriaeth o'r risgiau sy'n eu hwynebu a'r ffordd orau o ddelio â nhw. Mae hyn yn rhoi mwy o hyder yng ngallu'r sefydliad i liniaru risg a sicrwydd bod risgiau'r cyngor yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n dda.  Mae hefyd yn dangos arweinyddiaeth effeithiol a bod y gwaith o reoli risg yn cael ei integreiddio i'r trefniadau llywodraethu ehangach.

Dylai'r broses o adrodd risg ddilyn trefn adrodd arferol y cyngor i gefnogi gwell penderfyniadau a sicrhau bod cynllunio a rheoli yn rhan annatod a thryloyw.  Mae cyfathrebu risg yn llorweddol ac yn fertigol o fewn y cyngor yn hanfodol i'r broses hon gan nad oes modd ystyried risgiau ar wahân a gall rheoli un risg effeithio ar un arall.

Nid oes un ffordd benodol o adrodd ynghylch risg, fodd bynnag, mae adroddiadau cryno gyda ffocws sy'n seiliedig ar wybodaeth o ansawdd da yn allweddol i sicrhau bod adroddiadau'n hawdd i'w deall, yn ymarferol ac y gellir eu defnyddio'n hawdd wrth wneud penderfyniadau. Dylai data sy'n cael ei goladu ar gyfer dadansoddi fod yn ystyrlon i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ac wedi'i gyflwyno mewn ffordd gryno a hygyrch sy'n canolbwyntio ar bwyntiau allweddol.

Os oes angen penderfyniad, dylid mynegi unrhyw risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad yn glir mewn ffordd gryno a hygyrch i'r rhai sydd â'r awdurdod i wneud y penderfyniad hwnnw.  Mae hyn yn cynnwys risgiau a chyfleoedd i fwrw ymlaen â gweithgaredd neu roi'r gorau iddo, a pheidio â bwrw ymlaen â gweithgaredd neu roi'r gorau i weithgaredd.

**Strategol**

- Yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith anffurfiol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y gofrestr risg strategol gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau i'r risgiau strategol, unrhyw risgiau newydd a nodwyd ac unrhyw risgiau sydd wedi'u cwblhau i'r pwyllgorau hyn ddwywaith y flwyddyn.

**Gwasanaeth**

- Craffir ar risgiau i wasanaeth yn ystod cyfnodau Her y Gwasanaeth
- Dylid cyflwyno cofrestri risg gwasanaeth i'r Aelod Portffolio o leiaf bob blwyddyn

**Prosiect a Rhaglen**

- Dylid integreiddio adrodd ynghylch risg gyda threfn adrodd a sefydlwyd. Fel arfer y Rheolwr Prosiect > Uwch Swyddog Cyfrifol > Bwrdd Prosiect > Tîm Arweinyddiaeth

**Partneriaethau**

- Dylai pob partner dderbyn copïau o'r gofrestr risg ac unrhyw adroddiadau risg o leiaf unwaith y flwyddyn ac uwchgyfeirio pryderon o fewn y broses reoli arferol

# 3. Cyfle i Reoli Risg

Os mai dim ond risgiau sy'n fygythiad a reolir, y canlyniad gorau a ddisgwylir yw bodloni'r amcanion a addawyd ond heb fyth wella arnynt.  Mae nodi a rheoli cyfleoedd felly yn cael eu hannog o fewn parodrwydd y cyngor i dderbyn risg.  Mae'r broses ar gyfer cyfle i reoli risg yn parhau i fod yn debyg i'r hyn a amlinellir yn adran 2 gyda'r ystyriaethau canlynol:

## Asesu Risg

Mae'n bwysig adnabod cyfleoedd go iawn ac nid yn unig cofnodi'r ochr arall i fygythiadau.  Mae dadansoddiad SWOT yn adnodd defnyddiol i adnabod cyfleoedd.

## Matrics Risg

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | Canlyniad ffafriol yn debygol o gael ei sicrhau mewn llai na 12 mis | Tebygol | 3 | | | |
| | Siawns resymol o gael canlyniad ffafriol yn y 2 flynedd nesaf | Posibl | 2 | | | |
| | Rhywfaint o siawns o gael canlyniad ffafriol yn y 5 mlynedd nesaf | Annhebygol | 1 | | | |
| | | | | 1 | 2 | 3 |

| | 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|
| | Mân | Cymedrol | Sylweddol |
| Amcanion | Ychydig o effaith neu ddim effaith bositif | Rhywfaint o effaith bositif | Effaith gadarnhaol nodedig |
| Darparu Gwasanaeth | Ychydig o effaith ar naill ai ansawdd neu ddarpariaeth | Gwella ansawdd neu ddarpariaeth | Gwelliant nodedig mewn ansawdd a darpariaeth |
| Budd Ariannol | <£250k | £250k - £1m | >£1m |
| Enw da | Ychydig o effaith neu ddim effaith | Cydnabyddiaeth leol | Cydnabyddiaeth genedlaethol |
| EFFAITH | | | |

## Ymdrin â Chyfleoedd

Bydd y parodrwydd i dderbyn risg yn cael dylanwad ar sut yr ymdrinnir â chyfleoedd.

Mae pedwar ymateb sylfaenol i gyfleoedd.

| Manteisio | Rhannu |
|---|---|
| Manteisio yw pan na chymerir unrhyw gamau ond os yw'r risg yn digwydd, yn hytrach manteisir ar y risg, a'i ddefnyddio. | Gweithio gyda sefydliad arall i rannu'r gost, yr adnoddau a'r wybodaeth er mwyn gwireddu'r cyfle. |
| Enghraifft: Gwerthu cyfranddaliadau os yw'r pris yn codi i lefel na welwyd ei debyg o'r blaen. | Enghraifft: Sefydlu cwmni newydd dan berchnogaeth ar y cyd â sefydliad arall. |
| **Gwella** | **Gwrthod** |
| Cymryd camau i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd digwyddiad yn digwydd a / neu effaith pe bai'r cyfle yn digwydd. Nid yw hyn yr un peth â Manteisio, ond bydd gwneud rhai pethau yn rhoi mwy o siawns fod y cyfle ar gael. | Nodi cyfle ond penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau. |
| Enghraifft: Ychwanegu mwy o adnodd i leihau amser neu cynnig hyfforddiant i wella ansawdd. | Enghraifft: Mae'r gost / adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn fwy na'r enillion posibl. |

## Monitro ac Adrodd

Dylid integreiddio monitro ac adrodd am gyfleoedd gyda threfn adrodd risg a sefydlwyd. Hefyd, dylid amlygu cyfleoedd yn glir mewn adroddiadau ochr yn ochr ag unrhyw risgiau.

# 4. Atodiadau

## 4.1. Terminoleg

| Gair/term | Diffiniad |
|---|---|
| Cam / Cynllun Gweithredu | Cam ychwanegol i liniaru'r risg ymhellach. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'r hyn sy'n ofynnol, gan bwy ac erbyn pryd. |
| Perchennog Cam Gweithredu | Yr unigolyn neu'r grŵp o bobl sydd â'r dasg o gwblhau cam gweithredu. |
| Sicrwydd (Llinellau) | Tystiolaeth o ba mor effeithiol y mae risg yn cael ei rheoli. |
| Achos | Amgylchiadau a allai arwain at ddigwyddiad risg. |
| Rheolaeth | Y camau sydd eisoes ar waith i leihau'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, neu leihau effaith y risg pe bai'n digwydd. |
| Perchennog sy'n Rheoli | Yr unigolyn neu'r grŵp o bobl sydd â'r dasg o weithredu rheolaeth. |
| Effaith | Y canlyniad os bydd digwyddiad risg yn digwydd. |
| Risg Gynhenid | Lefel y risg cyn i'r camau a'r mesurau rheoli presennol gael eu hystyried - y senario gwaethaf. |
| Mater | Digwyddiad neu sefyllfa sydd eisoes yn bodoli. |
| Tebygolrwydd | Pa mor ddibygol yw'r risg o ddigwydd. |
| Cyfle | Canlyniad neu effaith positif risg. |
| Partneriaeth | Trefniant gwaith ar y cyd lle mae'r partneriaid fel arall yn gyrff annibynnol, yn cytuno i gydweithredu er mwyn cyrraedd nod cyffredin o gydlyniant cymunedol a'i gyflawni, creu strwythur neu broses sefydliadol a rhaglen y cytunwyd arni. |
| Rhaglen | Strwythur sefydliad hyblyg dros dro a grëwyd i gydlynu, cyfarwyddo a goruchwylio'r gwaith o weithredu set o brosiectau a gweithgareddau cysylltiedig. |
| Prosiect | Strwythur dros dro sy'n cael ei greu er mwyn darparu un neu fwy o amcanion busnes yn unol ag achos busnes y cytunwyd arno. |
| Risg Weddilliol | Lefel y risg sy'n ar ôl wedi i unrhyw reolaethau risg presennol gael eu ystyried - y lefel risg bresennol. |
| Risg | Effaith ansicrwydd ar amcanion. |
| Asesu Risg | Y broses o adnabod, dadansoddi a gwerthuso risg. |
| Parodrwydd i Dderbyn Risg | Y lefel a'r math o risg y mae sefydliad yn ceisio ei gadw / ei gymryd. |
| Cydlynydd Risg | Y swyddig sydd yn arwain ar hyrwyddo a gwreiddio rheoli risg o fewn eu Gwasanaeth. |
| Diwylliant Risg | Gwerthoedd, agweddau a dealltwriaeth sefydliad mewn perthynas â'r risgiau y mae'n eu hwynebu. |
| Digwyddiad Risg | Set arbennig o amgylchiadau. |
| Lefel Risg | Arwyddocâd y risg o ran tebygolrwydd ac effaith a ddangosir fel coch, ambr, melyn neu wyrdd. |
| Rheoli Risg (Proses) | Y broses o nodi, asesu, a mynd i'r afael â'r risgiau sydd ynghlwm â gweithgareddau yn drefnus. |
| Matrics Risg | Darlun gweledol o'r berthynas rhwng tebygolrwydd ac effaith risg. |
| Aeddfedrwydd Risg | Lefel, dealltwriaeth ac effeithiolrwydd y modd y rheolir risg gan sefydliad. |
| Perchennog Risg | Yr unigolyn neu'r grŵp o bobl sydd â'r dasg o reoli, monitro ac adrodd ynghylch risg. |
| Cofrestr Risg | Y ddogfen sy'n cofnodi canlyniad yr asesiad risg a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig. |
| Sgôr Risg | Y cyfuniad o'r tebygolrwydd a'r effaith. |
| Ymdrin â Risg | Y broses o ddewis a gweithredu mesurau i addasu'r risg. |
| Risg Darged | Y lefel ddisgwyliedig o risg unwaith y bydd y cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau. |

## 4.2. Risgiau Gwasanaeth

Mae'r tabl isod yn cynnwys rhai o'r risgiau a allai fod yn berthnasol i wasanaethau.

| Categori | Enghreifftiau |
|---|---|
| Partneriaethau | • y risg i'r Gwasanaeth o fod yn rhan o bartneriaeth o ran gwerth am arian, effeithlonrwydd, niwed i enw da ayb |
| Data | • colli neu ddatgelu ar gam<br>• atal mynediad<br>• cadw a dinistrio<br>• gwybod pa ddata a gedwir a ble<br>• ansawdd y data a gedwir<br>• hygyrchedd y data yn y dyfodol |
| Iechyd a diogelwch | • staff<br>• defnyddwyr gwasanaeth<br>• contractwyr<br>• aelodau o'r cyhoedd |
| Parhad busnes | • colli TG neu deleffoni<br>• argaeledd staff<br>• colli adeiladau / llety<br>• mynediad i gofnodion |
| Polisi'r Gymraeg | • torri'r safonau |
| Contractau | • caffael nwyddau a gwasanaethau<br>• rheoli contract<br>• risgiau'r gadwyn gyflenwi |
| Staffio | • salwch<br>• absenoldeb<br>• swyddi gwag<br>• hyfforddiant a sgiliau<br>• rheolaeth |
| Twyll | • gan staff<br>• gan bartïon allanol |
| Amgylcheddol | • effaith tywydd eithafol<br>• llygredd<br>• ôl troed carbon |
| Ariannol | • cyllideb termau real llai |
| Deddfwriaeth | • newidiadau mewn deddfwriaeth<br>• deddfwriaeth newydd |

## 4.3. Matricsau Risg

## Matrics Risg Strategol

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | O fewn y 3 mis nesaf | **Bron yn sicr** | **5** | | | | | |
| | O fewn y 12 mis nesaf | **Tebygol** | **4** | | | | | |
| | O fewn y 2 flynedd nesaf | **Posibl** | **3** | | | | | |
| | O fewn y 5 mlynedd nesaf | **Annhebygol** | **2** | | | | | |
| | Ddim o fewn y nesaf 25 mlynedd | **Prin** | **1** | | | | | |
| MÂN | | CYMEDROL | | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| MAWR | | CRITIGOL | | **Ansylweddol** | **Bychan** | **Cymedrol** | **Mawr** | **Sylweddol** |

| | 1 Ansylweddol | 2 Bychan | 3 Cymedrol | 4 Mawr | 5 Sylweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| Amcanion | Mân oedi cyn cyflawni amcanion | Gostyngiad yng nghwmpas neu ansawdd amcan eilaidd | Mae gostyngiad mewn cwmpas neu ansawdd prif amcan neu gyflawniad amcan eilaidd yn cael ei ohirio'n sylweddol | Cyflawni prif amcan yn cael ei ohirio'n sylweddol neu ni ellir bodloni amcan eilaidd | Ni ellir bodloni prif amcan |
| Enw da | Pryder y cyhoedd wedi'i gyfyngu i gwynion lleol | Ychydig o sylw negyddol lleol / cyhoeddus yn y cyfryngau | Sylw negyddol sylweddol yn lleol neu ychydig yn negyddol yn rhanbarthol neu genedlaethol yn y cyfryngau | Beirniadaeth ranbarthol neu genedlaethol negyddol ddifrifol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol hir |
| Cost ariannol | <£100k | £100k - £500k | £500k - £2m | £2m - £5m | >£5m |
| Iechyd a Diogelwch | Damwain fu bron digwydd neu fân anaf ddim angen unrhyw driniaeth feddygol broffesiynol | Mân anaf angen triniaeth feddygol broffesiynol | Anaf difrifol | Anaf sy'n newid bywyd | Marwolaeth |
| Diogelu | Dim effaith diogelu | Un achos o ddiffyg cydymffurfio â gweithdrefnau | Parhau i beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau | Un achos o ddiogelu | Digwyddiadau diogelu lluosog a chysylltiedig |
| Rheoleiddio | Dim effaith rheoleiddio | Digwyddiad adroddadwy i'r rheoleiddiwr, dim angen dilyn i fyny | Adrodd am dorri rheoliadau i reoleiddiwr sy'n gofyn am gamau unioni ar unwaith | Cosb gan reoleiddiwr sy'n arwain at ddirwyon neu ymyrraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael prosiect i unioni'r sefyllfa | Cosb gan reoleiddwyr sy'n arwain at ddirwyon sylweddol ac/neu ymyrraeth ar raddfa fawr |
| Amgylcheddol | Mân effaith tymor byr | Effaith tymor byr nad oes angen fawr o adnoddau i'w datrys | Effaith tymor byr sy'n gofyn am adnoddau sylweddol i'w datrys | Effaith tymor byr difrifol neu ryw effaith hirdymor | Effaith ddifrifol a hirdymor |

**EFFAITH**

## Matrics Risg Gwasanaeth

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | O fewn y 3 mis nesaf | Bron yn sicr | 5 | | | | | |
| | O fewn y 12 mis nesaf | Tebygol | 4 | | | | | |
| | O fewn y 2 flynedd nesaf | Posibl | 3 | | | | | |
| | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Annhebygol | 2 | | | | | |
| | Ddim o fewn y nesaf 25 mlynedd | Prin | 1 | | | | | |
| MÂN | | CYMEDROL | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| MAWR | | CRITIGOL | | Ansylweddol | Bychan | Cymedrol | Mawr | Sylweddol |

| | Ansylweddol | Bychan | Cymedrol | Mawr | Sylweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth | Dim effaith ar ansawdd gwasanaeth; mân oedi cyn darparu gwasanaethau sydd ddim yn hanfodol | Mân effaith ar ansawdd y gwasanaeth, oedi byr iawn o ran darparu un gwasanaeth critigol, neu oedi sylweddol i weithrediadau eraill | Gostyngiad sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth, tarfu yn y tymor byr ar wasanaethau critigol, neu tarfu am hir ar weithrediadau eraill | Tarfu am hir ar un gwasanaeth critigol | Tarfu am hir ar wasanaethau critigol lluosog |
| Enw da | Pryder y cyhoedd wedi'i cyfyngu i gwynion lleol | Ychydig o sylw negyddol lleol / cyhoeddus yn y cyfryngau | Sylw negyddol sylweddol yn lleol neu ychydig yn negyddol yn rhanbarthol neu genedlaethol yn y cyfryngau | Beirniadaeth ranbarthol neu genedlaethol negyddol ddifrifol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol hir |
| Cost ariannol (% o gyllideb Gwasanaeth net) | <1% | 1% - 10% | 10% - 25% | 25% - 50% | >50% |
| Iechyd a Diogelwch | Damwain fu bron digwydd neu fân anaf ddim angen unrhyw driniaeth feddygol broffesiynol | Mân anaf angen triniaeth feddygol broffesiynol | Anaf difrifol | Anaf sy'n newid bywyd | Marwolaeth |
| Diogelu | | Un achos o ddiffyg cydymffurfio â gweithdrefnau | Parhau i beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau | Un achos o ddiogelu | Digwyddiadau diogelu lluosog a chysylltiedig |
| Rheoleiddio | | Digwyddiad adroddadwy i'r rheoleiddiwr, dim angen dilyn i fyny | Adrodd am dorri rheoliadau i reoleiddiwr sy'n gofyn am gamau unioni ar unwaith | Cosb gan reoleiddiwr sy'n arwain at ddirwyon neu ymyrraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael prosiect i unioni'r sefyllfa | Cosb gan reoleiddwyr sy'n arwain at ddirwyon sylweddol ac/neu ymyrraeth ar raddfa fawr |
| Amgylcheddol | Mân effaith tymor byr | Effaith tymor byr nad oes angen fawr o adnoddau i'w datrys | Effaith tymor byr sy'n gofyn am adnoddau sylweddol i'w datrys | Effaith tymor byr difrifol neu ryw effaith hirdymor | Effaith ddifrifol a hirdymor |

**EFFAITH**

## Matrics Risg Prosiect

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | Bron yn sicr | 5 | | | | |
| | Tebygol | 4 | | | | |
| | Posibl | 3 | | | | |
| | Annhebygol | 2 | | | | |
| | Prin | 1 | | | | |
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| | | | Ansylweddol | Bychan | Cymedrol | Mawr |

| | Ansylweddol | Bychan | Cymedrol | Mawr |
|---|---|---|---|---|
| Cwmpas / Amcanion | ychydig | angen cymeradwyaeth SRO | angen cymeradwyaeth y Bwrdd | methu â bodloni amcanion neu gwmpas |
| Cost | cynnydd <5% | cynnydd 5%-10% | cynnydd 10%-20% | cynnydd >20% |
| Amserlen | mân lithriad | cynnydd 5%-10% | llithriad sylweddol | cynnydd >20% |

**EFFAITH**

## 4.4. Canllaw 4risk

Mae canllaw defnyddwyr ar wahân ar gael ar gyfer 4risk.

## 4.5. Dulliau i Nodi Risgiau

### Dadansoddiad SWOT

Mae dadansoddiad SWOT yn adnodd cynllunio sy'n ceisio adnabod Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a'r Bygythiadau sy'n rhan o brosiect neu sefydliad. Mae'n fframwaith ar gyfer paru nodau, rhaglenni a chapasiti sefydliad i'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo.

Dim ond ymarfer casglu data yw'r 'SWOT' ei hun - mae'r dadansoddiad yn dilyn yn ddiweddarach.


- **Cryfderau** – nodweddion diriaethol ac anniriaethol cadarnhaol, yn fewnol i'r sefydliad ac o fewn rheolaeth y sefydliad.
- **Gwendidau** – ffactorau mewnol o fewn rheolaeth sefydliad sy'n amharu ar allu'r sefydliad i gyrraedd y nod a ddymunir. Pa feysydd allai'r sefydliad eu gwella?
- **Cyfleoedd** – ffactorau deniadol allanol sy'n cynrychioli'r rheswm i sefydliad fodoli a datblygu. Pa gyfleoedd sydd ar gael yn yr amgylchedd, a fydd yn hywyddo'r sefydliad? Nodwch nhw yn ôl eu 'hamserlen'.
- **Bygythiadau** – ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth y sefydliad a allai olygu bod cenhadaeth neu weithrediad y sefydliad mewn perygl. Gall y sefydliad elwa drwy gael cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael â nhw pe baent yn digwydd. Dylid eu dosbarthu yn ôl eu difrifoldeb a'u tebygolrwydd o ddigwydd.

| FFACTORAU MEWNOL | |
|---|---|
| Cryfderau | Gwendidau |
| | |
| **FFACTORAU ALLANOL** | |
| Cyfleoedd | Bygythiadau |
| | |

## Dadansoddiad 'Tei Bo'

Darlun graffigol o'r llwybrau o achosion digwyddiad neu risg i'w ganlyniadau yw dadansoddiad 'bow tie'.

Gall adnabod gwahanol achosion a all arwain at y risg helpu adnabod rheolaethau i atal neu leihau'r tebygolrwydd fod y risg yn digwydd. Yn yr un modd, gall nodi'r gwahanol effeithiau pe bai'r risg yn digwydd helpu i adnabod camau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith i leihau'r effeithiau hynny.



# 5. Manylion Cyswllt

| Maes | Swyddog |
| --- | --- |
| Fframwaith rheoli risg:<br>Strategaeth<br>Polisi<br>• Canllawiau | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg |
| System rheoli risg (4risk) | Nanette Williams, Prif Archwilydd |
| Cofrestr Risg Strategol | Susan Jones, Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) |
| Cofrestrau Risg Gwasanaeth | Cydlynwyr Risg o fewn gwasanaethau:<br>• Adnoddau – Nia Dafydd<br>• Rheoleiddio ac Economaidd – Nonn Hughes<br>• Trawsnewid – Rhian Jones<br>• Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo – Julie Jones<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol, Emma Edwards<br>• Gwasanaethau Democrataidd – Dyfan Siôn<br>• Gwasanaethau Cyfreithiol –<br>• Dysgu – Angharad Fflur Hughes<br>• Tai – Darren Gerrard |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **4 RHAGFYR 2025** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2025/26** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID A BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER** |
| **PENNAETH GWASANAETH / CYFARWYDDWR:** | **R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON** |

**Natur a Rheswm dros Adrodd**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chydymffurfio â Chynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2024/25 (Atodiad 10 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor llawn, ar ôl i'r Pwyllgor hwn graffu arno.

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:-

1. Adolygu a nodi cynnwys yr adroddiad sydd yn crynhoi gweithgareddau rheoli'r trysorlys hyd at 30 Medi 2025.
2. Cyflwyno unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, fydd yn trafod yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2025.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd chwe mis cyntaf 2025/26 o ran ei berfformiad mewn perthynas â'r strategaeth rheoli'r trysorlys. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â buddsoddi arian dros ben a benthyca i ariannu gwariant cyfalaf.

## 2. CYDYMFFURFIO Â GOFYNION ADRODD

**2.1.** Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Cod) a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus), mae'n rhaid cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn ystod y flwyddyn. Yr adolygiad canol blwyddyn yw un o'r adroddiadau hynny ac mae cyflwyno'r adroddiad hwn yn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion adrodd.

## 3. ADOLYGIAD O 2025/26 HYD AT 30 MEDI 2025 - FFACTORAU ALLANOL

**3.1.** Mae nifer o ffactorau nad yw'r Cyngor yn gallu eu rheoli yn dylanwadu ar weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor ac maent yn cael effaith sylweddol ar ei benderfyniadau ynghylch benthyca a buddsoddi.

**3.2. Cyfraddau Llog**

Mae lefel cyfraddau llog pan wneir penderfyniadau, a rhagolygon cyfraddau yn y dyfodol, yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau rheoli'r trysorlys a gall ddylanwadu ar benderfyniad y Cyngor i fenthyca'n allanol ai peidio, cyfnod unrhyw fenthyciadau, pryd fydd y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddiadau tymor hwy ac ymhle mae'r Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben.

Ar ddechrau 2025/26 roedd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 4.5%. Y darogan oedd y byddai'r gyfradd yn gostwng yn gymharol gyflym yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ond nid yw chwyddiant wedi gostwng cyn gyflymed â'r disgwyl ac mae twf yn parhau'n gymharol isel. Gan fod lefelau cyflogau hefyd yn parhau'n uwch na chwyddiant, ond yn arafu, a chyda diweithdra'n codi i 5% ym mis Hydref 2025, ymddengys fod pwysau chwyddiant yn llacio. Fodd bynnag, mae Banc Lloegr wedi penderfynu bod yn bwyllog wrth ostwng cyfraddau llog, a chafwyd gostyngiad o 0.25% ym mis Mai 2025, a gostyngiad pellach o 0.25% ym mis Awst 2025.

Penderfynodd Banc Lloegr, o drwch blewyn, i gadw cyfraddau llog ar 4% ym mis Tachwedd 2025, ond mae disgwyl gostyngiad pellach o 0.25% ym mis Rhagfyr 2025, neu Chwefror 2026. Disgwylir gostyngiad pellach o 0.25% cyn diwedd y flwyddyn ariannol a rhagwelir y bydd cyfraddau'n parhau i ostwng yn araf yn ystod 2026/27 a 2027/28.

### 3.3. Economi'r DU

Mae economi'r DU yn parhau i weithredu o dan ddylanwad digwyddiadau byd-eang mawr sy'n effeithio ar economi'r byd, gan gynnwys parhad y rhyfel yn Wcráin a'r angen i wario mwy ar amddiffyn, ethol Arlywydd newydd yn yr Unol Daleithiau, yr Unol Daleithiau'n cyflwyno tollau uwch a chreu'r posibilrwydd y byddai economi'r byd yn arafu, yn ogystal â'i effaith ar brisiau olew ac ynni.

Yn ystod chwarter cyntaf 2025/26, gwelwyd twf o 0.3% yn economi'r DU a chafwyd twf o 0.2% yn ystod yr ail chwarter. Rhagwelir twf o 1.4% yn y cynnyrch domestig gros (GDP) a rhagwelir twf tebyg yn 2026, a chynnydd bychan yn unig yn 2027.

Mae Banc Lloegr wedi datgan eu bod yn credu fod chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Medi 2025, a bydd yn dechrau gostwng yn ystod trydydd chwarter 2025 a chyrraedd 3% yn gynnar y flwyddyn nesaf, cyn dychwelyd yn raddol tuag at y targed o 2% yn 2027.

Bydd perfformiad economi'r DU a'i effaith ar gyfraddau llog yn cael ei effeithio gan gyllideb y Canghellor ym mis Tachwedd 2025. Mae trethi'n debygol o godi a gallai hynny gael effaith negyddol ar chwyddiant a diweithdra.

**3.4.** Mae dadansoddiad economaidd mwy manwl a luniwyd gan gynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, MUFG, ynghlwm yn Atodiad 1. Mae rhagolwg o ddangosyddion economaidd hyd at fis Mawrth 2027 i'w weld yn Atodiad 2.

## 4. GWARIANT CYFALAF 2025/26

**4.1.** Mae gwariant cyfalaf yn cael effaith sylweddol ar weithgarwch rheoli trysorlys y Cyngor. Gellir ariannu gwariant cyfalaf naill ai:-

- ar unwaith drwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) ac nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu
- drwy fenthyca: Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthyca.

**4.2.** Ar ôl cwblhau'r cyfrifon drafft, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ddwyn ymlaen y gyllideb nad oedd wedi cael ei gwario o 2024/25 i 2025/26 ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad alldro cyfalaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2025. Derbyniwyd arian cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn hefyd, a'i ychwanegu at y gyllideb gyfalaf. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr ychwanegiadau hyn yn ei gyfarfodydd ar 23 Medi 2025 a 25 Tachwedd 2025.

**4.3.** Mae Tabl 1 isod yn nodi manylion y rhaglen gyfalaf a ddiweddarwyd ar gyfer 2025/26, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn 2025:-

| Tabl 1 | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Cyfalaf Diwygiedig 2025/26** | | | |
| **Crynodeb** | **Cyllideb a Gymeradwywyd Mawrth 2025 yn cynnwys Llithriad** | **Cyllid Ychwanegol Chwarter 1 a 2** | **Cyllideb Cyfalaf Diwygiedig fel ar Tachwedd 2025** |
| | **£** | **£** | **£** |
| Tai - Gronfa Cyffredinol | 900,650 | 198,030 | 1,098,680 |
| Tai - CRT | 20,894,000 | 3,626,814 | 24,520,814 |
| Dysgu Gydol Oes | 1,666,791 | 1,904,082 | 3,570,873 |
| Economaidd ac Adfywio | 9,460,242 | 1,900,668 | 11,360,910 |
| Priffyrdd | 2,974,500 | 4,021,120 | 6,995,620 |
| Rheoli Gwastraff | 1,470,124 | - | 1,470,124 |
| Eiddo | 6,756,605 | 1,194,711 | 7,951,316 |
| Trawsnewid | 784,861 | - | 784,861 |
| Gwasanaeth Oedolion | 1,915,439 | - | 1,915,439 |
| **CYFANSWM** | **46,823,212** | **12,845,425** | **59,668,637** |
| | | | |
| **Cyllidir Gan** | | | |
| Grant Cyfalaf | 22,014,411 | 13,762,949 | 35,777,360 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 831,431 | - | 831,431 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,813,331 | - | 3,813,331 |
| Benthyca Digefnogaeth | 13,020,000 | - 9,338,353 | 3,681,647 |
| Cyfraniad Refeniw | 5,788,000 | 7,323,493 | 13,111,493 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 1,340,443 | 252,625 | 1,593,068 |
| Benthyciadau | 15,596 | 844,711 | 860,307 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **46,823,212** | **12,845,425** | **59,668,637** |

**4.4.** Mae crynodeb o'r rhaglen gyfalaf, y gwariant a ragwelir a'r cyllid ar 30 Medi 2025 i'w weld yn Nhabl 2 isod:-

| Tabl 2 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant a Ragwelir i gymharu gyda Cyllideb Blynyddol 25/26 ar 30 Medi 2025** | | | | | | |
| **Crynodeb** | **Cyllideb Flynyddol (£)** | **Cyfanswm Gwariant (£)** | **Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (£)** | **Gwariant a Ragamcenir (£)** | **(Tan) / Gorwariant a Ragamceinir (£)** | **Amrwywiad (%)** |
| Cronfa Dai Gyffredinol | 1,099 | 842 | 77 | 1,099 | (257) | (23) |
| CRT Tai | 24,521 | 10,149 | 41 | 22,056 | (14,372) | (59) |
| Addysg | 3,571 | 1,123 | 31 | 3,571 | (2,448) | (69) |
| Economaidd ac Adfywio | 11,361 | 3,968 | 35 | 10,881 | (7,393) | (65) |
| Priffyrdd | 6,996 | 2,704 | 39 | 6,996 | (4,292) | (61) |
| Rheoli Gwastraff | 1,470 | - | 0 | 865 | (1,470) | (100) |
| Eiddo | 7,951 | 161 | 2 | 7,155 | (7,790) | (98) |
| Trawsnewid | 785 | 194 | 25 | 630 | (591) | (75) |
| Gwasanaeth Oedolion | 1,915 | 435 | 23 | 1,915 | (1,480) | (77) |
| **CYFANSWM** | **59,669** | **19,576** | **33** | **55,168** | **(4,501)** | **(8)** |
| **Cyllidwyd Gan:** | | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 35,777 | - | | 34,692 | (1,085) | (3) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 831 | - | | 497 | (334) | (40) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,814 | - | | 3,797 | (17) | (0) |
| Benthyca Digefnogaeth | 3,682 | - | | 1,445 | (2,237) | (61) |
| Cyfraniad Refeniw | 13,111 | - | | 12,883 | (228) | (2) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 1,594 | - | | 993 | (601) | (38) |
| Benthyciadau | 860 | - | | 860 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **59,669** | **-** | | **55,167** | **(4,502)** | **(8)** |

## 5. EFFAITH AR SEFYLLFA ARIANNOL Y CYNGOR AR 30 MEDI 2025

**5.1.** Mae Atodiadau 3a - 3ch yn cynnwys dadansoddiad o Fenthyca Allanol Presennol y Cyngor.

**5.2.** Ni threfnwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, a balans cyfun yr holl fenthyciadau cyfredol ar 30 Medi 2025 oedd £121.898m. Amcangyfrifir y bydd rhaid allanoli £10m o fenthyca mewnol cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan roi sefyllfa fenthyca a ragwelir o £131.895m, ynghyd â £25.033m o fenthyca mewnol. Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf a amcangyfrifir felly yw £156.928m, ar sail rhagolygon o wariant a chyllid cyfalaf.

**Tabl 3**
**Rhagolwg o Fenthyca Mewnol ac Allanol hyd at 31 Mawrth 2026**

| | | |
|---|---|---|
| **BENTHYCIADAU ALLANOL** | | |
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans Agoriadol** | | **122,082** |
| | | |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | - | |
| Benthyca i Gyllido Ad-dalu Benthyca | - | |
| Benthyciadau yn Lle Benthyca Mewnol | 10,000 | |
| **Cyfanswm Benthyca Newydd yn y Flwyddyn** | | **10,000** |
| | | |
| Ad-Dalu Benthyciadau yn y Flwyddyn | | - 187 |
| | | |
| **Balans Cau Benthyciadau Allanol** | | **131,895** |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **BENTHYCIADAU MEWNOL** | | |
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans Agoriadol** | | 30,203 |
| | | |
| Benthyciadau yn Lle Benthyca Mewnol | - 10,000 | |
| Benthyca i Gyllido Ad-dalu Benthyca | - | |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 6,102 | |
| **Cyfanswm Benthyca Newydd yn y Flwyddyn** | | - 3,898 |
| | | |
| Asedau Hawl Defnydd (prydlesau) wedi'i ddwyn ymlaen i'r Fantolen | | - |
| | | |
| Ad-Dalu Benthyciadau yn y Flwyddyn | | 187 |
| | | |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | | - 1,459 |
| | | |
| Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) – Asedau Hawl Defnydd | | - |
| | | |
| **Balans Cau Benthyciadau Mewnol** | | **25,033** |
| | | |

**5.3. Ad-dalu Dyledion**

Yn ystod hanner cyntaf 2025/26, gwnaethpwyd cyfanswm o £9k o daliadau blynyddol ar fenthyciadau blwydd-dal y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a £178k ar fenthyciadau di-log Salix.

## 6. BUDDSODDIADAU

**6.1.** Cymeradwyodd y Cyngor y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26, sydd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, ar 6 Mawrth 2025. Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, mae'n nodi blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fel a ganlyn:-

- Diogelwch cyfalaf;
- Hylifedd;
- Enillion.

**6.2.** Roedd yr holl fuddsoddiadau wedi'u gwneud gyda sefydliadau oedd yn bodloni'r statws credyd gofynnol a nodir yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac nid oedd gwerth y buddsoddiadau gyda'r sefydliadau hyn, ar unrhyw adeg, yn uwch na'r terfyn cymeradwy a nodir yn y strategaeth.

**6.3.** Mae Atodiadau 4a - 4c yn cynnwys gwybodaeth bellach am falansau arian parod a buddsoddiadau'r Cyngor.

**6.4.** Mae Tabl 4 isod yn dangos y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau hyd at 30 Medi 2025, ynghyd â rhagolwg o'r sefyllfa ar gyfer 2025/26:-

**Tabl 4**
**Llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau hyd at 30 Medi 2025**

| | Ar 30 Medi 2025 | Amcangyfrif i 31 Mawrth 2026 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gronfa Cyffredinol | 387,892 | 652,564 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 49,456 | 83,201 |
| Balansau Ysgolion | 39,975 | 67,251 |
| **Cyfanswm Llog Dderbyniwyd** | **477,322** | **803,016** |

## 7. DANGOSYDDION DARBODUS

**7.1.** Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cynnwys nifer o ddangosyddion darbodus a therfynau awdurdodedig. Mae Tabl 5 isod yn nodi'r sefyllfa a ragwelir ar hyn o bryd yn erbyn y dangosyddion a'r terfynau:

**Tabl 5**
**Rhagolwg o'r Sefyllfa ar Ddiwedd Chwarter 1 o gymharu â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys**

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp y Dangosydd** | **Disgrifiad** | **Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26** | **Amcangyfrif o'r Sefyllfa ar ddiwedd Ch 1** | |
| Fforddiadwyedd | Cymhareb Costau Cyllido yn erbyn y Ffrwd Refeniw Net – Cronfa Gyffredinol | 2.60% | 1.55% | |
| | Cymhareb Costau Cyllido yn erbyn y Ffrwd Refeniw Net - Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 10.03% | 12.65% | |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | Cronfa'r Cyngor a CRT | £154.390m | £156.928m | |
| **TERFYNAU AWDURDODEDIG** | | | | |
| Darbodus | Mae'n rhaid i'r ddyled gros fod yn is na'r GCC ynghyd ag unrhyw GCC ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd nesaf | <171.070m | £121.895m | |
| Dyled Allanol | Terfyn Awdurdodedig | < £181.230m | £121.895m | |
| | Terfyn Gweithredol | < £171.230m | £121.895m | |
| Pryd fydd y Ddyled yn Aeddfedu | O dan 12 mis | <20% o gyfanswm y ddyled = £24.379m | £0.550m | 0.45% |
| | 12 mis ac o fewn 24 mis | <20% o gyfanswm y ddyled = £24.379m | £1.895m | 1.55% |
| | 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | <50% o gyfanswm y ddyled = £60.947m | £7.632m | 6.26% |
| | 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | <75% o gyfanswm y ddyled = £85.326m | £14.275m | 11.71% |
| | 10 mlynedd a mwy | 100% = £121.895m | £121.895m | 100.00% |

## 8. ACHOSION O FYND YN GROES I ARFERION RHEOLI TRYSORLYS Y MAE'N RHAID ADRODD ARNYNT

**8.1.** Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025/26 yn caniatáu i'r Cyngor fuddsoddi uchafswm o £10m mewn unrhyw fanc unigol nad yw'r llywodraeth yn berchen arno neu gymdeithas adeiladu unigol. Mae gan y Cyngor Gyfrif Galw gyda Banc Lloyds ac mae'r swm a gedwir yn y cyfrif hwnnw'n cael ei uchafu gan ei fod yn talu llog uwch na'r cyfrifon galw eraill sydd gan y Cyngor.

**8.2.** Ar 4 Mehefin 2025, balans y Cyfrif Galw Lloyds oedd £9.993m. Ar 5 Mehefin 2025, ychwanegwyd cyfanswm o £25,748 o log i'r cyfrif, ac roedd y balans yn codi i £10.019m o ganlyniad i hynny. Roedd y cyfanswm yn uwch na'r terfynau a nodir yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Ar 23 Mehefin 2025, trosglwyddwyd £1m o'r cyfrif, gan olygu bod y balans yn gostwng i £9.019m. Yn dechnegol, mae hyn yn mynd yn groes i'r arferion rheoli trysorlys, ond nid oedd y Cyngor ar ei golled o ganlyniad i hyn.

## 9. CASGLIADAU

**9.1.** Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o ddefnyddio buddsoddiadau risg isel ac enillion isel, a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau costau llog cymaint â phosib.

**9.2.** Mae perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a bennwyd gan y Cyngor yn dangos fod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu rheoli, gan sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor, ac nid ydynt yn creu unrhyw risg ariannol sylweddol i'r Cyngor mewn perthynas â chymryd benthyciadau nad ydynt yn fforddiadwy neu fenthyca gormod.

**9.3.** Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau mai dyma'r strategaeth fwyaf addas wrth symud ymlaen.

## Diweddariad Economaidd - Lluniwyd gan MUFG

- Yn ystod hanner cyntaf 2025/26 gwelwyd:
  - Cynnydd o 0.3% yn y GDP rhwng Ebrill a Mehefin 2025. Yn fwy diweddar, ni fu unrhyw dwf yn yr economi ym mis Gorffennaf, ac roedd trethi uwch ar fusnesau'n llesteirio twf.
  - Mae cyfradd 3 mis, o flwyddyn i flwyddyn (3m/bb) twf enillion cyfartalog, heb gynnwys bonws, wedi disgyn o 5.5% i 4.8% ym mis Gorffennaf.
  - Mae chwyddiant CPI wedi amrywio ond y lefel ym mis Medi oedd 3.8%, tra bod chwyddiant craidd wedi gostwng i 3.6%.
  - Torrodd Banc Lloegr gyfraddau llog o 4.50% i 4.25% ym mis Mai, ac yna i 4% ym mis Awst.
  - Amrywiodd enillion 10 mlynedd giltiau rhwng 4.4% a 4.8%, a'r ffigwr ar ddiwedd chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 4.70%.
- O safbwynt GDP, cafwyd dechrau ansefydlog i'r flwyddyn ariannol gyda gostyngiad o 0.3% fis ar fis mewn GDP gwirioneddol yn Ebrill, gan fod camau a gymerwyd gan fusnesau cyn i'r UDA gyflwyno tollau yn Ch1 (pan welwyd twf o 0.7% yn y GDP o gymharu â'r chwarter blaenorol) wedi pwyso ar weithgarwch. Er gwaetha'r rhesymau sylfaenol dros y gostyngiad, hwn oedd y gostyngiad cyntaf ers Hydref 2024 a'r gostyngiad mwyaf ers Hydref 2023. Er hynny, fe wnaeth yr economi wella ym mis Mai a Mehefin, felly gwelwyd twf o 0.3% ar ddiwedd y chwarter, o gymharu â'r chwarter cynt. Er hynny, mae'r 0.0% o newid fis ar fis yn y GDP gwirioneddol ym mis Gorffennaf yn siŵr o fod wedi creu rhywfaint o bryder, ac yn ddi-os, roedd cynnydd mewn trethi i fusnesau a gyflwynwyd ym mis Ebrill eleni wedi cyfrannu at lesteirio twf. Mae'n debygol fod yr amgylchedd wan dramor wedi cyfrannu at y gostyngiad fis ar fis o 1.3% mewn allbwn gweithgynhyrchu ym mis Gorffennaf. Dyma'r ail ostyngiad mawr mewn tri mis ac roedd y gyfradd 3mis/3mis o -1.1% yn is nag y bu yn ystod yr 20 mis diwethaf. Fe wnaeth y cynnydd o 0.1% fis ar fis mewn allbynnau gwasanaethau gynnal y gyfradd 3 mis/3 mis ar 0.4%, wedi'i gefnogi gan allbwn cryfach yn y sectorau iechyd a'r celfyddydau/adloniant. Wrth edrych ymlaen, bydd dyfalu parhaus ynghylch y posibilrwydd o godi trethi eto yng Nghyllideb yr Hydref ar 26 Tachwedd yn parhau i arafu twf GDP am gyfnod eto. Mae Capital Economics yn darogan twf o 1.3% mewn GDP yn 2025.
- Gan aros gyda'r farn am gyfeiriad yr economi yn y dyfodol, disgynnodd y Mynegai Rheolwyr Prynu (PMI) ar gyfer y DU o 53.5 yn Awst i 51.0 ym Medi. Gyrrwyd y gostyngiad yn bennaf gan y PMI gwasanaethau, lle bu gostyngiad o 54.2 i 51.9. Disgynnodd balans allbynnau'r PMI gweithgynhyrchu hefyd, o 49.3 i 45.4. Galw gwan o dramor (disgynnodd balans archebion allforion newydd am y pedwerydd mis ar y tro) oedd i gyfri am hynny, yn ogystal â chau ffatri Jaguar Land Rover ar 1 Medi yn sgil ymosodiad seiber, gan ostwng cynhyrchiant ceir ar draws cadwyn gyflenwi'r sector moduron. Mae'r PMIau yn awgrymu mai twf gwan yw'r gorau y gellir ei ddisgwyl pan ryddheir ffigyrau GDP Chwarter 3.
- Gan droi at werthiant yn y sector manwerthu, y cynnydd o 0.5% fis ar fis mewn cyfeintiau yn Awst oedd y trydydd cynnydd olynol o'i fath ac roedd yn cael ei yrru gan enillion ym mhob prif gategori, ac eithrio gwerthiant tanwydd, a welodd ostyngiad o 2.0% fis ar fis. Mae'n bosib bod y tywydd cynhesach na'r arfer wedi cynnal lefelau gwerthiant. Pe na fyddai lefelau gwerthiant yn codi ym mis Medi, byddai cynnydd o 0.7% o un chwarter i'r llall, o gymharu â chynnydd o 0.2% yn Chwarter 2.
- Gyda Chyllideb Tachwedd yn agosáu, mae sefyllfa arian cyhoeddus yn ymddangos yn wan. Roedd benthyciadau net y sector cyhoeddus ym mis Awst yn £18.0bn, gan olygu fod benthyca, bum mis i mewn i'r flwyddyn ariannol, £11.4bn yn uwch na rhagolwg yr OBR yn Natganiad y Gwanwyn ym mis Mawrth. Mae'r gorwariant ar y mandad ariannol a ddewiswyd gan y Canghellor ar gyfer y gyllideb bresennol hyd yn oed yn fwy, ac mae yna ddiffyg cronnus o £15.3bn. Y ffaith fod derbyniadau cyfredol yn Awst yn is na rhagolwg yr OBR (gan £1.8bn) a bod gwariant presennol yn uwch (gan £1.0bn) sydd i gyfrif am hyn oll. Yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn ariannol, mae derbyniadau cyfredol wedi bod £6.1bn yn is (yn rhannol oherwydd bod derbyniadau treth incwm hunanasesu yn is na'r disgwyl) a chafwyd £3.7bn o wariant cyfredol ychwanegol (yn bennaf oherwydd budd-daliadau cymdeithasol a gwariant gan adrannau'r llywodraeth). Yn ogystal, yr hyn sy'n bwysig iawn yn awr yw rhagolygon yr OBR a'u heffaith ar y gyllideb gyfredol yn 2029/30, oherwydd dyna pryd fydd mandad ariannol y Canghellor yn brathu. Fel canllaw cyffredinol, mae Capital Economics yn rhagweld diffyg o thua £18bn, gan olygu y bydd rhaid i'r Canghellor godi £28bn, yn bennaf trwy godi trethi, os yw'n dymuno cadw ei chlustog yn erbyn ei rheol o £10bn.

- Roedd yn amlwg bod y farchnad swyddi'n gwanhau yn y gwanwyn. Y gostyngiad o 109,000 fis ar fis yn y mesur cyflogaeth PAYE oedd y gostyngiad mwyaf (ac eithrio'r pandemig) ers dechrau cadw cofnodion, a'r seithfed gostyngiad mewn saith mis. Adolygwyd y newid misol, a'i ostwng, mewn pump o'r saith mis blaenorol hefyd, gyda gostyngiad o 33,000 yn Ebrill yn cael ei newid i ostyngiad o 55,000. Ond, yn fwy diweddar, adolygwyd y newid misol, a'i gynyddu, mewn saith o'r naw mis diwethaf, a chyfanswm y cynnydd oedd 22,000. Felly, yn hytrach na gostyngiad o 165,000 ers Hydref, credir bellach bod y gostyngiad mewn cyflogaeth PAYE yn is, sef 153,000. Er hynny, mae cyflogaeth PAYE wedi gostwng mewn naw o'r 10 mis ers i'r Canghellor gyhoeddi cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr a'r isafswm cyflog yn y gyllideb ym mis Hydref 2024. Roedd 728,000 o swyddi gweigion yn y tri mis hyd at Awst. Gwelwyd gostyngiad o 47% mewn swyddi gweigion, o gymharu â'r uchafbwynt yn Ebrill 2022. Mae hyn oll yn awgrymu bod y farchnad lafur yn parhau i lacio, ond yn fwy araf.
- Mae marchnad lafur mwy llac yn gyrru pwysau mwy meddal ar gyflogau. Mae cyfradd 3m/bb, twf enillion cyfartalog, heb gynnwys bonws, wedi disgyn o 5.5% i 4.8% ym mis Gorffennaf. Llithrodd y gyfradd ar gyfer y sector preifat o 5.5% i 4.7%, ac mae ar y trywydd cywir i gyd-fynd â rhagolwg Banc Lloegr ar gyfer Chwarter 3 (4.6% ar gyfer Medi).
- Disgynnodd chwyddiant CPI ychydig, o 3.5% yn Ebrill i 3.4% ym Mai, a disgynnodd chwyddiant gwasanaethau o 5.4% i 4.7%, tra bod chwyddiant craidd wedi meddalu hefyd, o 3.8% i 3.5%. Ond, yn fwy diweddar, mae pwysau chwyddiant wedi ailymddangos, er bod y cynnydd diweddar mewn chwyddiant CPI wedi dod i stop am gyfnod ym mis Awst, pan arhosodd ar 3.8%. Llaciodd chwyddiant craidd unwaith eto hefyd, o 3.8% i 3.6%, a disgynnodd chwyddiant gwasanaethau o 5.0% i 4.7%. Felly, mae'r sefyllfa ar ddiwedd hanner blwyddyn yn debyg i'r sefyllfa ar ddechrau'r cyfnod, ond, gan fod chwyddiant bwyd wedi codi i'w lefel uchaf, sef 5.1%, mewn 18 mis a chan fod aelwydydd yn disgwyl i chwyddiant yn aros ar ei lefel uchaf mewn chwe blynedd, mae'n bosib y bydd rhaid gweld llacio pellach yn y farchnad lafur a thwf gwannach mewn cyflogau os yw chwyddiant yn y DU am ostwng i lai na 2.0% erbyn 2027.
- Problem hollbresennol yn ystod y chwe mis diwethaf oedd y pwysau a roddwyd ar enillion giltiau sydd â dyddiadau ad-dalu yn y tymor canol a'r tymor hwy. Symudodd enillion ar giltiau 10 mlynedd i'r ochr yn ystod ail chwarter 2025, gan godi o 4.4% ddechrau Ebrill i 4.8% ganol Ebrill, yn dilyn ansefydlogrwydd yn y farchnad bondiau fyd-eang ehangach o ganlyniad i'r cyhoeddiad ynghylch tollau a wnaed gan yr Unol Daleithiau ar y "Diwrnod Rhyddhau", cyn llacio eto wrth i densiynau masnach ddechrau lliniaru. Erbyn diwedd Ebrill, roedd enillion ar giltiau 10 mlynedd wedi dychwelyd i 4.4%. Ym mis Mai, cafwyd cynnydd arall oherwydd pryderon bod chwyddiant yn parhau'n uchel a newid yn y llwybr disgwyliedig ar gyfer cyfraddau llog, a gwelwyd enillion giltiau 10 mlynedd yn amrywio rhwng 4.6% a 4.75% trwy'r rhan fwyaf o fis Mai, ond wrth i densiynau masnachu barhau i lacio ac wrth i'r marchnadoedd, yn gynyddol, ddechrau caniatáu ar gyfer polisi ariannol llacach, dechreuodd enillion 10 mlynedd ostwng, a'r gyfradd ar ddiwedd Chwarter 2 oedd 4.50%.
- Yn fwy diweddar, cododd enillion ar giltiau 10 mlynedd o 4.46% i 4.6% ddechrau Gorffennaf gan fod pryderon ariannol wedi cynyddu yn sgil gwrthdroi toriadau mewn gwariant ac ansicrwydd ynghylch dyfodol Canghellor Reeves. Er mai am gyfnod byr yn unig y gwelwyd y cynnydd, roedd yn tynnu sylw at sefyllfa ariannol fregus y DU. Mewn oes o ddyledion uchel, cyfraddau llog uchel a thwf GDP isel, mae'r marchnadoedd bellach yn fwy sensitif i risgiau ariannol nag yr oedden nhw cyn y pandemig. Yn ystod Awst, gwelwyd cynnydd mawr yn y giltiau â dyddiadau ad-dalu hir oedd yn cael eu gwerthu, gyda chynnydd o 22 pwynt sylfaen, ac erbyn diwedd y mis, roedd y gyfradd ar ei lefel uchaf mewn 27 mlynedd, sef 5.6%. Er bod enillion wedi llacio ers hynny, roedd y gwerthiant ar y marchnadoedd wedi'i yrru gan bryderon buddsoddwyr ynghylch twf yn yr anghydbwysedd rhwng cyflenwad a galw, yn deillio o anesmwythyd ynghylch diffyg cyfnerthiad ariannol a gostyngiad yn y galw gan brynwyr traddodiadol sy'n prynu bondiau â dyddiadau ad-dalu hir, megis cronfeydd pensiwn. Ar gyfer giltiau 10 mlynedd, erbyn diwedd Medi, mae cyndynrwydd chwyddiant i ostwng, data gweithgarwch gwydn a pholisi Banc Lloegr o godi cyfraddau llog i reoli chwyddiant, yn golygu bod enillion wedi aros yn uchel, ar 4.70%.
- Gwelwyd cwymp sylweddol yn yr FTSE 100 yn dilyn cyhoeddiad tollau'r Unol Daleithiau ar "Ddiwrnod Rhyddid", gyda gostyngiad o fwy na 10% yn ystod wythnos gyntaf Ebrill - o 8,634 ar 1 Ebrill i 7,702 ar 7 Ebrill. Fodd bynnag, gan fod y rhyfel masnach wedi tawelu ac yn sgil enillion corfforaethol cryf, dechreuodd y sefyllfa adfer yn gyflym ddiwedd Ebrill. O ganlyniad, ar ddiwedd chwarter 2 roedd yr FTSE 100 ar 8,761, tua 2% yn uwch na'i werth ar ddiwedd chwarter 1, a dros 7% yn uwch na'i lefel ar ddechrau 2025. Ers hynny, gwelodd yr FTSE 100 gynnydd pellach o 4% ym mis Gorffennaf, y cynnydd misol cryfaf ers Ionawr, ac roedd ei berfformiad yn well na'r S&P 500. Cynyddodd prisiau cyfranddaliadau yn sgil enillion corfforaethol cryf a chynnydd yn y trafodaethau masnach (UDA-UE, DU-India), gyda'r mynegai'n cyrraedd record o 9,321 ganol Awst, wedi'i yrru gan y gobaith o heddwch yn Wcráin ac arwyddion o gymodi gan Powell, Cadeirydd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau. Roedd Medi yn fwy ansefydlog a chaeodd yr FTSE 100 ar 9,350, 7% yn uwch nag ar ddiwedd Chwarter 1 ac 14% yn uwch ers dechrau'r flwyddyn. Mae perfformiad yn y dyfodol yn debygol o gael ei effeithio gan y graddau y bydd archwaeth risg buddsoddwyr byd-eang yn parhau, toriadau yng nghyfraddau'r Gronfa Ffederal, gwytnwch yn economi'r Unol Daleithiau ac optimistiaeth ynghylch deallusrwydd artiffisial. Bydd punt wannach hefyd yn rhoi hwb i'r mynegai gan ei fod yn cynyddu enillion tramor.

**Cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) 8 Mai, 19 Mehefin, 7 Awst, 18 Medi 2025**


- Cyfarfu'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) bedair gwaith yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Ym mis Mai, penderfynodd y Pwyllgor dorri'r Gyfradd Banc o 4.50% i 4.25% ac ni wnaed unrhyw newidiadau ym mis Mehefin. Yn y bleidlais ym mis Mehefin, pleidleisiodd tri aelod o'r Pwyllgor (Dhingra, Ramsden a Taylor) o blaid torri'r gyfradd i 4.00% ar unwaith, oherwydd bod amodau'r farchnad lafur yn llacio. Roedd y chwe aelod arall yn fwy gofalus, gan eu bod wedi amlygu'r angen i gadw llygaid am "arwyddion o alw gwan", "cyfyngiadau cyflenwi" a "disgwyliadau chwyddiant" uwch, yn bennaf oherwydd bod prisiau bwyd yn codi. Trwy ailadrodd y dywediad a ddefnyddir yn gyson, "graddol a gofalus", roedd y Pwyllgor Polisi Ariannol yn parhau i awgrymu y byddai cyfraddau llog yn disgyn ymhellach.

- Yn Awst, cafodd y gyfradd llog ei thorri unwaith eto. Fodd bynnag, roedd y bleidlais 5 i 4 o blaid torri'r gyfradd i 4% yn amlygu'r gwahanol safbwyntiau o fewn y Pwyllgor Polisi Ariannol, ac roedd y sylwebaeth i gyd-fynd â'r penderfyniad yn nodi fod y penderfyniad yn un "agos iawn", ac yn ategu y byddai unrhyw doriad yn y cyfraddau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn "raddol a gofalus". Yn y pendraw, defnyddiodd y Llywodraethwr, Bailey, ei bleidlais fwrw o blaid torri'r gyfradd, ond gan fod disgwyl i fesur chwyddiant y CPI gyrraedd o leiaf 4% yn ddiweddarach eleni, bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol yn wyliadwrus rhag torri cyfraddau eto hyd nes bydd chwyddiant yn dechrau gostwng tuag at 2%.

- Nid yw Banc Lloegr yn rhagweld y bydd y CPI yn cyrraedd 2% tan ddechrau 2027, a gyda chyflogau'n dal i godi gan ychydig llai na 5%, nid oedd yn syndod fod y cyfarfod ym mis Medi wedi pleidleisio 7-2 o blaid cadw'r gyfradd ar 4% (pleidleisiodd Dhingra a Taylor o blaid gostyngiad pellach o 0.25%).


- Manteisiodd y Banc hefyd ar y cyfle i gyhoeddi y byddai'n lleihau ei fantolen gan £70bn yn unig yn ystod y 12 mis nesaf, yn hytrach na £100bn. Mae ailadrodd yr ymadrodd bod torri cyfraddau yn "raddol a gofalus" yn briodol yn awgrymu bod y Banc yn dal i gredu y bydd cyfraddau llog yn gostwng, ond, o bosib, ddim cyn Chwefror, ac mae hyn yn cyd-fynd â'n barn ni a barn gyffredinol y farchnad.

**ATODIAD 2**




Dangosyddion Economaidd Mawrth 2025 i Mawrth 2027
Economic Indicators March 2025 to March 2027
7.00%
6.00%
5.00%
4.00%
3.00%
2.00%
1.00%
0.00%
03-2025
06-2025
09-2025
12-2025
03-2026
06-2026
09-2026
12-2026
03-2027
Cyfradd Banc / Bank Rate (%)
Chwyddiant / Inflation
Cyfradd Twf / Growth Rate
Cyfradd PWLB 5 ml / 5yr PWLB rate (%)
Cyfradd PWLB 10ml / 10yr PWLB rate (%)
Cyfradd PWLB 25ml / 25yr PWLB rate (%)
Cyfradd PWLB 50ml / 50yr PWLB rate (%)

**ATODIAD 3a**




Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 30 Medi 2025 fesul Blwyddyn Ad-Dalu
Total Loans Outstanding as at 30 September 2025 By Repayment Year
Swm Ddyledus / Outstanding Amount £
£30,000,000
£25,000,000
£20,000,000
£15,000,000
£10,000,000
£5,000,000
£0
2025/2026
2026/2027
2027/2028
2028/2029
2029/2030
2030/2031
2031/2032
2032/2033
2033/2034
2034/2035
2035/2036
2036/2037
2037/2038
2038/2039
2039/2040
2040/2041
2042/2043
2043/2044
2044/2045
2045/2046
2050/2051
2052/2053
2054/2055
2055/2056
2056/2057
2057/2058
2059/2060
2064/2065
2066/2067
2068/2069

**ATODIAD 3b**




Benthyciadau yn Ddyledus ar 30 Medi 2025
Oustanding Loan Balance as at 30 September 2025
£140,000,000
£120,000,000
£100,000,000
£80,000,000
£60,000,000
£40,000,000
£20,000,000
£0
01/01/2026
01/01/2027
01/01/2028
01/01/2029
01/01/2030
01/01/2031
01/01/2032
01/01/2033
01/01/2034
01/01/2035
01/01/2036
01/01/2037
01/01/2038
01/01/2039
01/01/2040
01/01/2041
01/01/2042
01/01/2043
01/01/2044
01/01/2045
01/01/2046
01/01/2047
01/01/2048
01/01/2049
01/01/2050
01/01/2051
01/01/2052
01/01/2053
01/01/2054
01/01/2055
01/01/2056
01/01/2057
01/01/2058
01/01/2059
01/01/2060
01/01/2061
01/01/2062
01/01/2063
01/01/2064
01/01/2065
01/01/2066
01/01/2067
01/01/2068
01/01/2069
01/01/2070
01/01/2071
01/01/2072
01/01/2073
01/01/2074
01/01/2075
01/01/2076

**ATODIAD 3c**




Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 30 Medi 2025 fesul Math o Fenthyciad
Total Loan Outstanding as as 30 September 2025 By Loan Type
£140,000,000
£120,000,000
£100,000,000
£80,000,000
£60,000,000
£40,000,000
£20,000,000
£0
Swm Ddyledus / Outstanding Amount £
4,214,590.53
134,188.23
117,546,078.26
Salix
Flwydd-Dal / Annuity
Aeddfedrwydd / Maturity

**ATODIAD 3ch**



Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 30 Medi 2025 Fesul Gronfa
Total Loan Outstanding as as 30 September 2025 By Fund
Swm Ddyledus / Outstanding Amount £
£120,000,000
£100,000,000
£80,000,000
£60,000,000
£40,000,000
£20,000,000
£0
21,168,714.00
4,214,590.53
96,511,552.49
Prynu Allan CRT / HRA Buy Out
Gronfa Cyffredinol / General Fund
Ar y Cyd CC a CRT / Joint GF and HRA

**ATODIAD 4a**




Gwerth Buddsoddiadau 2025/26 fesul Fath o Fuddsoddiad ar Diwedd Pob Chwarter
Value of 2025/26 Investments By Investment Type at End of Each Quarter
Gwerth Buddsoddiad / Value of Investment
£16,000,000
£14,000,000
£12,000,000
£10,000,000
£8,000,000
£6,000,000
£4,000,000
£2,000,000
£0
Sum of 31/03/2025
Sum of 30/09/2025
Math o Fuddsoddiad / Investment Type
Cyfrif Galw / Call Account
Buddsoddiad Banc Sefydlog Tymor Byr / Short Term Fixed Bank Investment
Cyfrif Cyfredol / Current Account

**ATODIAD 4b**



Gwerth Buddsoddiad fesul Cyfranogwr fesul Chwarter 2025/26
Value of Investment per Counterparty per Quarter for 2025/26
Gwerth Buddsoddiad / Value of Investment
£10,000,000
£9,000,000
£8,000,000
£7,000,000
£6,000,000
£5,000,000
£4,000,000
£3,000,000
£2,000,000
£1,000,000
£0
Bank of Scotland
Lloyds
Nat West
Nationwide
Santander
Local Authority
Banc / Bank
Sum of 31/03/2025
Sum of 30/09/2025

**ATODIAD 4c**


Canran y Buddsoddiad a Ddelir ym Mhob Math o Fuddsoddiad Fesul Chwarter 2025/26
Percentage of Investment Held in Each Investment Type per Quarter 2025/26
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
Sum of 31/03/2025
Sum of 30/09/2025
Cyfrif Galw / Call Account
Buddsoddiad Banc Sefydlog Tymor Byr / Short Term Fixed Bank Investment
Cyfrif Cyfredol / Current Account

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 4 Rhagfyr 2025 |
| **Pwnc / Testun:** | Archwilio Allanol – Adroddiad Monitro |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>01248 752502<br>CarysEdwards@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad<br>01248 752511<br>GwyndafParry@ynysmon.gov.uk |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn yr adroddiad hwn yn unol â'i Gylch Gorchwyl –

- 3.4.8.11.3 Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a **bydd yn monitro eu hargymhellion**; ac

- 3.4.8.13.1 Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr argymhellion sydd ynghlwm a'r adroddiadau wedi cael sylw dilys gan wasanaethau'r Cyngor Sir a bod y rhai perthnasol yn cael eu gwireddu mewn modd ystyrlon.

## Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos llywodraethu da, mae'r adroddiad yn manylu ar ymateb y cyngor i adroddiadau archwilio allanol ac argymhellion cysylltiedig a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr.

2. Darperir diweddariadau yn erbyn y gwaith y mae'r cyngor wedi'i wneud ers yr hyn a gyflwynwyd i'r pwyllgor yma ym mis Rhagfyr 2024.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn –

    a. Ystyried yr adroddiad a derbyn yr ymatebion a'r diweddariadau fel adlewyrchiad cywir o waith y Cyngor Sir yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig.

# Archwilio Allanol – Adroddiad Monitro



**Paratowyd gan:** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2025

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd y cyngor wrth ymateb i argymhellion o adroddiadau rheoleiddiol lleol a chenedlaethol dros y 24 mis diwethaf sydd heb eu gweithredu eto. Mae monitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn gonglfaen i lywodraethu effeithiol.

Mae ein Cod Llywodraethu Lleol 2023-28 yn dangos sut mae’r cyngor yn dilyn yr egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y ‘Framework for Delivering Good Governance in Local Government’ (CIPFA / Solace, 2016). Yr egwyddorion sefydledig yw:

**Egwyddor A**
- Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu’r rheol gyfreithiol

**Egwyddor B**
- Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

**Egwyddor C**
- Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

**Egwyddor D**
- Pennu’r ymyriadau sy’n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni’r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu

**Egwyddor E**
- Datblygu capasiti’r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a’r unigolion ynddo

**Egwyddor F**
- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

**Egwyddor G**
- Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio


Mae adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddiol a sut mae’r cyngor yn ymateb i argymhellion yn cyd-fynd yn agos ag **Egwyddor G** ac **Egwyddor F**.

Mae'r adroddiadau hyn yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod y cyngor yn gweithredu’n dryloyw ac yn cael ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau, ei ddefnydd o adnoddau, a’i ddarpariaeth o wasanaethau. Trwy werthuso cydymffurfiad y cyngor â’i ddyletswyddau statudol a nodi meysydd i'w gwella, maent yn cefnogi llywodraethu ar sail tystiolaeth ac yn galluogi'r cyngor i ddangos ei ymrwymiad i welliant parhaus.

Trwy adolygu ac ymateb yn weithredol i'r argymhellion, mae'r cyngor yn dangos ei ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac i fodloni ei ddyletswyddau statudol.

# Crynodeb

Ym mis Tachwedd 2025, mae'r cyngor wedi gweithredu 41% o'r argymhellion, mae 51% o'r ymatebion ar waith, ac mae 8% ar ei hôl hi. Mae'r siart isod yn nodi teitlau adroddiadau archwiliadau lleol a chenedlaethol ac yn gwerthuso'r ymateb i'w hargymhellion.




Mae'r niferoedd yn y siart bar uchod yn nodi sawl argymhelliad sy'n berthnasol i Awdurdodau Lleol ym mhob adroddiad rheoleiddiol.

# Trosolwg Manwl

## Amser am Newid - Tlodi yng Nghymru - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A7** Rydym yn argymell y dylai cynghorau<br>• sefydlu safonau data a dull codio corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;<br>• cynnal archwiliad i ganfod pa ddata sy'n cael ei gadw gan wasanaethau a nodi unrhyw achosion o ddyblygu cofnodion a cheisiadau am wybodaeth;<br>• creu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau;<br>• cynnal archwiliad data i ddarparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallent ac na allant rannu data a pha ddata y gallent ac na allant ei rannu; ac<br>• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data | • Cwblhaodd y cyngor asesiad aeddfedrwydd data yn 2024/25 ac mae wedi datblygu cyfres o argymhellion i gryfhau galluoedd data'r cyngor. Sefydlwyd grŵp mewnol o uwch swyddogion i yrru'r nod o ddod yn gyngor sy'n cael ei lywio gan ddata. Cyflwynwyd Achos Busnes ym mis Tachwedd 2025 i geisio adnoddau ychwanegol i ddatblygu Cynllun Strategol Data hirdymor.<br>• Mae gan y cyngor system CRM ar waith sy'n cael ei datblygu yn unol â'r Cynllun Strategol Data i wella prosesau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Mae'r ffurflenni CRM sydd eisoes ar gael ar y system yn defnyddio manylion personol, a roddir gan y trigolion ac a gadwir ar y CRM, i lenwi agweddau cyffredin ar ffurflenni cais.<br>• Mae protocolau rhannu data ar waith ac maent yn cael eu diweddaru pan nodir gwelliannau. | Ar waith |

## 'Cyfle wedi golli' Mentrau Cymdeithasol - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** I gael y gorau o'u gwaith gyda a'u cyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir yn eu lle. Rydym yn argymell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 2 i: | Mae mentrau cymdeithasol o bwysigrwydd sylweddol ar Ynys Môn ac yn bartneriaid allweddol wrth gyflwyno gwasanaethau ar draws y Cyngor. Ymhlith y Cyngor 2023–2028 caiff hyn ei amlygu ac mae cydweithio'n cael ei gydnabod fel un o werthoedd y Cyngor. | Mewn Lle |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| • hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arfer mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol ar hyn o bryd;<br>• adnabod cyfleoedd i wella cydweithio; a<br>• mynd ati ar y cyd i ddrafftio a chyflawni cynllun gweithredu gyda graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd trwy'r hunanwerthusiad. | 'Cydweithio: Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i ddarparu'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.'<br><br>Mae partneriaid allweddol yn cynnwys Medrwn Môn, Menter Môn, Môn Communities Forward ac Ynys Môn Citizens Advice.<br><br>Mae Siapio Lle yn parhau i symud ymlaen ar draws yr ynys ac mae 9 cynghrair bellach yn weithredol. Cynhyrchwyd llyfryn sy'n dangos gwaith y cynghreiriau ar draws yr ynys.<br><br>Wrth gefnogi lansiad y Civil Society Covenant, mae astudiaeth achos wedi'i chyhoeddi i ddangos ffyrdd ymarferol o weithio rhwng cymdeithas sifil a llywodraeth.<br><br>Mae grantiau SPF yn parhau i gryfhau a chefnogi gweithgarwch mentrau cymdeithasol.<br><br>Mae gan y cyngor gynrychiolaeth yn Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol y Gogledd Orllewin, sy'n cynnwys aelodau o gynghorau eraill y Gogledd Orllewin, Cwmpas, Menter Môn a Medrwn Môn i drafod materion sy'n wynebu mentrau cymdeithasol a chyllid ar eu cyfer.<br><br>Cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Strategol Caffael 2024–2029 ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r cyhoeddiad allweddol hwn yn cefnogi cyflawni ein Cynllun Cyngor ac yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer caffael gwell i gefnogi creu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu. Mae hefyd yn adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Caffael 2023, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Caffael | |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| | y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024. Ei nod yw cefnogi ein cymunedau a sicrhau gwario cydymffurfiol a gwerth am arian. | |
| **A2** I lywio gwelliant rydym yn argymell bod yr awdurdod lleol:<br>• yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn ffurfiol;<br>• yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd ar berfformiad, ei fonitro a'i werthuso mewn pwyllgorau craffu perthnasol; ac<br>• yn diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad. | Mae'r partneriaid allweddol canlynol yn adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio:<br>• Môn CF (Medi 2024)<br>• Medrwn Môn (Ionawr 2025)<br>• Menter Môn (Hydref 2025)<br>• CAB Ynys Môn (Medi 2024) | Mewn lle |
| **A3** Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Derbyniwyd adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr ar effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol gan y Cyngor ar 25 Medi 2025.<br><br>Bydd adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau yn y dyfodol yn cael ei gryfhau yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf. | Ar waith |

## 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A5** Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r Cynlluniau:<br>• fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru; | Yn dilyn gwasanaethu Hysbysiad Gwella o dan Adran 58Z4 o Ddeddf Adeiladu 1984 gan Lywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu Grŵp Gwella Gweithredol i nodi a gweithredu gwelliannau i sicrhau fod y Tîm Rheoli Adeiladu yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn modd effeithiol ac effeithlon. Disgwylir y bydd hyn yn ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion a wnaed. | Ar ei hôl hi |

Tudalen 161

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| • nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol;<br>• dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion llesiant ac amcanion corfforaethol eraill; a<br>• chynnwys mesurau deilliant sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig. | Mae Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu (dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr) hefyd wedi'i sefydlu i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Adeiladu 1984. Mae'r Grŵp yn darparu cyfarwyddyd strategol, craffu, gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd.<br><br>Mae'r Gwasanaeth hefyd yn goruchwylio datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i wella capasiti, gallu, cymhwysedd a goruchwyliaeth Tîm Rheoli Adeiladu'r Cyngor (mewn perthynas â Deddf Adeiladu 1984). | |
| **A6** Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:<br>• sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;<br>• adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau;<br>• sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a<br>• diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau. | Fel yr uchod | Ar ei hôl hi |
| **A7** Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig trwy archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o bartneru gydag awdurdodau cyfagos, sefydlu cyd-fentrau | Dim trafodaethau ar lefel ranbarthol ynghylch mabwysiadu model cyflawni newydd | Ar ei hôl hi |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| a/neu fabwysiadu model rhanbarthol lle y bo hynny'n fuddiol. | | |
| **A8** Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac y gwneir gwaith rheolaidd i'w gwerthuso ac i graffu arnynt. | Caiff Cofrestr Risg y Gwasanaeth ei diweddaru bob 6 mis ac mae hyn yn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau strategol. Bydd Cofrestr Risg newydd/benodol hefyd yn cael ei datblygu (wedi'i chysylltu â'r Cynllun Gwella). | Ar waith |

## 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** I gryfhau cydnerthedd cymunedau a chynorthwyo pobl i fod yn fwy hunanddibynnol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r offeryn gwerthuso yn Atodiad 2 i:<br>• hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac ymarfer cyfredol;<br>• adnabod ble y mae angen gwelliant; a<br>• drafftio a chyflawni cynllun gweithredu sy'n cynnwys fframiau amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n gywir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a adnabuwyd wrth gwblhau'r offeryn gwerthuso. | Mae **Cynllunio Lle** yn parhau i symud ymlaen ar draws yr ynys gyda 9 cynghrair cymunedol bellach wedi'u sefydlu:<br>• Caergybi<br>• Bro'r Llynnoedd<br>• Bro Aberffraw<br>• Crigyll<br>• Bodowyr<br>• Aethwy<br>• Seiriol<br>• Lligwy<br>• Talybolion<br><br>Mae cynghreiriau cymunedol yn bartneriaethau cydweithredol sy'n dod â lleisiau amrywiol ynghyd, gan gynnwys trigolion, grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned, busnesau lleol, ac eraill. Trwy weithio gyda'i gilydd, maent yn datblygu atebion creadigol dan arweiniad y gymuned i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ac | Mewn Lle |

Tudalen 163

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| | ymateb i ymgynghoriadau gan sefydliadau fel y Bwrdd Iechyd, Cyngor Sir Ynys Môn a Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>Mae nifer o grantiau o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu darparu gan y Cyngor a phartneriaid i gryfhau ac ychwanegu at wydnwch cymunedol. | |
| **A2** I helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r bylchau a gaiff eu canfod ganddynt yn dilyn eu hunanwerthusiad, rydym yn argymell eu bod:<br>• yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r Cynllun Gweithredu wedi'u gwblhau sy'n codi o'r ymarfer hunanwerthuso;<br>• adrodd ar berfformiad, monitro perfformiad a gwerthuso perfformiad yn rheolaidd mewn pwyllgorau craffu perthnasol; a<br>• diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad | Mae'r rhestr wirio wedi'i chwblhau er mwyn hunan-werthuso ymgysylltiad, rheolaeth, perfformiad ac ymarfer.<br>Mae'r partneriaid allweddol a nodwyd uchod i gyd wedi adrodd i Bwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio'r Cyngor. | Mewn Lle |

## Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag - Cenedlaethol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Er mwyn galluogi rhanddeiliaid i asesu safleoedd posibl, dylai cynghorau greu proses systematig i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer adfywio a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt:<br>• dylai hyn dynnu ar ddata sydd eisoes gan gynghorau, yn ogystal â ffynonellau data allanol i ddatblygu darlun cyfansawdd a mwy cyflawn o safleoedd; a | Mae gan Wasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Raglen ar waith i fynd i'r afael â safleoedd Tir Llwyd, lle bo modd, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a phartneriaid. Mae'r Cyngor yn arwain ar brynu ac ail-ddatblygu safle ffatri Peboc yn Llangefni ac yn cefnogi ein partneriaid gydag ail-ddatblygu safleoedd eraill ar draws Ynys Môn. Yn anffodus, oherwydd natur hanesyddol y safleoedd hyn, mae'n anodd iawn gwneud cynnydd cyflym arnynt. | Ar waith |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| • lle y bo'n hysbys, dylid enwi rhwystrau allweddol i helpu ymdrechion i'w goresgyn. | Trwy'r rhaglen Porthladd Rhydd, mae cyfle i ddod â dros 200 erw o safleoedd tir llwyd nas defnyddiwyd ers amser maith yn ôl i ddefnydd economaidd ystyrlon (Alwminiwm Môn, Peboc, 2 Sisters, Rhosgoch ac Octel).<br><br>Yn ogystal, mae adolygiad o'r astudiaeth tir cyflogaeth fel rhan o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd hefyd yn cyfeirio at safleoedd brownfield a all elwa o adfywio a chael eu dod yn ôl i ddefnydd economaidd. | |
| **A2** Er mwyn helpu i sicrhau bod gweithgarwch adfywio a gwaith i lunio'r amgylchedd yn cael ei oleuo gan anghenion cymunedau dylai Cynghorau gynyddu cyfleoedd i gynnwys y gymuned mewn rhaglenni adfywio, wrth greu cynlluniau a chyflawni'r gwaith datblygu ei hun. | Mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar hyn o bryd yn paratoi Cynlluniau Cynllunio Lle ar gyfer Amlwch, Caergybi a Llangefni a bydd ymgysylltu ystyrlon â'n cymunedau wrth i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu ymhellach. | Mewn Lle |
| **A3** Er mwyn darparu ffocws ac ysgogiad i ddatblygu safleoedd tir llwyd dylai Cynghorau adolygu eu dulliau adfywio presennol a, lle y bo hynny'n briodol, pennu polisïau a thargedau adfywio cliriach, mwy uchelgeisiol. Gyda'i gilydd, dylai'r rhain:<br>• ddisgrifio dull a disgwyliadau'r Cyngor;<br>• disgrifio sut y byddant yn darparu adnoddau ar gyfer eu dull; a<br>• disgrifio sut y mae'r dull yn cyd-fynd â nodau polisi cenedlaethol a blaenoriaethau cynllunio rhanbarthol. | Credwn, yn enwedig o ystyried maint ein hadnoddau cyfyngedig (pobl ac arian), bod ein polisïau a'n targedau adfywio yn ddigon uchelgeisiol. Mae hyn yn amlwg yn llwyddiant y cyngor wrth sicrhau cymorth cyllid allanol ar draws nifer o fentrau ac ymyriadau. Er y byddwn bob amser yn ymdrechu i wneud mwy, rhaid i ni hefyd fod yn realistig ac yn bragmatig.<br><br>Mae ein dull gweithredu'n parhau'n gyson – ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd ar ymyriadau sy'n codi ac sy'n cyd-fynd ag ymyriadau cenedlaethol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (e.e. Porthladd Rhydd neu Drawsnewid Trefi) ac ymyriadau rhanbarthol megis cyllid y Fargen Twf. | Mewn Lle |

## Adolygiad o Strategaeth Ddigidol - Lleol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A2** Nodi goblygiadau adnoddau.<br>Er mwyn helpu i sicrhau bod modd cyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau o ran adnoddau yn y tymor byr a'r hirdymor o'i chyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriedir. | Mae'r cynllun strategol digidol wedi'i ddatblygu gyda chanlyniadau wedi'u halinio â'r adnoddau sydd ar gael. Enghreifftiau o oblygiadau adnoddau hirdymor yw datblygu Cynllun Strategol Data a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer Diogelwch Seiber. | Mewn Lle |
| **A3** Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian.<br>Er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd a'i effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. | Mae'r tîm Digidol wedi rhoi trefniadau monitro ar waith i olrhain gweithgarwch a chynnydd ac i hwyluso adrodd, gan gynnwys paratoi'r adroddiad blynyddol ar gyfer y Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith ac adrodd chwarterol i'r tîm rheoli. | Ar waith |

Tudalen 166

## Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau - Lleol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch-arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau. | • Mae Cerdyn Sgorio newydd mewn lle ar gyfer 25–26.<br>• Mae rhai Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) wedi cael eu hadolygu gyda mwy o ffocws ar ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>• Cwblhawyd Arolwg y Preswylwyr yn 2024 a'r canlyniadau wedi'u hadrodd yn ein hadroddiad Hunanasesu a Perfformiad (Llesiant) Blynyddol – wedi'i adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth, y pwyllgor G&A, Craffu a'r Cabinet ym mis Tachwedd 2025.<br>• Mae dangosfyrddau PowerBI wedi'u datblygu i fonitro tueddiadau gan gynnwys Dangosfwrdd Poblogaeth a Demograffeg, Dangosfwrdd Tlodi, Dangosfwrdd Sero Net ac eraill sy'n cael eu datblygu. Mae'r rhain ar gael i bob aelod o staff ac Aelodau. | Ar waith |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A2** Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau arfaethedig | • Darperir gwybodaeth chwarterol i uwch arweinwyr ynghylch cwblhau amcanion Cynllun y Cyngor. Mae byrddau rhaglen ar waith i hwyluso trafodaethau a gwelliannau lle mae angen.<br>• Mae dangosfyrddau PowerBI ar waith<br>• Mae canlyniadau'r Arolwg Preswylwyr a'r Arolwg Staff wedi cael eu rhannu a'u cyhoeddi | Mewn Lle |
| **A3** Mae angen i'r Cyngor gael sicrwydd bod ganddo drefniadau cadarn i sicrhau ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu i uwch-arweinwyr sy'n ymwneud â safbwynt a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau. | • Mae gweithredu dangosfyrddau newydd PowerBI a'r Cerdyn Sgorio wedi nodi gwendidau ynghylch a chadernid ac ansawdd rhai ffynonellau data. Mae'r rhain wedi'u gwella neu wrthi'n cael eu gwella.<br>• Mae'r cyngor wedi datblygu gweledigaeth i ddod yn gyngor sy'n wybodus o'i ddata.<br>• Cyflwynwyd achos busnes i'r Tîm Arweinyddiaeth ar gyfer adnoddau ychwanegol i wireddu'r weledigaeth hon. Bwriad y Cyngor yw datblygu Cynllun Strategol Data erbyn Mawrth 2027 | Ar waith |

## Gosod amcanion llesiant - Lleol

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, dylai'r Cyngor sicrhau bod fersiynau nesaf ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos yn glir:<br>• sut bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu blaenoriaethu i gyflawni ei amcanion llesiant; a<br>• sut y gallai targedau arbedion presennol ac yn y dyfodol neu risgiau ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar gyflawni ei amcanion llesiant. | Trafodwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 25/26 yn y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi. Nodir bod erbyn diwedd cyfnod y cynllun, bydd yn rhaid dod o hyd i tua £10m o arbedion parhaol, neu y bydd angen cynyddu'r incwm a gynhyrchir gan Dreth y Cyngor o £10m yn ychwanegol at y cynnydd a ragdybir er mwyn datrys y sefyllfa ariannol bresennol. | Ar waith |

Tudalen 167

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A2** Dylai'r Cyngor roi ystyriaeth fanylach i dueddiadau, risgiau a chyfleoedd perthnasol er mwyn adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol. | Mae dangosfyrddau PowerBI wedi'u datblygu i fonitro tueddiadau, gan gynnwys Dangosfwrdd Poblogaeth a Demograffeg, Dangosfwrdd Tlodi, Dangosfwrdd Sero Net, ac eraill sy'n cael ei dylunio.<br><br>Caiff risgiau eu monitro'n chwarterol tra bo cyfleoedd yn cael eu harchwilio pan gânt eu hadnabod. | Mewn Lle |

# Adroddiadau Archwilio Newydd ers y Diweddariad Diwethaf

## Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Lleol – Rhagfyr 2024

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1.** Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi'i chyfyngu i ddwy flynedd ac nid yw wedi cymeradwyo strategaeth ariannol sy'n nodi'r pwysau ariannol hirdymor a'i ddull strategol o gyflawni'r heriau hyn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor ddatblygu strategaeth ariannol hirdymor sy'n cefnogi ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa ariannol yn y dyfodol ac yn llywio ei drawsnewid a'i flaenoriaethu gwasanaethau. | Trafodwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 25/26 yn y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi. Nodir bod erbyn diwedd cyfnod y cynllun, sydd bellach yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd, bydd yn rhaid dod o hyd i tua £10m o arbedion parhaol, neu y bydd angen cynyddu'r incwm a gynhyrchir gan Dreth y Cyngor o £10m yn ychwanegol at y cynnydd a ragdybir er mwyn datrys y sefyllfa ariannol bresennol.<br><br>Mae gwaith yn parhau i adnabod arbedion cyn gosod y gyllideb. Ymgynghorir ar rai ohonynt yn y flwyddyn newydd. | Mewn Lle |

## Trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau - Lleol – Gorffennaf 2025

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Sefydlu trefniadau comisiynu<br><br>Er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu ac adrodd ar werth am arian gwasanaethau a gomisiynir, dylai sicrhau bod ganddo broses arfarnu opsiynau sefydledig a chynhwysfawr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar wasanaethau a gomisiynir. Dylai'r rhesymeg dros benderfyniadau comisiynu fod fel a ganlyn:<br>• wedi'u dogfennu'n llawn;<br>• wedi'i llywio gan ystyriaeth o ffactorau tymor byr a hirdymor; | Bydd y Cyngor yn sefydlu grwp llywodraethiant cyngor cyfan; byddwn yn ystyried amcanion y grwp, all gynnwys:<br>• Cefnogi prosesau o wneud a dogfennu penderfyniadau strategol<br>• Sefydlu Cylch Gorchwyl ar gyfer y grwp yma.<br><br>Yn 2024 cynhaliwyd y cyngor arolwg trigolion gan weithio ar y cyd hefo WLGA a data Cymru. Bydd y Cyngor ydy cymryd i ystyriaeth canlyniadau yr arolwg yma wrth ystyried trefniadau | Ar Waith |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
| --- | --- | --- |
| • cael eu llywio gan farn y rhai y byddai'r gwasanaeth a gomisiynir yn effeithio arnynt; ac<br>• wedi asesu risg gan gynnwys ystyried costau a buddion llawn pob opsiwn | comisiynu gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio hefo CLlLC a Data Cymru i gynnal yr arolwg yma i'r dyfodol. | |
| **A2** Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor<br><br>Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar draws y Cyngor yn dysgu o weithgarwch comisiynu, dylai'r Cyngor ymgorffori trefniadau comisiynu drwy:<br>• godi ymwybyddiaeth o drefniadau comisiynu a'r disgwyliadau;<br>• gwerthuso gwerth am arian ei ddull o gomisiynu gwasanaethau yn systematig; a<br>• rhannu'r hyn a ddysgwyd o weithgarwch comisiynu ar draws adrannau a chyda phartneriaid allanol lle bo'n berthnasol. | Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Caffael Strategol 2024 i 2029 mae'r cynllun yn dangos ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio ein trefniadau masnachol i gefnogi busnesau lleol cymaint a phosib. Hefyd ein bwriad i adnabod elfennau effeithiolrwydd ac yn gyrru arloesedd yn ei flaen, tra'n sicrhau bod gwasanaethau yn effeithiol o ran cost.<br><br>Rydym wedi paratoi Llawlyfr Caffael newydd i staff sy'n ganllaw i gyd fynd gyda'r ddeddf Gaffael newydd.<br>Mae rhan penodol i'r canllaw yma sy'n cyfarch:<br>Y trefniant presennol ag archwilio trefniadau presennol y cyngor Gyda'r pwrpas i herio comisiynu i ystyried a oes wir angen yr hyn maent eisiau ei brynu.<br><br>Gweithred: Bydd y Cyngor fel rhan o'n cynllun gweithredu i gyfarch gofynion y Ddeddf yn sefydlu strwythur i rannu gwersi a ddysgwyd yn dilyn trefniadau comisiynu gyda staff eraill. | Ar Waith |

Llety Dros Dro, argyfwng hirdymor? - Cenedlaethol - Gorffennaf 2025

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **Gwerth am arian**<br>**R1** Canfuom nad yw cynghorau'n gallu dangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian yn eu darpariaeth llety dros dro. I fynd i'r afael â hyn dylai cynghorau:<br>• sicrhau bod yr ystod lawn o ddulliau ac opsiynau ar gyfer darparu llety dros dro'n cael eu hystyried; a<br>• nodi sut y byddant yn asesu ac yn monitro gwerth am arian darpariaeth llety dros dro ar y cyfan, gan gynnwys:- y manteision bwriadedig; a hefyd- yr wybodaeth y byddant yn ei defnyddio i asesu darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu darpariaeth llety dros dro. | Darparwyd ymarfer o asesu mathau gwahanol o lety digartrefedd rydym yn ei ddarparu gan sgorio rheini yn erbyn meini prawf. Rydym yn falch fod y modiwl hwn wedi ei adnabod fel cam cadarnhaol yn yr adroddiad.<br><br>Darparwyd gwybodaeth ariannol i ddangos tystiolaeth ein bod yn tanwario yn erbyn ein cyllideb am y flwyddyn 2024-25. Rydym yn monitro gwariant yn rheolaidd ac yn gallu tystiolaethu fod costau yn parhau i ostwng.<br>Fel enghraifft o'r tystiolaeth, darparwyd rhestr o'r unedau rydym yn ei lesu sydd yn adlewyrchu gwerth am arian gan eu bod yn ddatrysiad rhatach na thalu gwesty sydd á chostau nosweithiol uwch. Darparwyd rhestr o'r costau nosweithiol hynny. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r model asesu mathau gwahanol o lety digartrefedd ac bydd yn ffurfiol rhan o'n Cynllun Ailgartrefu Cyflym.<br>**Gweithred: diweddaru ein Cynllun Ailgartrefu Cyflym** | Ar Waith |
| **Cynllunio ar gyfer atal**<br>**A2** Canfuom, er bod gan yr holl gynghorau Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym, fod ansawdd y rhain yn amrywio. Er mwyn cynllunio'n effeithiol i atal digartrefedd dylai cynghorau:<br>• sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol i lunio'r amcangyfrif gorau posibl o'r galw yn y dyfodol am wasanaethau digartrefedd; | Rydym yn derbyn gallwn wella ar ein defnydd o ddata. Ond, credwn ein bod yn gweithio tuag at hyn. Enghraifft o hyn yw bod ein cyfeiriadau Grant Cymorth Tai gael ei wneud yn electroneg gyda dashfwrdd byw i ddangos data yng nghyd á chasglu gwybodaeth am Grant Cymorth Tai a Digartrefedd at ei gilydd. Mae LLC wedi cysylltu yn ddiweddar i wybod sut rydym wedi canoli ein dull o gasglu data gan ddarparwyr a gofyn ein | Ar Waith |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| • cynnwys ystod o ddulliau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol yn eu cynlluniau, gyda'r pwyslais ar atal sylfaenol lle y bo'n bosibl;<br>• modelu effaith newidiadau polisi ar y sgiliau a'r capasiti y mae eu hangen yn eu gweithlu;<br>• adnabod y gweithlu y bydd ei angen arnynt i fynd i'r afael â'r galw am lety dros dro yn y dyfodol; a<br>• nodi sut y byddant yn asesu ac yn monitro darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu dull o atal a lleihau'r galw am lety dros dro. | barn am pa ganllaw ddylai LLC ei rannu er mwyn hwyluso casglu data a sut dylent gyflawni hyn.<br>**Gweithred: Adolygiad o ddefnydd o ddata a fframwaith canlyniadau GCC mewn lle**<br><br>Credwn bod ein strwythur, trefniadau gwaith yn ymateb i hyn. Gall person ddod at y gwasanaeth a derbyn ystod o wasanaethau / ymyraethau sydd yn berthnasol i'w sefyllfa. I dystiolaethu hyn mae gennym nifer o lwybrau mynediad at gefnogaeth megis pobl ifanc, pobl ifanc yn gadael, person yn gadael carchar i enwi rhai. Mae ein darparwyr Grant Cymorth Tai yn cynnig gwasanaethau sydd yn cyd fynd á'r llwybrau hyn ac yn cael eu monitro yn rheolaidd yn erbyn eu contract.<br><br>Rydym wedi ail-bwrpasu ein tim er mwyn ymateb i atal ac asesu digartrefedd. Mae'r strwythur yn caniatáu ymateb yn gynt i achosion. Gennym drefniadau cadarn ar gyfer asesu bob person sydd yn dod i gyswllt gyda ni ag sydd angen ymateb i atal digartrefedd neu ymateb brys i ddigartrefedd.<br>Darparwyd tystiolaeth o'n broses triage, cynllun atal digartrefedd a nifer o'r llwybr mynediad i tai a chefnogaeth fel tystiolaeth.<br><br>Credwn fod aelodau o'r tim yn cael eu cefnogi er mwyn mynd i'r afael â'r galw am lety dros dro nawr ac yn y dyfodol. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol i fonitro achosion ac amser mae cleientiaid mewn llety argyfwng er mwyn eu symud ymlaen i gartref mwy addas dros dro. Mae bob swyddog gyda cynllun | |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| | gwaith am y flwyddyn gyda cyfarfodydd rheolaidd gyda eu rheolwr llinell. Mae aelodau o'r Tim yn cwblhau cyrsiau CIH er mwyn gwella eu cymwysterau gyda 2 swyddog wedi hyfforddi mewn 'PIE trauma informed'<br>Mae'r strwythur yn hwyluso delio gyda achosion o ddigartrefedd drwy brosesau a dulliau gwaith, cynnwys hyn swyddog pwynt cyswllt cyntaf sydd yn rhoi cyngor ac opsiynau i'r client yn ogystal a chyfeirio ymlaen am gefnogaeth drwy GCT ar y pwynt cyntaf hwnnw.<br><br>Enghraifft arall o fod yn rhagweithiol yw rôl Cydlynydd Achosion Cymhleth sydd yn cydlynu cyfarfodydd aml asiantaethol er mwyn sicrhau fod cleientiaid yn derbyn y gefnogaeth briodol gan asiantaethau eraill yn ogystal á Grant Cymorth Tai. Mae hyn yn atal sefyllfa yr unigolion rhag mynd yn waeth.<br>Enghraifft o hyn yw gallwn dystiolaethu nifer o bobl sydd wedi gadael carchar sydd wedi derbyn cefnogaeth a'r canlyniad wrth iddynt symud ymlaen.<br><br>Asesiad Anghenion Grant Cymorth Tai yn adnodd i adnabod anghenion gyda Grant Cymorth Tai (GCT) yn cael ei ddyrannu yn unol a'r gofynion o fewn y grwp cleientiaid. Yr Asesiad yma sydd yn llywio ein Cynllun Darparu Grant Cymorth Tai blynyddol ynghyd á'n gwariant o'r grant.<br><br>Rydym yn gweithredu ffurflen symud ymlaen (move-on) ar gyfer achosion atal ac argyfwng er mwyn symud pobl ymlaen | |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| | i'r dai sector preifat. Mae'r broses hefyd ar agor i unigolion o fewn llety a chefnogaeth. Derbynnir cyfeiriadau gan swyddogion cefnogi yn ogystal ag aelodau o'r tîm atal ac argyfwng.<br>Mae hwn yn enghraifft o waith atal mewn sawl ffordd – gall gael ei ddefnyddio i symud pobol o dai gyda rhybudd i mewn i eiddo CLLC ( gan osgoi llety dros dro a digartrefedd) neu/a hefyd symud pobol o lety a chefnogaeth pam maent yn barod. O ganlyniad mae hyn wedyn yn creu lle i bobol newydd symud fewn i eiddo llety chymorth sydd angen y cymorth cyn iddynt dderbyn eiddo parhaol sef posib yn atal digartrefedd yn y dyfodol (gan lleihau y siawns o'r denantiaeth yn methu). | |
| **Gweithio mewn partneriaeth**<br>**A3** Canfuom ei bod hi'n aml yn wir nad yw gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd yn effeithiol. I wella hyn dylai cynghorau:<br>• weithio gyda'u partneriaid i: -adnabod priod rolau a chyfrifoldebau presennol; -cytuno sut i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau a/neu achosion o ddyblygu gwasanaethau<br>• mynd ati'n rheolaidd i werthuso effeithiolrwydd eu trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd. | Mae ein Cynllun Darparu Grant Cymorth Tai yn nodi pa wasanaethau sydd yn cael eu darparu. Mae trefniadau monitro ac adolygu cadarn mewn lle er mwyn sicrhau bod darparwyr yn cefnogi pobl sydd angen cymorth i atal digartrefedd. Mae ein templed monitro ac adolygu wedi adnabod a'i rannu ar draws Gogledd Cymru fel ymarfer cadarnhaol.<br>Rydym yn cynnal cyfarfodydd bob 6 wythnos gyda'r darparwyr i drafod materion gweithredol er mwyn delio gyda unrhyw faterion / dyblygu/ bylchau mewn darpariaeth.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad partneriaeth a rhwydweithio yn Tachwedd 2024 er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiadau, gan gynnwys rhai ag 'lived experience,' o ddigartrefedd<br>Mae nifer o lwybrau mynediad mewn lle sydd yn cynnwys cydweithio gyda Iechyd, Gwasanaeth Prawf, Teulu Môn ac ein darparwyr Grant Cymorth Tai. Mae swyddogion yn rhan o | Ar Waith |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| | wasanaeth pwynt cyswllt cyntaf Gwasanaethau Cymdeithasol (Teulu Môn), yn mynychu wardiau yn Ysbyty Gwynedd ac rydym wedi cynnal digwyddiadau rhannu gwybodaeth gyda Gwasanaeth Prawf.<br><br>Mae'r linciau i asesu effaith gwaith partneriaethau a roddwyd yn eich adroddiad yn edrych yn ddefnyddiol.<br><br>**Gweithred: asesu gwaith partneriaethol i gyd fynd ag amserlen ar gyfer cyflwyno Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-31 gan ddefnyddio adnodd Homelessness Link** | |



## Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn - Lleol – Medi 2025

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **A1** Er mwyn strategol sicrhau ei fod yn defnyddio , dylai'r Cyngor ei gronfeydd wrth gefn yn<br>• 1.1 - ddatblygu meini prawf i benderfynu sut a phryd y dylid sefydlu cronfeydd wrth gefn; a<br>• 1.2 - datblygu protocol corfforaethol ar gyfer adolygu cronfeydd wrth gefn | Caiff ei gwblhau cyn diwedd blwyddyn ariannol 25/26 ac asesir yr holl gronfeydd presennol a cheisiadau am gronfeydd newydd yn unol â'r protocol newydd. | Ar Waith |

## Rhanbarth Gogledd Cymru - Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty - Medi 2024

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| **Gwella hyfforddiant a chanllawiau**<br>**A1** Dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, ddatblygu canllawiau y cytunwyd arnynt ar y cyd i | Mae gennym gyfarfodydd wythnosol gyda'r gwasanaeth iechyd i drafod achosion, gyda dilyniant mwy manwl ar drefniadau a | Mewn Lle |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| ddarparu eglurder i'r holl staff ynglŷn â sut y dylai'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion weithio ledled y rhanbarth. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a dylent nodi rolau a chyfrifoldebau, a disgwyliadau, sydd wedi'u diffinio'n glir gan gynnwys pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer gofal parhaus. | phrosesau i sicrhau ein bod yn cadw at y canllawiau cenedlaethol ac yn datblygu modelau arfer da. | |
| **Gwella hyfforddiant a chanllawiau**<br>**A2** Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i gyfleu canllawiau ynghylch cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion i'r holl staff perthnasol mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio dros dro, gyda hynny'n cael ei ategu gan raglen barhaus o hyfforddiant diweddaru a hyfforddiant sefydlu i staff newydd | Caiff staff ar draws y sefydliad eu hysbysu am y broses yn ystod yr hyfforddiant sefydlu ac mae staff yn cael eu diweddaru am y broses ac unrhyw newidiadau sy'n digwydd. | Mewn Lle |
| **Gwella ansawdd gwybodaeth a'r modd y caiff ei rhannu**<br>**A7** Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gan yr holl staff perthnasol ar draws pob sefydliad fynediad cyson at wybodaeth gyfoes am y gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned sydd o gymorth i ryddhau cleifion o'r ysbyty. Bydd hyn yn sicrhau nad yw cyfleoedd i ryddhau cleifion yn gynharach gyda chymorth gan wasanaethau y tu hwnt i ofal cymdeithasol yn cael eu colli. | Bu ymdrech i ddatblygu Dangosfwrdd a rennir ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gennym wybodaeth gyson sy'n cael ei diweddaru'r fyw. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gweithio o'r un wybodaeth ac yn gallu addasu wrth i amgylchiadau newid. | Ar Waith |
| **Gwella ansawdd gwybodaeth a'r modd y caiff ei rhannu**<br>**A9** Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol roi ffyrdd ar waith y gellir rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu mynediad ehangach at systemau sefydliadol ac, yn y pen draw, datrysiadau TG ar y cyd | Mae hyn wedi bod yn rhywbeth yr ydym wedi bod yn awyddus i'w symud ymlaen ac mae'n cael ei weithredu (gweler uchod) | Ar Waith |
| **Mynd i'r afael â bylchau allweddol mewn capasiti**<br>**A10** Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol gydweithio i ddatblygu datrysiadau ar y cyd i fynd i'r afael | Mae cyflwyno'r Grant Trawsnewidiol wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth ac ailfodelu rhywfaint o'r | Ar Waith |

Tudalen 176

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
| --- | --- | --- |
| â bylchau allweddol yng nghapasiti gwasanaethau, yn enwedig gofal cartref a gwasanaethau ail alluogi a fyddai'n ei gwneud yn bosibl rhyddhau cleifion i'w cartref eu hunain yn fwy amserol. | ddarpariaeth, yn ogystal â sicrhau bod menter 'Am Adra' yn cael ei chyllido ar sail barhaol. | |
| **Cynyddu defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i'r Eithaf**<br>**A11** Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), ddangos sut y maent yn gweithio i fynd ati'n fwyfwy i brif ffrydio cynlluniau hirsefydlog a gyllidir trwy RIF yr ystyrir eu bod yn wasanaethau craidd. | Mae trafodaethau parhaus ynghylch sut rydym yn cefnogi prosiectau RIF yn symud ymlaen ac yn rhannu arfer da. Mae rhai mentrau yn cael eu hailfodelu ac rydym hefyd yn rhoi gwybod i dderbynwyr nad oes sicrwydd o gyllid parhaus y tu hwnt i Fawrth 2027. Fodd bynnag, bydd yn heriol i brif ffrydio'r holl fentrau. | Ar Waith |
| **Cynyddu defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i'r Eithaf**<br>**A12** Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol, trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gytuno ar broses ar gyfer defnyddio unrhyw arian llithriant o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y dyfodol, gan sicrhau y ceir gwerth a budd priodol o wariant o'r fath. | Mae gennym nifer o brosiectau y gellir eu hystyried pe bai unrhyw brinder mewn cyllid ac i sicrhau ein bod yn defnyddio ein dyraniad yn llawn. | Mewn Lle |
| **Cynyddu defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i'r Eithaf**<br>**A13** I helpu i oleuo prosesau penderfynu a thrafodaethau, dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol:<br><br>13.1. sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fynediad rheolaidd at ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i lif effeithiol ac amserol allan o'r ysbyty, gan gynnwys perfformiad gofal brys ac argyfwng o fewn y Bwrdd Iechyd a rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a phecynnau gofal; a<br><br>13.2. defnyddio trefniant gweithio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cofrestr risgiau ranbarthol sy'n | Mae gwybodaeth yn cael ei monitro i sicrhau bod gennym gofnod o bob achos wedi'i Optimeiddio'n Glinigol gyda ffocws ar hyd arosiadau ac ar nifer yr achosion sy'n aros. Caiff y rhain eu hadolygu'n wythnosol ac rydym yn gwirio'r wybodaeth bob dydd Gwener i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o'r holl godau. | Ar Waith |

| Argymhellion | Diweddariad | CAMG |
|---|---|---|
| dwyn ynghyd y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn rhyddhau | | |
| **Gwella goruchwyliaeth ac effaith**<br>**A14** Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth sy'n nodi cynnydd gyda gweithgareddau a mentrau arwyddocaol a gyflawnir i roi cymorth i ryddhau cleifion yn effeithiol ac yn amserol ar gael yn rheolaidd ar lefel gorfforaethol ac ar lefel partneriaeth. Dylai hyn gynnwys gweithgareddau a mentrau a gyflawnir yn unigol ac ar y cyd, o fewn strwythur y BPRh a'r tu allan iddo, eu heffaith a sut y maent yn cyfrannu ar y cyd at ymdrin â'r heriau. Bydd hyn yn helpu i ddarparu sicrwydd bod adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn modd sy'n cael yr effaith orau | Caiff gwybodaeth ei hadolygu bob mis gan Reolwyr Gwasanaeth ac Arweinwyr Tîm, ac mae achosion anodd yn cael eu trafod ar y cyd i sicrhau bod pob opsiwn wedi'i ystyried. | Ar Waith |
| **Gwreiddio gwersi o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion**<br>**A15** Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod mecanweithiau'n bodoli i roi gwersi ar waith o gamau gweithredu a gymerwyd i ymdrin ag achosion o oedi cyn rhyddhau, megis y Digwyddiadau Rhyddhau Amlasiantaeth (MADE), ac i gynnal goruchwyliaeth reolaidd i sicrhau bod y gwersi'n cael eu rhoi ar waith. | Mae digwyddiadau MADE wedi'u defnyddio. Rydym hefyd wedi cynnal diwrnodau datblygu i edrych ar sut y gallwn wella'r gwasanaeth ac mae gweithredu Am Adra wedi rhoi mwy o ysgogiad i'r broses. Mae staff gwasanaethau cymdeithasol bellach yn mynychu Ysbyty Gwynedd ac rydym wedi defnyddio'r gwasanaeth adferiad i dynnu unigolion allan o'r ysbyty. | Mewn Lle |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad:** | 4 Rhagfyr 2025 | |
| **Pwnc:** | Nodyn Briffio Archwilio Cymru: Diweddariad ar y Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru | |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Andrew Lewis<br>Swyddog Yswiriant ac Atal Twyll<br>AndrewLewis@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol iddo oruchwylio trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau twyll a llygredd, gan roi sicrwydd eu bod yn addas i'r diben ac y byddant yn hyrwyddo arferion atal twyll a llygredd o fewn y sefydliad ehangach (3.4.8.9.2). Mae'r nodyn briffio gan Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad ar gynnydd, ar lefel genedlaethol a lleol, mewn perthynas ag ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol a gychwynnodd yn 2024-25. | | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhaglen atal twyll ledled y DU yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a gynhelir bob dwy flynedd ar y cyd a'r Awdurdod Twyll yn y Sector Cyhoeddus, sy'n gweithredu o dan awdurdod Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EF, ac mae'n canolbwyntio ar reoli a lleihau effaith twyll yn y sector cyhoeddus. Mae'r ymarfer yn paru data er mwyn canfod ac atal twyll.

1.2 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru'n cael ei gweithredu o dan awdurdod statudol yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol unedol, cyrff y GIG, lluoedd yr heddlu a gwasanaethau tân ac achub gymryd rhan.

1.3 Mae'r nodyn briffio hwn gan Archwilio Cymru yn darparu diweddariad o'r sefyllfa ynn genedlaethol ar 31 Gorffennaf 2025 ac mae'n annog y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu i ymofyn manylion lleol ychwanegol gan swyddogion arweiniol.

1.4 Derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiweddariad ar y manylion lleol yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2025. Roedd ein hadroddiad yn manylu ar gynnydd mewn perthynas â'n hadolygiad o'r pariadau data (Atodiad 2 - Crynodeb o Ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25) a chan fod nifer yr achosion o dwyll/camgymeriadau a nodwyd mewn perthynas â'r meysydd paru a ddadansoddwyd yn isel, daeth i'r casgliad fod hynny'n darparu sicrwydd fod systemau rheolaethau mewnol cadarn ar waith, h.y. mewn perthynas â thenantiaid Tai / Rhestrau Aros, y Gyflogres a Chaffael.

1.5 Er nad yw'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi dadansoddi'r pariadau'n gysylltiedig â Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor, mae'n bwriadu defnyddio darparwr allanol i gynnal adolygiad o ddisgowntiau ac eithriadau cyn diwedd 2025-26.

1.6 O ganlyniad, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gymryd mantais lawn o ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol drwy ddadansoddi'r pariadau mwyaf gwerthfawr, fel yr amlygir yn Arddangosyn 3 ac Arddangosyn 6 yn nodyn briffio Archwilio Cymru. Mae Archwilio Cymru yn argymell y dylai pariadau data yn gysylltiedig â Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor a phariadau mewn adroddiadau allweddol gael eu trin fel rhai o 'risg uchel iawn'.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi nodyn briffio Archwilio Cymru a'i fod yn derbyn sicrwydd bod y cyngor, gan ystyried yr angen i flaenoriaethu ei adnoddau, yn ceisio manteisio ar gyfleoedd a ddarperir gan y Fenter Twyll Genedlaethol i ddefnyddio dulliau dadansoddi data i gryfhau trefniadau atal a chanfod twyll.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Nodyn Briffio

# Menter Twyll Genedlaethol 2024-25: diweddariad ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

## Ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol

1 Ymarfer gwrth-dwyll a gynhelir ledled y DU bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n helpu i atal a chanfod twyll drwy rannu a pharu setiau data yn electronig. Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithio yn **Atodiad 1**.

2 Yng Nghymru, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithredu o dan bwerau statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Mae cyfranogiad yn orfodol ar gyfer awdurdodau lleol unedol, cyrff y GIG, heddluoedd, ac awdurdodau tân ac achub. Ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer diweddaraf ar sail wirfoddol mae Llywodraeth Cymru, rhai o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Trafnidiaeth Cymru), a Chyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru.

3 Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi diweddariad ar ymarfer diweddaraf Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 ar lefel genedlaethol ac ar 31 Gorffennaf 2025. Mae hefyd yn darparu rhywfaint o ddata ar lefel leol ar gyfer eich sefydliad, er ein bod yn annog y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i geisio rhagor o fanylion lleol gan swyddogion arweiniol.

## Cyflwyno data ar gyfer 2024-25

4 Mae ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn mynd rhagddo. Cyflwynodd cyfranogwyr ddata ar gyfer y swp-ymarfer paru data eilflwydd ym mis Hydref 2024. Roedd hyn yn cynnwys data ar fudd-daliadau tai, tenantiaid tai a rhestrau aros, cardiau parcio bathodynnau glas, trwyddedau, a gwahanol daliadau fel taliadau credydwyr, cyflogres, a phensiynau.

5 Rhyddhaodd Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus y DU y rhan fwyaf o'r adroddiadau paru data i gyfranogwyr erbyn diwedd Rhagfyr 2024. Caiff data ynghylch y dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol ei gyflwyno'n flynyddol. Y dyddiad cau diweddaraf ar gyfer cyflwyno'r data hwn oedd Chwefror 2025.

6 Mae gweithrediadau data atodol yn digwydd yn ystod yr ymarfer i brosesu cyflwyniadau data newydd, anghyflawn neu ddata sydd ar goll. Er enghraifft, mae cynnydd yn cael ei wneud i newid Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 trwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol a fydd yn galluogi'r Fenter Twyll Genedlaethol i ddychwelyd i baru data gofal cymdeithasol oedolion yn ystod ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.

## Diweddariad cenedlaethol

## Paru data ac ymchwilio

7 Hyd yma, mae bron i 440,000 o bariadau data wedi'u nodi ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos bod y rhan fwyaf o'r pariadau hyn ar gyfer awdurdodau unedol a chyrff iechyd.

**Arddangosyn 1: Pariadau data cyfranogwyr Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru yn ôl math o sefydliad, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Math o sefydliad | Nifer y pariadau data | % o bariadau data |
|---|---:|---:|
| Awdurdod unedol | 373,114 | 84.9 |
| Iechyd | 50,409 | 11.5 |
| Heddlu | 2,641 | 0.6 |
| Tân ac achub | 740 | 0.2 |
| Arall | 12,749 | 2.9 |
| **Cyfanswm** | **439,653** | **100.0** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Nid yw cyfanswm y % yn cyfateb i'r % unigol oherwydd talgrynnu.

8 Mae paru data yn nodi hawliadau a thaliadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Ni ellir gwneud unrhyw ragdybiaeth ynghylch a oes twyll, gwall neu esboniad arall nes bod ymchwiliad wedi cael ei gynnal. Er enghraifft, gall fod canlyniadau positif anghywir ynghylch taliadau credydwyr os yw cyrff yn gwneud taliadau fesul cam o'r un swm yn fwriadol.

9 Rydym yn cydnabod nad yw’n ymarferol ymchwilio i’r holl ddata sy’n cael ei baru, yn enwedig ar gyfer cyrff sydd â nifer mawr o bariadau. Caiff cyrff eu hannog i gymryd dull seiliedig ar risg o asesu adroddiadau paru data a phenderfynu pa fath o bariadau data, a sawl un, y byddant yn ymchwilio iddynt.

10 Erbyn diwedd Gorffennaf 2025, nid oedd pump o’r cyrff a gymerodd ran wedi cau unrhyw bariadau data. Mae rhai cyfranogwyr yn gwneud cynnydd da wrth adolygu pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, tra bod eraill wedi gwneud cynnydd cyfyngedig.

11 Mae **Arddangosyn 2** yn dangos cyfanswm y pariadau data ar gyfer pob maes paru data. Mae hefyd yn dangos nifer y pariadau data sydd wedi cau mewn maes paru data, ynghyd â nifer y cyfranogwyr sydd â phariadau yn y maes hwnnw. Mae absenoldeb pariadau sydd wedi cau yn awgrymu nad yw'r cyfranogwr wedi mynd ati i adolygu unrhyw bariadau yn y maes hwnnw.

**Arddangosyn 2: Pariadau data cyfranogwyr Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru sydd wedi’u prosesu a’u cau, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pariadau data | Pariadau data wedi cau | Cyfranogwyr â phariadau data | Cyfranogwyr heb unrhyw statws ‘wedi cau’ ar gyfer eu pariadau |
|---|---|---|---|---|
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 198,146 | 5,385 | 22 | 11 |
| Credydwyr | 187,228 | 19,791 | 48 | 16 |
| Cynllun gostyngiadau’r dreth gyngor | 16,578 | 3,547 | 22 | 1 |
| Bathodynnau glas | 10,377 | 5,849 | 22 | 3 |
| Cyflogres | 8,150 | 1,705 | 46 | 6 |
| Rhestrau aros tai | 6,359 | 1,392 | 18 | 5 |
| Tenantiaid tai | 4,636 | 879 | 11 | 2 |
| Pensiynau | 2,962 | 1,098 | 12 | 4 |
| Parcio i breswylwyr | 2,405 | 2,368 | 8 | 1 |
| Caffael | 1,985 | 400 | 42 | 28 |
| Budd-dal tai | 826 | 483 | 22 | 2 |
| Gyrwyr tacsi | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **439,653** | **42,898** | **49** | **5** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe’r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Ar ôl asesu risg adroddiadau paru data ac unrhyw ymchwiliadau dilynol, dylai pob pariad data gael ei 'gau' a dylid rhoi statws paru iddo. Mae sawl math o statws 'wedi cau'. Dylai pariadau nad ydynt wedi bod yn destun ymchwiliad gael statws 'Wedi cau – Ni chafodd ei ddewis ar gyfer ymchwiliad'. Gellir swp-ddewis statws paru pariadau data neu bennu'r statws yn unigol.

### Canlyniadau

12 Cofnododd cyfranogwyr yng Nghymru ganlyniadau o £4.7 miliwn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Gorffennaf 2025. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos pa broses baru y mae'r canlyniadau yn gysylltiedig â hi.

**Arddangosyn 3: Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol a gofnodwyd gan gyfranogwyr o Gymru, 1 Ebrill 2024 i 31 Gorffennaf 2025**

| Ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol | Canlyniadau (£oedd) |
|---|---|
| Ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 (ymarfer eilflwydd) | 1,719,037 |
| Arbedion hwyr o ymarfer Menter Twyll Genedlaethol (ymarfer eilflwydd) | 867,157 |
| Ymarferion paru data blynyddol y dreth gyngor | 2,080,831 |
| **Cyfanswm** | **4,667,025** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Mae canlyniadau'n cynnwys (i) y symiau gwirioneddol y mae cyfranogwyr wedi'u cofnodi fel twyll neu wallau; a (ii) elfennau amcangyfrifedig sy'n ceisio nodi gwerth y golled o dwyll neu wallau a ganfuwyd, a gwerth unrhyw golledion yn y dyfodol y gall y corff hwnnw fod wedi mynd iddynt heb ymyriad yn dilyn achos o baru data'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae gan y rhan fwyaf o setiau data fethodoleg i gyfrifo arbedion amcangyfrifedig. Caiff pob methodoleg ei hadolygu gan Fwrdd Llywodraethu Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa'r Cabinet a'i chymeradwyo gan Banel Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet.

## Diweddariad lleol

13 Caiff unrhyw ddata sy'n cael ei baru ei ryddhau mewn adroddiadau paru data. Mae gan bob adroddiad diben wahanol ac mae'n cymharu data o ddwy set ddata neu fwy. Caiff yr adroddiadau eu rhannu'n fathau o setiau data: er enghraifft, budd-dal tai, cyflogres, neu gredydwyr.

14 Dylai asesiad risg sefydliad o'r adroddiadau paru data bennu'r mathau o bariadau data a nifer y pariadau data y dylid ymchwilio iddynt. I gefnogi'r gwaith o asesu risg, mae

cymhwysiad gwe’r Fenter Twyll Genedlaethol yn nodi bod rhai adroddiadau paru data yn ‘adroddiadau allweddol’ gyda chyfraddau llwyddiant uchel yn hanesyddol o ran nodi twyll neu wallau. Hefyd, rhoddir sgôr i’r rhan fwyaf o bariadau data unigol o ran y risg o dwyll.

15 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos cyfanswm y pariadau data a nodwyd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, ynghyd â’r rhai a gofnodwyd mewn adroddiadau allweddol. Mae **Atodiad 2** yn darparu dadansoddiad pellach o’r pariadau data hyn yn ôl sgôr risg twyll.

**Arddangosyn 4: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Cyngor Sir Ynys Môn, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pariadau data ym mhob adroddiad | Pariadau data mewn adroddiadau allweddol sydd â chyfraddau llwyddiant uchel yn hanesyddol |
|---|---:|---:|
| Bathodynnau glas | 270 | 243 |
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 5,284 | 5,284 |
| Cynllun gostyngiadau’r dreth gyngor | 506 | 452 |
| Credydwyr | 1,889 | 1,438 |
| Budd-dal tai | 7 | 6 |
| Rhestrau aros tai | 26 | 18 |
| Tenantiaid tai | 194 | 129 |
| Cyflogres | 102 | 96 |
| Caffael | 40 | 40 |
| **Cyfanswm** | **8,318** | **7,706** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe’r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Nid yw adroddiadau paru data disgownt person sengl y dreth gyngor yn cael eu dynodi’n ‘adroddiadau allweddol’ yn ffurfiol ond cânt eu trin fel rhai yn ymarferol.

16 Gall sawl ffactor ddylanwadu ar pa adroddiadau paru data yr edrychir arnynt a phryd y bydd hyn yn digwydd. Er enghraifft, gall sefydliad roi blaenoriaeth i edrych ar adroddiadau cyfateb data sy'n gysylltiedig â meysydd lle mae ganddo bryderon am reolaethau mewnol neu lle mae hanes o dwyll neu wallau. Hefyd, bydd cyflymder y cynnydd yn dibynnu ar adnoddau lleol. Am y rhesymau hyn, nid yw’r diweddariad cyffredinol hwn yn rhoi rhagor o

fanylion ynghylch lle mae gwaith prosesu a chanlyniadau yn cael eu cofnodi gan eich sefydliad ar y cam hwn.

17 Mae cymhwysiad gwe’r Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys dangosfwrdd ac mae’n darparu adroddiadau gwahanol am ganlyniadau a gweithgarwch prosesu. Rydym yn annog y rheiny sy’n gyfrifol am lywodraethu i geisio diweddariadau mwy manwl am waith prosesu a chanlyniadau a gofnodwyd gan eu Huwch Swyddog Cyfrifol a’u Cyswllt Allweddol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

## Gwaith Archwilio Cymru yn y dyfodol

18 Ar gyfer yr ymarfer Menter Twyll Genedlaethol hwn, byddwn yn cynnal asesiad lefel uchel o drefniadau llywodraethu a threfniadau dilynol cyfranogwyr. Byddwn yn ymgysylltu â chyrff dros yr hydref/dechrau'r gaeaf i ystyried materion sydd ar ein rhestr wirio hunanarfarnu ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.[1] Byddwn hefyd yn dadansoddi'r asesiad risg a'r gwaith prosesu paru data a gynhaliwyd, a'r canlyniadau a gofnodwyd gan gyfranogwyr, fel y'u hadlewyrchir yng nghymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol.

19 Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau a adroddir gan gyrff unigol a'r amrywiadau rhyngddynt. Bydd canfyddiadau'r asesu hwn yn llywio ein hadroddiad cenedlaethol nesaf yn hydref 2026.

[1] Ym mis Rhagfyr 2024, rhannwyd y rhestr wirio wedi'i diweddaru gydag uwch swyddogion cyfrifol a chysylltiadau allweddol y Fenter Twyll Genedlaethol. Anogwyd pob corff i'w chwblhau a'i rhannu â'r rhai â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Atodiad 1 – Y Fenter Twyll Genedlaethol

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio paru data i ganfod ac atal twyll. Mae'n cymharu setiau data yn electronig yn erbyn cofnodion eraill a ddelir gan yr un corff a chyrff eraill, i weld i ba raddau maent yn cyfateb.

Mae'r gwaith paru data yn dangos anomaleddau neu anghysondebau sy'n nodi achosion posibl o dwyll neu wallau. Caiff arwyddion o dwyll posib eu hadrodd i'r cyfranogwyr, sy'n gyfrifol am weithredu ar y pariadau hyn.

Mae effeithiolrwydd y Fenter Twyll Genedlaethol yn dibynnu ar drylwyredd yr asesiad a'r ymchwiliad i'r pariadau a'r gwaith o gofnodi canlyniadau.

Mae'r cyrff yn cofrestru'r canlyniadau yng nghymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae gan bob corff sy'n cymryd rhan Uwch Swyddog Cyfrifol enwebedig a Chyswllt Allweddol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol, a all fod yr un person mewn rhai achosion.

Mae Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus y DU, sy'n rhan o  Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Thrysorlys EM, yn goruchwylio'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU. Mae Archwilio Cymru yn arwain yr ymarfer yng Nghymru o dan bwerau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae Cod Ymarfer Paru Data yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r rheolaethau a'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n llywodraethu'r ymarfer yng Nghymru.

Cyhoeddwyd adroddiad ar ganlyniadau ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 ym mis Hydref 2024. Caiff adroddiadau ar y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer rhannau eraill o'r DU eu cynhyrchu gan yr Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, Audit Scotland, a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.

Nid oes unrhyw gost uniongyrchol i'r cyfranogwyr am gymryd rhan yn yr ymarfer. Mae Archwilio Cymru yn derbyn cyllid, drwy Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n talu i gyrff gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae hyn yn cwmpasu'r gwaith prosesu paru data canolog ar gyfer yr ymarfer eilflwydd, yn ogystal â'r ymarfer blynyddol ar gyfer setiau data'r dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol. Felly oedd hi o hyd ar gyfer ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. Felly, y prif gostau i'r cyfranogwyr yw'r adnoddau a ddefnyddir i gyflwyno data a chynnal gwaith dilynol unwaith y bydd pariadau data yn cael eu rhyddhau.

## Atodiad 2 – Dadansoddiad o bariadau data yn ôl sgôr risg twyll ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn pennu sgôr risg twyll (risg uchel iawn, risg uchel, neu risg ganolig) i'r rhan fwyaf o'r pariadau data, ond nid pob un. Mae'r sgôr risg hon yn seiliedig ar gyfuniad o ddau ffactor:

- Rhesymeg risg – set o feini prawf ar gyfer pob cyfuniad set ddata sydd, pan gaiff ei chyflawni, yn nodi bod canlyniad twyllodrus yn fwy tebygol o ddigwydd.
- Sgôr ôl troed – sawl gwaith mae unigolyn mewn pariad yn ymddangos yn y cyfeiriad ar draws holl ddata'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n arwydd o p'un a yw'r person hwnnw'n byw yn y cyfeiriad hwnnw.

Mae **Arddangosyn 5** ac **Arddangosyn 6** yn darparu dadansoddiad pellach o bariadau data Cyngor Sir Ynys Môn yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data ym mhob adroddiad paru data a'r rhai mewn adroddiadau allweddol. Mae'r dadansoddiad hwn yn adeiladu ar **Arddangosyn 4** ym mhrif gorff y nodyn briffio hwn. Ni chaiff sgôr risg ei phennu ar gyfer pob pariad data. Yn gyffredinol, dylid ystyried bod pariadau data disgownt person sengl y dreth gyngor a phariadau mewn adroddiadau allweddol na chaiff sgôr risg ei rhoi iddynt yn rhai 'risg uchel iawn' yn ymarferol.

**Arddangosyn 5: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Cyngor Sir Ynys Môn yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data ym mhob adroddiad, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pob pariad data | Risg uchel iawn | Risg uchel | Risg ganolig | Dim sgôr risg |
|---|---|---|---|---|---|
| Bathodynnau glas | 270 | 244 | 26 | 0 | 0 |
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 5,284 | - | - | - | - |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | 506 | 16 | 132 | 51 | 307 |
| Credydwyr | 1,889 | 223 | 1,666 | 0 | 0 |
| Budd-dal tai | 7 | 4 | 1 | 0 | 2 |
| Rhestrau aros tai | 26 | 26 | 0 | 0 | 0 |
| Tenantiaid tai | 194 | 38 | 1 | 19 | 136 |
| Cyflogres | 102 | 37 | 8 | 10 | 47 |
| Caffael | 40 | 0 | 0 | 0 | 40 |
| **Cyfanswm** | **8,318** | **588** | **1,834** | **80** | **532** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

**Arddangosyn 6: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Cyngor Sir Ynys Môn yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data mewn adroddiadau allweddol, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pob pariad data | Risg uchel iawn | Risg uchel | Risg ganolig | Dim sgôr risg |
|---|---|---|---|---|---|
| Bathodynnau glas | 243 | 217 | 26 | 0 | 0 |
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 5,284 | - | - | - | - |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | 452 | 16 | 104 | 31 | 301 |
| Credydwyr | 1,438 | 201 | 1,237 | 0 | 0 |
| Budd-dal tai | 6 | 4 | 0 | 0 | 2 |
| Rhestrau aros tai | 18 | 18 | 0 | 0 | 0 |
| Tenantiaid tai | 129 | 3 | 0 | 1 | 125 |
| Cyflogres | 96 | 37 | 4 | 9 | 46 |
| Caffael | 40 | 0 | 0 | 0 | 40 |
| **Cyfanswm y pariadau data** | **7,706** | **496** | **1,371** | **41** | **514** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i** | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 4 Rhagfyr 2025 |
| **Pwnc** | Rheoli Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn yn Strategol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry |
| **Rheswm dros Adrodd**<br>• Mae paragraff 3.4.8.11.3 o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor yn nodi: "Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn gwneud sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.<br>• Dylai'r G&AC adolygu'r adroddiad a bod yn sicr bod y cyngor wedi darparu adlewyrchiad cywir o'r ffordd y byddwn yn ymateb i argymhelliad Archwilio Cymru | |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Amcan yr archwiliad hwn oedd:

- edrych ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Canolbwyntiodd ar lywodraethu, rheoli risg, adrodd ariannol, a sut mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda i gefnogi sefydlogrwydd hirdymor.

## 2.0 Canfyddiadau

2.1 Ar y cyfan, canfu Archwilio Cymru fod **y Cyngor yn rheoli ac yn adolygu cronfeydd wrth gefn yn rheolaidd yn effeithiol ond y byddai'n elwa o sefydlu protocolau ffurfiol ar gyfer eu defnyddio a'u hailgyflenwi. Byddai meini prawf cliriach ar sefydlu a chadw cronfeydd wrth gefn a chynllunio ymlaen llaw eu cynnal yn gwella gwytnwch ariannol hirdymor.**

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Adolygu'r archwiliad archwilio a'r ddau argymhelliad.
- Yn derbyn sicrwydd fod y ffurflen ymateb sefydliad yn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor o'r camau a gymerwyd gan y cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn

Cyngor Sir Ynys Môn

Medi 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn  fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan International Organisation of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

# Cynnwys


Ciplun Archwiliad 4

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 6

Ein canfyddiadau 8

Argymhellion 12

1 Ynglŷn â'n gwaith 14

# Ciplun archwilio

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am ofalu am ei gronfeydd wrth gefn ariannol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod digon o arian wedi'i neilltuo i ddelio â digwyddiadau annisgwyl, tra hefyd yn buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith i gefnogi'r gymuned a chynnal gwerth am arian.

2 Edrychodd yr archwiliad hwn ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Canolbwyntiodd ar lywodraethu, rheoli risg, adrodd ariannol, a sut mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda i gefnogi sefydlogrwydd hirdymor.

## Pam mae hyn yn bwysig

3 yn helpu cynghorau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, rheoli risgiau, ac ymateb yn hyblyg i anghenion lleol sy'n newid. Drwy sicrhau gwerth am arian, gall cynghorau gefnogi blaenoriaethau cymunedol, cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a diogelu sefydlogrwydd ariannol hirdymor, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio lle mae ganddynt yr effaith gymdeithasol ac economaidd fwyaf.

4 Drwy sicrhau rheolaeth gadarn o gronfeydd wrth gefn, gall Cyngor Sir Ynys Môn lywio ansicrwydd ariannol, cefnogi gwasanaethau hanfodol, a chyflawni ei amcanion strategol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym


5 Mae'r Cyngor yn rheoli ac yn adolygu cronfeydd wrth gefn yn effeithiol ac yn rheolaidd ond byddai'n elwa o sefydlu protocolau ffurfiol ar gyfer eu defnyddio a'u hailgyflenwi. Byddai meini prawf cliriach ar sefydlu a chadw cronfeydd wrth gefn a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer eu cynnal a'u cadw yn gwella gwydnwch ariannol hirdymor.

## Yr hyn a argymhellir gennym

Rydym yn gwneud un prif argymhelliad i ffurfioli sut mae'r Cyngor yn sefydlu ac yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn. Dylai hyn wella ei drefniadau wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn sy'n helpu i sicrhau gwerth am arian.


# Ffeithiau a ffigurau allweddol

7 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos pa ganran o wariant Cyngor Sir Ynys Môn a gadwyd mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy rhwng 2015-16 a 2023-24. Dangosir hyn ochr yn ochr â'r uchafswm a'r isafswm a gadwyd, a'r cyfartaledd.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn drwy Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol Archwilio Cymru

8 Mae **Arddangosyn 2** yn dangos cyfanswm y cronfeydd refeniw wrth gefn defnyddiadwy (fesul £miliwn), heb eu gwarchod gan gyfraith a gadwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn ochr yn ochr â chyfartaledd Cymru, fesul £miliwn, rhwng 2015-16 a 2023-24.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn drwy Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol Archwilio Cymru

9 Mae rhagor o ddata ar gael ar Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol Archwilio Cymru. Mae'r offeryn hwn yn cymharu data ariannol ar gyfer pob cyngor, parc cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru o 2015-16 ymlaen. Gweler: Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Audit Wales

# Ein canfyddiadau

## Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu llywodraethu a'u goruchwylio yn effeithiol

10 Mae dull y Cyngor o reoli cronfeydd wrth gefn yn cyd-fynd yn glir â'i strategaeth ariannol gyffredinol. Gwelir tystiolaeth o'r aliniad hwn yn y ffordd y mae asesiad cydnerthedd ariannol y Cyngor wedi'i ymgorffori yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig, yn dilyn argymhelliad gan archwilwyr mewnol. O ganlyniad, gall y Cyngor gynllunio'n fwy hyderus ar gyfer pwysau ariannol yn y dyfodol, gan gefnogi darparu gwasanaethau yn gynaliadwy.

11 Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn chwarae rhan allweddol mewn llywodraethu. Mae swyddogion ac aelodau'n derbyn cyngor trwy adroddiadau a chyflwyniadau aml sy'n amlinellu lefelau cronfeydd wrth gefn, defnydd arfaethedig, a risgiau posibl. Mae hyn yn sicrhau bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn parhau i fod yn wybodus ac mae'n ddangosydd o atebolrwydd cadarn.

12 Mae prosesau'r Cyngor ar gyfer adrodd a chraffu yn glir ac yn hygyrch. Mae ei Gyfrifon diwedd blwyddyn yn cynnwys Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a nodiadau cysylltiedig. Caiff y Datganiad ei adolygu gan uwch swyddogion a'i rannu â phwyllgorau allweddol. Mae hyn yn rhoi hyder i randdeiliaid bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu monitro, eu craffu, a'u defnyddio at eu diben bwriadedig.

## Mae dealltwriaeth o gronfeydd wrth gefn yn gryf, ond mae protocolau'n anffurfiol

13 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r mathau o gronfeydd wrth gefn a balansau sydd ganddo. Mae hyn yn amlwg o restr gynhwysfawr yn ei Ddatganiad Cyfrifon, sy'n manylu ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai

wedi'u clustnodi[1]. Mae'r eglurder hwn yn caniatáu i randdeiliaid weld sut mae adnoddau ariannol yn cael eu categoreiddio ac yn cefnogi adrodd ariannol tryloyw.

14 Mae'r Cyngor yn asesu digonolrwydd ei gronfeydd wrth gefn yn rheolaidd. Er enghraifft, mae meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru yn darparu un ffynhonnell sicrwydd bod lefelau cronfeydd wrth gefn yn gymesur. Yn ogystal, cadarnhaodd archwiliad mewnol yn 2024 ymrwymiad y Cyngor i gynnal o leiaf 5% o'i gyllideb refeniw net mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol; targed a lywiwyd gan berfformiad yn y gorffennol ac a gynlluniwyd i glustogi yn erbyn pwysau ariannol annisgwyl. Mae'r dull hwn yn helpu i gynnal gwydnwch ariannol ac yn tawelu meddyliau aelodau a'r cyhoedd bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd tebyg i awdurdodau lleol eraill.

15 Fodd bynnag, nid oes protocol clir yn tywys y Cyngor drwy sefydlu, defnyddio ac adolygu pob cronfa wrth gefn. Gall absenoldeb protocolau ffurfiol arwain at anghysondebau yn y ffordd y mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu creu neu eu cymhwyso yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn creu risg nad yw cronfeydd wrth gefn wedi'u gosod ar y lefelau priodol sy'n gwneud y defnydd gorau o'r balansau.

[1] Cronfeydd wrth gefn cyffredinol yw cronfeydd a gedwir heb unrhyw ddiben penodol, gan wasanaethu fel rhwyd ddiogelwch ariannol ar gyfer costau annisgwyl, argyfyngau, neu amrywiadau mewn refeniw. Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yw cronfeydd a neilltuwyd ar gyfer prosiectau, mentrau neu wariant penodol.

## Mae rheoli risg yn llywio strategaeth cronfeydd wrth gefn, ond nid oes cynllun clir ar gyfer cynnal balansau

16 Mae'r Cyngor wedi adolygu sut mae ei drefniadau rheoli risg wedi'u hintegreiddio â'i ddull o ymdrin â chronfeydd wrth gefn. Mae cydnerthedd ariannol yn ymddangos fel risg allweddol ar y Gofrestr Risg Strategol, gyda llywodraethu a rheolaeth ohono yn cael eu barnu fel rhai rhesymol gadarn gan archwiliad mewnol yn 2024. Mae'r aliniad hwn yn galluogi'r Cyngor i nodi a chynllunio ar gyfer pwysau ariannol sy'n dod i'r amlwg.

17 Mae'r Cyngor yn nodi risgiau fel tuedd optimistiaeth a galw amrywiol yn ei broses o osod cyllideb, gan ystyried y rhain mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi. Er enghraifft, mae cyllideb 2025-26 yn cynnwys dyraniadau i ddiwallu'r galw disgwyliedig mewn gofal cymdeithasol a digartrefedd, gan helpu i ddiogelu parhad gwasanaeth ataliol.

18 Fodd bynnag, er bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn i ddiwallu risgiau a nodwyd, gan gynnwys apeliadau treth gyngor annisgwyl ac ôl-ddyledion, nid oes unrhyw fesurau ffurfiol ar gyfer adfer cronfeydd wrth gefn ar ôl iddynt gael eu gwario. Mae'r Cyngor yn cymryd yswiriant yn erbyn rhai risgiau, ond mae ei ddull o ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn a wariwyd yn aneglur. Gall absenoldeb cynllun strwythuredig i ailgyflenwi danseilio cydnerthedd ariannol hirdymor.

## Mae'r Cyngor yn dryloyw wrth ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn, ond gallai wella cyfathrebu ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn

19 Mae trefniadau adrodd ariannol y Cyngor yn cefnogi tryloywder drwy ddangos yn glir yr effaith ar gronfeydd wrth gefn. Darperir tystiolaeth drwy ddatganiadau manwl o symudiadau mewn cronfeydd, yn unol â chanllawiau CIPFA. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid bod newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn cael eu holrhain a'u hadrodd yn gyson.

20 Mae'r Cyngor yn cyfleu pwrpas a defnydd cronfeydd wrth gefn i randdeiliaid drwy adroddiadau pwyllgor a dogfennau a gyhoeddir ar ei wefan. Mae'r hygyrchedd hwn yn galluogi craffu ac yn helpu i sicrhau atebolrwydd. Fodd bynnag, er bod opsiynau ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn yn cael eu cyflwyno yn ystod ymgynghoriadau cyllideb gyhoeddus, nid yw'r effaith ar lefelau cronfeydd wrth gefn yn eglur. Gall hyn gyfyngu ar ddealltwriaeth o'r canlyniadau hirdymor, gan leihau effeithiolrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Defnyddir cronfeydd wrth gefn yn strategol, ond nid oes ganddynt ddull ffurfiol o ran sut y cânt eu sefydlu a'u cynnal

21 Mae gan gronfeydd wrth gefn bwrpas strategol clir ac mae'r Cyngor yn alinio ei gronfeydd wrth gefn ag amcanion strategol, gan gefnogi Cynllun y Cyngor a chynaliadwyedd ariannol. Er enghraifft, mae Strategaeth Gyfalaf 2024-29 a'r Rhaglen Gyfalaf yn dangos defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi; £1.5m wedi'i neilltuo ar gyfer Canolfan Hamdden Plas Arthur a £0.46m ar gyfer uwchraddio seilwaith TG ysgolion, gydag asesiadau achos wrth achos ar gyfer cyllid grant cyfatebol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at brosiectau blaenoriaeth, gan gefnogi darparu gwasanaethau.

22 Fodd bynnag, nid oes gan drefniadau'r Cyngor feini prawf ffurfiol ar gyfer penderfynu sut y dylid sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn. Er bod penderfyniadau wedi'u seilio ar gynllunio blynyddol ac aliniad strategol, mae diffyg protocolau clir yn golygu bod defnyddio cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar arferion cylchol yn hytrach na rheolau tryloyw, cyson a datganedig. Mae hyn yn peryglu gwneud penderfyniadau adweithiol tymor byr nad yw'n rhoi sicrwydd o ddefnydd strategol tymor hir.

# Argymhellion

**A1** Er mwyn sicrhau ei fod yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn yn strategol, dylai'r Cyngor

1.1 ddatblygu meini prawf i benderfynu sut a phryd y dylid sefydlu cronfeydd wrth gefn; a

1.2 datblygu protocol corfforaethol ar gyfer adolygu cronfeydd wrth gefn.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Adolygodd yr archwiliad hwn ddull y Cyngor o reoli ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau'n strategol. Canolbwyntiodd ar:

- lywodraethu a goruchwylio cronfeydd wrth gefn;
- mathau a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn;
- y berthynas rhwng rheoli risg a rheoli cronfeydd wrth gefn;
- adrodd ariannol a thryloywder; a
- defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

- A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu a goruchwylio digonol ar gyfer ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau?
- A oes gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o fathau a digonolrwydd ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau?
- A yw trefniadau rheoli gwasanaethau a risg y Cyngor yn llywio ei reolaeth strategol o gronfeydd wrth gefn a falansau?
- A yw trefniadau Adrodd Ariannol y Cyngor yn sicrhau tryloywder yn y rheolaeth strategol o'i gronfeydd wrth gefn a'i falansau?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod y defnydd o'i gronfeydd wrth gefn yn effeithiol?

## Meini prawf

Ystyriodd yr archwiliad sut y gwnaeth y Cyngor gymhwyso canllawiau CIPFA, (Chartered Institute of Public Finance and Accountancy) sy'n pwysleisio pwysigrwydd protocolau clir ar gyfer sefydlu, defnyddio ac adolygu cronfeydd wrth gefn. Gwerthusodd rôl y prif swyddog cyllid wrth gynghori ar lefelau cronfeydd wrth gefn, digonolrwydd cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â risgiau a nodwyd, a thryloywder adrodd ariannol. Yn ogystal, archwiliwyd sut mae’r Cyngor yn cynllunio ar gyfer defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn, gan gynnwys y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu sut a phryd y dylid defnyddio cronfeydd wrth gefn.

## Dulliau

Roedd yr archwiliad hwn yn cynnwys adolygiadau dogfennau a chyfweliadau gyda swyddogion ac aelodau.

# Amdanom ni

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallent wella.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

# Ffurflen ymateb rheolwyr

Archwilio Cymru
Audit Wales

| At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig | |
|---|---|
| Corff a archwilir | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Enw'r archwiliad | Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn |
| Dyddiad cyhoeddi | Medi 2025 |



| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| **A1** | Er mwyn sicrhau ei fod yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn yn strategol, dylai'r Cyngor<br><br>1.1 ddatblygu meini prawf i benderfynu sut a phryd y dylid sefydlu cronfeydd wrth gefn; a<br><br>1.2 datblygu protocol corfforaethol ar gyfer adolygu cronfeydd wrth gefn. | Byddwn yn datblygu meini prawf a protocol gyda ffurflen i awdurdodi cronfeydd newydd ag i adolygu cronfeydd presennol, fel fod cronfeydd wrth gefn presennol ac unrhyw gais am gronfa newydd yn cael i'w asesu yn erbyn canllaw newydd. | Mawrth 2026 | Marc Jones,<br><br>Swyddog 151 | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae drafft wedi ei baratoi eisoes a byddwn yn gofyn a gymeradwyaeth y TA er mwyn gweithredu yr uchod. | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 4 Rhagfyr 2025 |
| **Pwnc** | Trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry |
| **Rheswm dros Adrodd**<br>• Mae paragraff 3.4.8.11.3 o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor yn nodi: "Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn gwneud sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.<br>• Dylai'r Pwyllgor adolygu'r adroddiad a bod yn sicr bod y cyngor wedi darparu adlewyrchiad cywir o'r ffordd y byddwn yn ymateb i argymhelliad Archwilio Cymru | |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Amcan yr archwiliad hwn oedd:

- darparu sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
- darparu sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau; a
- Esbonio sut mae cynghorau yn mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff sector cyhoeddus eraill trwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

## 2.0 Canfyddiadau

2.1 Ar y cyfan, canfu Archwilio Cymru nad **yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian yn rheolaidd drwy ei wasanaethau a gomisiynwyd**.

2.2 Mae tudalen 6 o'r adroddiad yn nodi pam y daeth Archwilio Cymru i'r casgliad hwn.

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Adolygu'r archwiliad archwilio a'r ddau argymhelliad.
- Derbyn scirwydd fod y ffurflen ymateb sefydliad roi sicrwydd i'r pwyllgor o'r camau a gymerwyd gan y cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion.

# Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5010A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom ni’r archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam fod comisiynu’n bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da’n edrych 5

Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni’r archwiliad 5

Yr hyn a ganfuom 6

Ein hargymhellion i’r Cyngor 8

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio 9

# Adroddiad cryno

## Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn dan y dyletswyddau sydd wedi eu cynnwys yn:

- adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi (neu beidio) bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau; ac
- adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Gall yr archwiliad hwn oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004 hefyd.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:

- darparu sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y maent yn defnyddio adnoddau;
- darparu sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau; ac
- egluro sut y mae cynghorau'n mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus trwy adnabod a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle y bo'n berthnasol.

4 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

## Pam fod comisiynu'n bwysig

5 Comisiynu yw'r broses a ddefnyddir gan y Cyngor i ddylunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu. Mae'n dechrau â diffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a deilliannau a ddymunir ac yn diweddu pan fo'r Cyngor yn trefnu ei ddull darparu. Er enghraifft, trwy sefydlu tîm darparu yn fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.

6 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu leihau effaith gwasanaethau a'u gwerth am arian, hyd yn oed os yw'r prosesau sy'n dilyn, megis caffael a rheoli contractau, yn gadarn.

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych[1]

7 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau ac yn benodol i ba raddau y mae hyn wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y defnyddir adnoddau'r Cyngor.

8 Nid oedd yr archwiliad hwn yn cynnwys trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.

9 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol hwn: **Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau?**

10 Fe ddefnyddiom ni'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos y berthynas rhwng y meini prawf a'r cwestiynau archwilio. Goleuwyd hyn gan ein gwybodaeth gronnus yn ogystal â'r hierarchaeth gwestiynau a dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau o gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

# Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

11 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweliadau gyda'r uwch swyddog(ion) sy'n gyfrifol am ddatblygu dull comisiynu strategol y Cyngor. Fe wnaethom hefyd gyfweld ag uwch swyddogion â chyfrifoldeb am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu'n allanol.

12 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau sydd gan y Cyngor, fe wnaethom brofi sampl o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u sefydlu i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, fe ddewisom ni dri gwasanaeth lle mae'r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau'n allanol ac fe archwiliom ni'r trefniadau comisiynu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith. Y sampl o feysydd gwasanaeth y gwnaethom eu hadolygu yn y Cyngor oedd:

- Rheoli gwastraff a glanhau strydoedd;
- Gwasanaeth digartrefedd pobl ifainc; a hefyd
- Trafnidiaeth ysgolion (bysiau).

[1] Fe'i diffinnir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn ôl deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arfer gorau, neu 'yr hyn a allai fod', pe bai'r amodau'n well.

13 Mae’r dystiolaeth yr ydym wedi’i defnyddio i oleuo ein canfyddiadau’n gyfyngedig i’r ffynonellau hyn. Fe wnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025.

14 Rydym yn gwneud y gwaith hwn ym mhob un o’r 22 o brif gynghorau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol wrth bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu adroddiad cenedlaethol.

## Yr hyn a ganfuom

15 Ar y cyfan, **canfuom nad yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian fel mater o drefn drwy ei wasanaethau a gomisiynir.** Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

16 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o sut mae meysydd gwasanaeth unigol yn helpu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i ganlyniadau arfaethedig. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod ei wasanaethau yn arfarnu opsiynau fel mater o drefn wrth gomisiynu gwasanaethau. O ganlyniad, nid oes ganddo resymeg glir bob amser pam y dylid comisiynu’r gwasanaethau penodol hyn yn allanol. Er enghraifft, dim ond ar gyfer un o'r gwasanaethau a adolygwyd gennym yr oedd y Cyngor wedi cynnal arfarniad opsiynau cynhwysfawr. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg o wahanol opsiynau ac ystyried buddion ariannol ac anariannol.

17 Gwelsom enghreifftiau o'r Cyngor yn comisiynu gwasanaethau i ddarparwyr allanol yn seiliedig ar ddilyn y model blaenorol i gyflenwi’r maes gwasanaeth yn hytrach nag ystyried opsiynau amgen. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor o reidrwydd yn ystyried pob opsiwn i sicrhau ei fod yn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae meddu ar ddealltwriaeth glir o pam mae gwasanaethau’n cael eu comisiynu, yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, a’r gwahanol opsiynau sydd ar gael yn elfennau pwysig o’r trefniadau i sicrhau gwerth am arian.

18 Roedd y sampl o wasanaethau a gomisiynwyd a adolygwyd gennym yn dangos bod y Cyngor yn ystyried ystyr hirdymor fel rhan o drefniadau comisiynu ac y gallai esbonio'r rhesymeg dros hyd contractau. Er enghraifft, sicrhaodd meysydd gwasanaeth unigol y gallai contractau a gomisiynir gael eu hymestyn yn amodol ar y darparwyr yn cyrraedd y targedau perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn drefniadau ar gyfer y cyngor cyfan ac nid oes unrhyw oruchwyliaeth gorfforaethol o'r dyddiadau gorffen ar gyfer gwahanol wasanaethau a gomisiynir. Mae ystyried goblygiadau hirdymor a thymor byr penderfyniadau comisiynu yn lleihau’r risg o beidio â chyflawni gwerth am arian yn y tymor hwy.

19 Nid oes gan y Cyngor drefniadau i nodi sut y mae'n monitro gwerth am arian ar gyfer ei wasanaethau a gomisiynir yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Gwelsom enghreifftiau o rai meysydd gwasanaeth yn nodi sut y byddai gwerth am arian yn cael ei fonitro, ond nid oes trefniant corfforaethol i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson. Mae diffyg trefniadau monitro yn cyfyngu ar allu’r Cyngor i gael

sicrwydd bod ei wasanaethau a gomisiynir yn cyflawni’r canlyniadau a fwriadwyd ac yn darparu gwerth am arian yn y tymor byr, y tymor canolig a’r hirdymor.

20 Ychydig o ymwybyddiaeth sydd gan y Cyngor o'r effeithiau ehangach y gallai ei wasanaethau a gomisiynir eu cael. Prin yw'r dystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried sut mae'r gwasanaethau a gomisiynwyd a adolygwyd gennym yn cyd-fynd â'i amcanion llesiant blaenorol. Hefyd, wrth gomisiynu gwasanaethau, nid yw’r Cyngor wedi ystyried sut y gall gwasanaethau wneud y mwyaf o’u cyfraniad at amcanion llesiant cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, na’r nodau llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru. Gall ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau comisiynu helpu'r Cyngor i osgoi dyblygu a nodi buddion lluosog sy'n sicrhau canlyniadau gwell a gwerth am arian.

21 Nid oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau ei fod yn cynnwys y sawl y mae gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio arnynt yn y broses o'u cynllunio a'u darparu fel mater o drefn. Roedd y Cyngor yn deall pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y gwasanaethau a gomisiynir a archwiliwyd gennym ni. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth a ganfuwyd gennym fod y cyngor yn ymgysylltu â hwy wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, ac nid oes trefniadau corfforaethol i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson.

22 Nid yw'r Cyngor yn dadansoddi'n gyson y partneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw i ddarparu ei wasanaethau a gomisiynir a gwella gwerth am arian. Er enghraifft, roedd un o'r gwasanaethau a adolygwyd gennym wedi ystyried y partneriaid posibl y gall weithio gyda nhw, ond nid oedd hwn yn drefniant cyson ar draws y Cyngor. Gall gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ei gymunedau, a bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian.

23 Nid oes gan y Cyngor drefniadau i adolygu gwerth am arian ei drefniadau comisiynu yn gyson. Mae'r Cyngor yn adolygu agweddau cyfyngedig ar ei ddull comisiynu. Gwneir hyn fel rhan o fethodoleg rheoli prosiect a fabwysiadwyd gan y gwahanol feysydd gwasanaeth yn hytrach nag ymagwedd cyngor cyfan.

24 Nid yw'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'i ddull comisiynu yn eang ar draws y sefydliad na chyda phartneriaid. Er bod meysydd gwasanaeth wedi nodi gwersi a ddysgwyd o'u gweithgarwch comisiynu nid yw'r rhain yn cael eu rhannu'n rheolaidd ar draws y cyngor. Mae gwerthuso cost ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu yn bwysig er mwyn helpu i nodi meysydd i’w gwella, a rhannu dysgu, ac felly sicrhau gwerth am arian.

# Ein hargymhellion i’r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i’r Cyngor**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **A1 Sefydlu trefniadau comisiynu**<br>Er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu ac adrodd ar werth am arian gwasanaethau a gomisiynir, dylai sicrhau bod ganddo broses arfarnu opsiynau sefydledig a chynhwysfawr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar wasanaethau a gomisiynir. Dylai’r rhesymeg dros benderfyniadau comisiynu fod fel a ganlyn:<br>• wedi'u dogfennu'n llawn;<br>• wedi'i llywio gan ystyriaeth o ffactorau tymor byr a hirdymor;<br>• cael eu llywio gan farn y rhai y byddai'r gwasanaeth a gomisiynir yn effeithio arnynt; ac<br>• wedi asesu risg gan gynnwys ystyried costau a buddion llawn pob opsiwn. |
| **A2 Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor**<br>Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar draws y Cyngor yn dysgu o weithgarwch comisiynu, dylai’r Cyngor ymgorffori trefniadau comisiynu drwy:<br>• godi ymwybyddiaeth o drefniadau comisiynu a’r disgwyliadau;<br>• gwerthuso gwerth am arian ei ddull o gomisiynu gwasanaethau yn systematig; a<br>• rhannu'r hyn a ddysgwyd o weithgarwch comisiynu ar draws adrannau a chyda phartneriaid allanol lle bo'n berthnasol. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** Wrth gomisiynu gwasanaethau a yw'r Cyngor yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau?

| Level 2 questions | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| A oes gan y Cyngor resymeg eglur dros gomisiynu gwasanaethau? | A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir pa wasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham? | • Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu.<br>• Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' fod arno angen comisiynu'r gwasanaethau gan gynnwys:<br>– effaith/deilliannau bwriadedig darparu'r gwasanaeth; ac<br>– a fydd/sut y bydd y gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol |
| | A yw'r Cyngor yn cynnal arfarniad cynhwysfawr o'r opsiynau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth – gallai'r opsiynau gynnwys y canlynol, er enghraifft:<br>– darpariaeth fewnol;<br>– trefniadau partneriaeth neu ddulliau o gomisiynu o fewn ac ar draws sectorau;<br>– allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall trwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall; a<br>– chontractio'r gwasanaeth trwy broses dendro.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried costau a manteision yr opsiynau o safbwynt darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – gan gynnwys dros y tymor byr, canolig a hir.<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contract o fewn ei asesiad o opsiynau comisiynu.<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad o risg ar gyfer pob opsiwn comisiynu fel rhan o asesu costau a manteision.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth am y ffactorau cyfredol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir. |
| A yw'r Cyngor yn cynllunio dros raddfa amser briodol? | A yw'r Cyngor yn ystyried beth mae hirdymor yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn ystyried beth mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau – h.y. pa mor bell ymlaen all/ddylai gynllunio a pham.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a hirdymor wrth gynllunio ar gyfer comisiynu gwasanaethau gan gynnwys, er enghraifft, wrth bennu'r ffrâm amser ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill |

| Level 2 questions | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | A yw'r Cyngor yn deall y goblygiadau hirdymor o ran adnoddau wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu ystod o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir. |
| | A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir? | • Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir<br>• Dylai'r Cyngor ddisgrifio sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys:<br>– costau a manteision; a<br>– Chynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, canolig a hwy |
| A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei wasanaeth a gomisiynir eu cael? | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gynyddu eu cyfraniad at amcanion llesiant y Cyngor i'r eithaf? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl amcanion llesiant ei hun i sicrhau manteision lluosog, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol, e.e. ystyried amcanion tymor hwy, y gadwyn gyflenwi leol, cydnerthedd y farchnad ac effaith hyd contractau, bioamrywiaeth, a lleihau carbon |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau gynyddu eu cyfraniad at amcanion llesiant cyrff eraill yn y sector cyhoeddus i'r eithaf? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau gynyddu eu cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol i'r eithaf? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol i sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |
| A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid iawn i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynir? | A yw'r Cyngor wedi adnabod pwy y mae angen iddo eu cynnwys? | • Mae'r Cyngor yn deall pwy fydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol arnynt. Goleuwyd hyn gan ddadansoddiad rhanddeiliaid neu ymarfer tebyg. |
| | A yw'r Cyngor yn cynnwys amrywiaeth lawn y bobl? | • Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i oleuo sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig |
| | A yw'r Cyngor yn cydweithio gyda'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn deall yn dda pa bartneriaid a pha bartneriaid posibl y gallai weithio gyda hwy i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Goleuwyd hyn |

| Level 2 questions | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau.<br>• Lle mae cyfleoedd i wella gwerth am arian trwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth yn cael eu hadnabod, mae'r Cyngor yn mynd ar eu trywydd. |
| A oes gan y Cyngor drefniadau i werthuso gwerth am arian ei ddull comisiynu? | A yw'r Cyngor yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau comisiynu? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull comisiynu'n rheolaidd gan gynnwys:<br>– I ba raddau y mae gwasanaethau a gomisiynir yn cyflawni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u pennu; a<br>– Gwerth am arian modelau comisiynu a ddewiswyd gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a deilliannau. |
| | A yw'r Cyngor yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd i oleuo ymarferion comisiynu yn y dyfodol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o'i ddull comisiynu yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Ffurflen ymateb rheolwyr

Archwilio Cymru
Audit Wales

| At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig | |
|---|---|
| Corff a archwilir | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Enw'r archwiliad | Trefniadau Comisiynu Gwasanaethau |
| Dyddiad cyhoeddi | 31/07/25 |



| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | **Sefydlu trefniadau comisiynu**<br>Er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu ac adrodd ar werth am arian gwasanaethau a gomisiynir, dylai sicrhau bod ganddo broses arfarnu opsiynau sefydledig a chynhwysfawr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar wasanaethau a gomisiynir. Dylai'r rhesymeg dros benderfyniadau comisiynu fod fel a ganlyn:<br>• wedi'u dogfennu'n llawn; | Bydd y Cyngor yn sefydlu grwp llywodraethiant cyngor cyfan; byddwn yn ystyried amcanion y grwp, all gynnwys:<br>• Cefnogi prosesau o wneud a dogfenu penderfyniadau strategol | Rhagfyr 2026 | Rheolwr Cynllunio a Perfformia d Corfforaeth ol & Pennaeth Awdit | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | • wedi'i llywio gan ystyriaeth o ffactorau tymor byr a hirdymor;<br>• cael eu llywio gan farn y rhai y byddai'r gwasanaeth a gomisiynir yn effeithio arnynt; ac<br>• wedi asesu risg gan gynnwys ystyried costau a buddion llawn pob opsiwn. | Sefydlu Cylch Gorchwyl ar gyfer y grwp yma.<br><br>Yn 2024 cynhaliwyd y cyngor arolwg trigolion gan weithio ar y cyd hefo WLGA a data Cymru. Bydd y Cyngor ydy cymryd i ystyriaeth canlyniadau yr arolwg yma wrth ystyried trefniadau comisiynu gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio hefo WLGA a Data Cymru i gynnal yr arolwg yma i'r dyfodol. | | | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **A2** | **Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor**<br>Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar draws y Cyngor yn dysgu o weithgarwch comisiynu, dylai'r Cyngor ymgorffori trefniadau comisiynu drwy:<br>• godi ymwybyddiaeth o drefniadau comisiynu a'r disgwyliadau;<br>• gwerthuso gwerth am arian ei ddull o gomisiynu gwasanaethau yn systematig; a | Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Caffael Strategol 2024 i 2029 mae'r cynllun yn dangos ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio ein trefniadau masnachol i gefnogi busnesau lleol cymaint a phosib. Hefyd ein bwriad i adnabod elfennau effeithiolrwydd ac yn gyrru arloesedd yn ei flaen, tra'n | | | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | • rhannu'r hyn a ddysgwyd o weithgarwch comisiynu ar draws adrannau a chyda phartneriaid allanol lle bo'n berthnasol. | sicrhau bod gwasanaethau yn effiethiol o ran cost.<br><br>Rydym wedi paratoi Llawlyfr Caffael newydd i staff sy'n ganllaw i gyd fynd gyda'r ddeddf Gaffael newydd.<br>Mae rhan penodol i'r canllaw yma sy'n cyfarch:<br>• Y trefniant presennol ag archwilio trefniadau presennol y cyngor<br>Gyda'r pwrpas i herio comisiynu i ystyried a oes | | | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | | wir angen yr hyn maent eisiau ei brynu.<br><br>Gweithred: Bydd y Cyngor fel rhan o'n cynllun gweithredu i gyfarch gofynion y Ddeddf yn sefydlu strwythur i rannu gwersi a ddysgwyd yn dilyn trenfiadau comisiynu gyda staff eraill. | Medi 2026 | Rheolwr Caffael | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 4 Rhagfyr 2025 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2025-26 f5 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae blaen raglen waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen ddatblygu yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2025-26 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

# Atodiad A – Blaen Raglen Waith 2025-26 f5

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | 23 Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2) | | | | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)<br><br>Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5) |
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f2 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2024-25 (3.4.8.3.1/2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f3 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f4 (3.4.8.3.2) | | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f5 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2024-25 (3.4.8.4.4) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2) | | | |

[1] Cyfarfod arbennig

| **Swyddogaeth Graidd** | **26 Mehefin 2025** | **16 Gorffennaf 2025** | **30 Medi 2025** | **23 Hydref 2025[1]** | **4 Rhagfyr 2025** | **3 Chwefror 2026** | **Ebrill/Mai 2026** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | Adroddiad Blynyddol 2024-25 (3.4.8.5.1/2/3/4) | ~~Adroddiad Blynyddol 2024-25 (3.4.8.5.1/2/3/4)~~ | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2026-27 (3.4.8.5.1/3/4) | |
| Gwerth am arian (3.4.8.6) | *Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6.3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)* | | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Terfynol 2024-25 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | | *Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | ~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)~~ | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>**Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)** | | ~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)~~<br><br>~~Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)~~<br><br>**Adroddiad Blynyddol** | **Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)** | |

Tudalen 235

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | 23 Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)** | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | ~~Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~<br><br>~~Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~ | | **Adolygiad o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)**<br><br>**Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)** | | |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | *~~Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2024-25 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)~~* | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2024-25 (3.4.8.9.4/5/6)<br><br>Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2024-26 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6)<br><br>***Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban*** | | ***Archwilio Cymru Nodyn Briffio: Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 – diweddariad ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (3.4.8.9.6) (3.4.8.11.1/2/3)*** | | |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | 23 Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ***Blynyddol 2024-25 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)*** | | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.5/6/7/8/ 11/14/15) (3.4.8.6.3)<br><br>Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2024-25 (3.4.8.10.1/8/11/ 13)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2025-26 (3.4.8.10.1/2/4/ 5)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Dadansoddiad o fylchau o gydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU (3.4.8.10.1/2/8/11 /13) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | 23 Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | Cynllun Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.1/3) | | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2025) (3.4.8.11.2/3) | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4) | ~~Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch2 2025) (3.4.8.11.2/3)~~<br><br>Trefniadau comisiynu gwasanaethau (3.4.8.11.1/2/3)<br><br>Rheolaeth strategol cronfeydd wrth gefn (3.4.8.11.1/2/3)<br><br>**Archwilio Cymru Nodyn Briffio: Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 – diweddariad ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (3.4.8.9.6) (3.4.8.11.1/2/3)** | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch3 2025) (3.4.8.11.2/3)<br><br>Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4 2025) (3.4.8.11.2/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2024-25 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3) | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | 23 Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | | Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1) | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | ~~Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2)~~ | ~~Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25 (3.4.8.14.1)~~<br><br>~~Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2)~~ | | **Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25 (3.4.8.14.1)**<br><br>**Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2)** | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | | ~~Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3)~~ | **Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3)** | ~~Adroddiad blynyddol Hunan-asesiad, Perfformiad a Llesiant 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3) (Darpariaethol)~~ | | | |
| Asesiad Perfformiad | | Themâu i'w hystyried gan Asesiad Perfformiad y Panel (3.4.8.16.1) | | | | **Adroddiad Asesiad y Panel (3.4.8.16.1/2/3)** | |

| Swyddogaeth Graidd | 26 Mehefin 2025 | 16 Gorffennaf 2025 | 30 Medi 2025 | 23 Hydref 2025[1] | 4 Rhagfyr 2025 | 3 Chwefror 2026 | Ebrill/Mai 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Panel (3.4.8.16)[2] | | | | | | | |
| 3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol[3] | | | | | | | |



[2] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

[3] Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Atodiad B – Rhaglen Ddatblygu (3.4.8.2.10)

## Hyfforddiant i'r pwyllgor

| Maes | Dyddiad a ddarparwyd ddiwethaf | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg | Amherthnasol | Sesiwn Briffio | Mathew Henshaw, Prif Swyddog Digidol | 11/02/25 | |
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Mehefin 2023<br>Awst 2023 | | | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5.2) | Medi 2023 | | | | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Hydref 2023 | | | | |
| Atal Twyll a Llygredd | Rhagfyr 2023 | | | | |
| Rheoli Risg | Mawrth 2024 | Sesiwn Briffio | Zurich Resilience Solutions | 10am 04/12/25 | |

Tudalen 241

## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |

**Cyfarwyddiadau i'r pwyllgor**

| Teitl | Arwynebedd | Canolig | Darparwr | Dyddiad Darparwyd |
|---|---|---|---|---|
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd | Newidiadau sydd ar ddod i'r safonau archwilio mewnol a sut y bydd hynny'n effeithio ar aelodau'r pwyllgor archwilio. | Nodyn Briffio | CIPFA | 24/12/24 |
| Cylchlythyr CIPFA Llywodraethu Gwell | Gwybodaeth i bwyllgorau archwilio ynghylch cyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Atodiad i Fframwaith Llywodraethu 2016 sy'n cwmpasu'r adolygiad blynyddol o lywodraethu a'r datganiad llywodraethu blynyddol. | Cylchlythyr | CIPFA | 07/02/25 |
| Archwilio Cymru - Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol a chanllawiau poced ar effaith gadarnhaol | Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllaw poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio. | Canllaw poced | Archwilio Cymru | 25/02/25 |
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol | Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2025. | Nodyn Briffio | CIPFA | 17/04/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus CIPFA – Gallai mabwysiadu AI 'arbed £8bn y flwyddyn i gynghorau Cymru a Lloegr' | Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn bob blwyddyn trwy integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gweithrediadau. | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/05/25 |
| CIPFA / Solace Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Cyhoeddi Atodiad | Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethu a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol (AGS) sy'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. | Cyhoeddiad | CIPFA | 20/05/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus – Rheolau technoleg: pwysigrwydd cael polisi DA | Erthygl ar bwysigrwydd sefydliadau sydd â pholisi Deallusrwydd Artiffisial (DA). | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/07/25 |